**CYDBWYLLGOR ARCHWILIO**

**1pm - 7 Rhagfyr 2023**
**Wyneb yn wyneb yn Ystafell Gynhadledd 1 ac Ar-lein ar Microsoft Teams**

**AGENDA**

**Yn bresennol:**

| **CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:** | |
|---|---|
| Rachel Barber – Cadeirydd<br>John Cunliffe<br>Allan Rainford | Julie Perkins<br>Sarah Davies |
| **SWYDDOGION YR HEDDLU**: | |
| Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau<br>Guto Edwards – Pennaeth Cyllid<br>Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol<br>Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau<br>Y Prif Uwcharolygydd Dros Dro Simon Williams – Gwasanaethau Corfforaethol | James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth/Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd<br>Dewi Williams – Cyfrifydd Rheolwyr |
| **SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:** | |
| Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol<br>Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid | Angharad Jones – Cynorthwyydd Personol i'r Prif Weithredwr |
| **ARALL YN BRESENNOL** | |
| Helen Cargill, TIAA | Sabel Williams, Archwilio Cymru |

| | **Eitemau Sefydlog** | | **Diben** | **Tudalen** | **Amser** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau a Datganiadau o Ddiddordeb** | Cadeirydd | | | |
| 2 | **Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf**<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023 yn gywir. | Cadeirydd | | | 5 mun |
| 3 | **Cofnod Gweithrediadau** | Cadeirydd | | | 5 mun |
| | **Eitemau Sefydlog** | | | | |
| 4 | **Diweddariad Sefydliadol**<br>Diweddariad ar lafar yn unig.<br>Cwestiynau i'w cyflwyno o flaen llaw a'u hateb tu allan i'r cyfarfod. | Prif Swyddog Gweithredol a’r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | Gwybodaeth | | 5 mun |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Diweddariad HMICFRS a Dilynwr Gweithrediadau** | Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol | Sicrwydd | | 10 mun |
| 6 | **Archwilio Mewnol**<br>a. Archwilio Mewnol SICA 2023/24<br>b. Adroddiad Rheolwyr | a. Archwilio Mewnol<br>b. Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Swyddog Cyllideb | Sicrwydd | | 10 mun |
| 7 | **Diweddariad Risgiau**<br>- Datblygiad Proses Risg a Chofrestr Risgiau Bresennol<br>- Cofrestr Risg SCHTh | Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes<br><br>Prif Swyddog Gweithredol / Prif Swyddog Cyllid | Sicrwydd | | 10 mun |
| 8 | **Rhaglen Waith 2023/24** | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Swyddog Cyllid | Penderfyniad | | 5 mun |
| | **Eitemau Sefydlog** | | | | |
| 9 | **ISA 260 a llofnodi cyfrifon** | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Swyddog Cyllid | | | 20 mun |
| 10 | **Archwilio Cymru – Llythyr Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol** | Archwilio Cymru | | | 10 mun |
| 11 | **Rhaglen Gyfalaf – Diweddariad** | Pennaeth Cyllid | | | 10 mun |
| 12 | **Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys** | Pennaeth Cyllid | | | 10 mun |
| 13 | **Diweddariad Llywodraethu** | Prif Swyddog Cyllid | | | 5 mun |
| 14 | **Diweddariad gan yr Adran Gyfreithiol** | Cyfreithiwr yr Heddlu | | | 5 mun |
| 15 | **Sesiwn friffio**<br>- **Cronfa Strydoedd Diogelach/Diogelwch Merched yn y Nos**<br>- **Trais yn Erbyn Merched a Genethod.** | Rheolwr Comisiynu | Sicrwydd | | 20 mun |
| | **Unrhyw Fater Arall (Hysbyswch y cadeirydd cyn y cyfarfod)** | | | | |
| | **DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL**<br>28 Mawrth 2024<br>30 Gorffennaf 2024<br>26 Medi 2024<br>31 Hydref 2024 (darparu llofnodi Cyfrifon)<br>28 Tachwedd 2024 | | | | |
| | | CYFANSWM | | | 2.20hrs |

**CYDBWYLLGOR ARCHWILIO**

**Ar-lein drwy Microsoft Teams**
**28 Medi 2023 am 13:00**

**PRESENNOL**

| **CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:** |
|---|
| Rachel Barber – Cadeirydd<br>John Cunliffe<br>Allan Rainford<br>Sarah Davies<br>Julie Perkins |
| **SWYDDOGION YR HEDDLU**: |
| Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau<br>Guto Edwards – Pennaeth Cyllid<br>Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol<br>Y Prif Uwcharolygydd Simon Williams – Gwasanaethau Corfforaethol<br>James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes<br>Phil Kenyon – Cyfreithiwr yr Heddlu<br>James Davies – Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol<br>Dewi Williams – Cyfrifydd Rheolwyr<br>Helen Wynne-Williams – Pennaeth Technoleg<br>Kerrie Ambrose – Pennaeth Newid Corfforaethol |
| **SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:** |
| Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol<br>Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid<br>Angharad Jones – Cynorthwyydd Personol i'r Prif Weithredwr (cofnodion) |
| **POBL ERAILL YN BRESENNOL** |
| Helen Cargill, TIAA<br>Sabel Wiliam, Archwilio Cymru |

## 1. YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ymddiheuriadau – Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau
Anna Pretious – Rheolwr Amgylcheddol/Arbed Ynni

Datganiadau o ddiddordeb:
Kate Jackson – perthynas yn gweithio i Archwilio Cymru

## 2. COFNODION A CHOFNOD GWEITHREDIADAU

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir.

## 3. COFNOD GWEITHREDIADAU

Diweddarwyd y Cofnod Gweithrediadau a bydd yn cael ei gylchredeg gyda'r cofnodion. Y gweithrediadau a argymhellwyd eu cau ac a gytunwyd eu cau oedd: 28/3 3, 8. 27/3 3,5,6a, 6c, 7, 8, 10, 11, 12.

## 4. DIWEDDARIAD SEFYDLIADOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariadau o'r adroddiadau gan Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Rhoddwyd diweddariadau ar y gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf. Holwyd ac atebwyd cwestiynau tu allan i'r cyfarfod.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor os gallai'r Cydbwyllgor dderbyn manylion pellach ar gamerâu corff yn dilyn y cyhoeddiad diweddar yn y wasg.

Dywedodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol ei fod wedi gofyn am fanylion gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwirio os oedd un o'r 150 achos a nodwyd yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru. Mae Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol yn hyderus nad ydy'r ffigyrau hyn yn cynnwys unrhyw swyddogion o Ogledd Cymru. Derbyniwyd cais Rhyddid Gwybodaeth sydd hefo geiriad tebyg na wnaethant ymateb iddo ac felly ni ddylai'r wybodaeth a gyhoeddwyd gynnwys data Gogledd Cymru.

Hysbyswyd nad ydy swyddogion yn gallu dileu ffilm camerâu corff ac y cedwir fideos am 30 diwrnod ac am 99 mlynedd os ydynt eu hangen fel tystiolaeth.

Bydd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol yn rhoi diweddariad pellach yng nghyfarfod nesaf y cydbwyllgor.

Nododd y Prif Swyddog Gweithredol y gwnaiff y SCHTh barhau craffu a goruchwylio'r mater camera corff. Nododd fod swyddogion drylliau tanio wedi bod yn cael sylw cyhoeddus dros y dyddiau diwethaf. Hysbyswyd fod gwaith yn cael ei wneud yn lleol er mwyn ceisio sicrwydd o ran y tîm cynghrair drylliau tanio sydd gan Ogledd Cymru hefo Swydd Gaer er mwyn deall unrhyw effaith mae'r mater hwn wedi'i gael ar swyddogion yn lleol.

| | |
|---|---|
| Gweithrediad 4 | Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i roi diweddariad ar gamerâu pellach a'r Prif Swyddog Gweithredol i roi diweddariad ar effaith lleol ar swyddogion drylliau tanio pellach yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio. |

## 5. DIWEDDARIAD HMICFRS A DILYNWR GWEITHREDIADAU

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio y diweddariad a roddwyd o fewn y papur a bod gwaith yn parhau i gynorthwyo cwblhau'r 11 AFIs a dderbyniwyd o adroddiad arolwg PEEL 2022.

Mae gan bob AFIs swyddog arweiniol o fewn y sefydliad ac mae gwaith yn mynd yn ei flaen wrth baratoi ar gyfer arolwg nesaf PEEL. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen PEEL wedi cael ei sefydlu. Bydd y Grŵp hwn yn dwyn perchnogion yn atebol am gynnydd y meysydd busnes hynny.

Mae arolygon pellach wedi cael eu gwneud:

- Troseddau Difrifol a Threfnedig – disgwylir cyhoeddi'r adroddiad terfynol o fewn y misoedd nesaf.

DRAFT

- Arolwg Fetio – mae gwaith ar yr AFIs o'r arolwg hwn ymhell ar y gweill. Mae'r mwyafrif o bwyntiau a gyfeirir atynt yn adlewyrchu'r rhai hynny a ddosbarthwyd i heddluoedd fel rhan o'r adroddiad cenedlaethol ar fetio, camymddygiad a chasineb at ferched.
- Adroddiad Thematig Cenedlaethol ar fetio, camymddwyn a chasineb at ferched yn y gwasanaeth heddlu – mae heddluoedd wedi rhoi diweddariadau i CCPSH ac mae gwaith pellach ar y gweill ar AFIs sy'n weddill.
- Arolwg Dalfeydd – Ni fydd HMICFRS bellach yn rhoi adolygiadau cynnydd o ran argymhellion dalfeydd oherwydd problemau gallu. Mae'r Tîm Archwilio wedi gwerthuso cynnydd yn ystod mis Medi a byddant yn cadarnhau hyn hefo HMICFRS.

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio fod yr Heddlu'n creu dilynwr er mwyn rhoi cipolwg ar y gwaith hwn. Gwnaethant ofyn pa gyfarfod llywodraethu fydd yn goruchwylio.

Dywedodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol fod y dilynwr yn eu galluogi nhw ddilyn a monitro cynnydd y sefydliad cyfan. Ar ben hyn mae gwaith yn mynd yn ei flaen er mwyn ceisio paratoi ar gyfer yr arolwg nesaf. Mae adroddiadau allweddol wedi cael eu cyhoeddi ynghylch themâu cenedlaethol allweddol. Mae'r adroddiadau hyn cael eu cyflwyno i Grŵp Gorchwyl a Gorffen PEEL a wnaiff hefyd fonitro.

## 6. ARCHWILIO MEWNOL

### a. ARCHWILIO MEWNOL SICA 23-24

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd o ran Cynllun Blynyddol 2023-24 hyd at 4 Medi 2023.

Mae dau archwiliad wedi'u cwblhau ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Archwilio. Ni chodwyd unrhyw fater. Mae gwaith pellach wedi cael ei roi bellach heb argymhellion.

Holodd aelod o'r CA os oedd yr archwiliad Rheolaeth Gyllidebol yn edrych ar ddiffyg ymwybyddiaeth o fewn y sefydliad i gyllideb gyffredinol y sefydliad.

Hysbysodd Archwilio Mewnol nad hi wnaeth yr archwiliad ond byddai'n gofyn i'r archwilydd priodol roi adborth ac adrodd yn ôl i aelodau.

| | |
|---|---|
| Gweithrediad 6a | Archwilio Mewnol i hysbysu aelodau'r CA a nodwyd yn ystod archwiliad Rheolaeth Gyllidebol fod diffyg ymwybyddiaeth o fewn y sefydliad i'r gyllideb sefydliadol gyffredinol. |

Nododd y Pennaeth Cyllid nad oedd yn cytuno hefo AHEM gan y dylai uwch reolwyr fod yn ymwybodol a chymryd rhan lawn yn y broses gynllunio a bod camau'n cael eu cymryd er mwyn ceisio ehangu'r gynulleidfa ar gyfer y wybodaeth hon.

Nododd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol ei fod yn synhwyro fod yr heddlu cyfan yn ymwybodol o'r sefyllfa ariannol bresennol a bod pawb yn cydnabod hyn. Argymhelliad HMICFRS oedd i wybodaeth ariannol gael ei lledaenu drwy'r sefydliad.
Nododd aelod o'r CA fod y polisi gwrthlygredd o dan adolygiad. Holodd a ellid cael archwiliad dilynol pan roedd y polisi hwn wedi'i ddiweddaru a'i wreiddio o fewn y sefydliad. Mae hyn er mwyn cael sicrwydd fod Heddlu Gogledd Cymru'n cymryd y mater hwn o ddifrif.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau gyfrannu i'r cynllun archwilio ac mae am ofyn i'r Swyddog Cyllidebau a Chyllid fynd â hyn yn ei flaen.

| | |
|---|---|
| Gweithrediad | Y Cyfarwyddwr Cyllid i ofyn i'r Swyddog Cyllidebau a Chyllid ymgorffori archwiliad |

DRAFT

| | |
|---|---|
| 6b | dilynol ar chwythu chwiban i gynllun archwilio y blynyddoedd nesaf. |

b. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/23

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio Adroddiad Blynyddol 2022/23 sy'n crynhoi canlyniadau adolygiadau a gyflawnwyd ar fframwaith llywodraethu'r sefydliad, rheoli risg a rheolaeth.

c. TROSOLWG ARCHWILIO MEWNOL – ADRODDIAD RHEOLWYR

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch rheolaethau mewnol o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod y llinellau amser ar gyfer sawl argymhelliad a godwyd o fewn Rheoli Absenoldeb AD yn cael ei ymestyn. Mae'r mater hwn wedi cael ei drafod mewn fforymau mewnol ac mae'n cael ei gydnabod fel maes gwaith pwysig. Rhoddir diweddariad yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.

| | |
|---|---|
| Gweithrediad 6c | Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i roi diweddariad ar gynnydd o ran yr argymhellion a godwyd o archwiliad Rheoli Absenoldeb AD yn y Cydbwyllgor Archwilio nesaf. |

Nododd aelod o'r CA eu pryder o ran yr amser a gymerwyd i weithredu'r newidiadau gan y dylent fod yn faterion syml.

Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ei fod yn fater o gyrchu'r argymhellion a bydd yn egluro hyn o fewn y diweddariad nesaf. Nid ydy'r diweddariadau a roddwyd yn adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud a bod argymhellion yn symud ymlaen. Ni adlewyrchir hyn o fewn yr adroddiad. Mae angen mwy o eglurder ar y gwaith sy'n digwydd a bydd yn rhoi mwy o ddiweddariadau ystyriol yn y cyfarfod nesaf.

Holodd aelod o'r CA os ydy'r dyddiad cau ar gyfer cyflawni'r argymhellion fetio yn mynd i gael eu colli.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn trafod hefo'r Swyddog Cyllidebau a Chyllid ac yn adrodd yn ôl i aelodau'r CA tu allan i'r cyfarfod.

| | |
|---|---|
| Gweithrediad 6d | Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drafod archwiliad Fetio hefo'r Swyddog Cyllidebau a Chyllid a hysbysu aelodau'r CA tu allan i'r cyfarfod ynghylch a fethir y dyddiadau cau cyflawni. |

## 7. DIWEDDARIAD RISG

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur Diweddariad Risg ar 25 Awst 2023.

Diolchodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i Arweinydd Risg y CA am eu cymorth wrth edrych dros faterion risg hefo'r Swyddog Risg Corfforaethol.

Nodwyd bod pedair risg wedi cael eu hagor a bod pedair wedi'u cau ers y cyfarfod diwethaf a bod dau weithrediad ar y dilynwr gweithrediadau yn dangos nad ydynt ar y gweill. Roedd hyn oherwydd oedi mewn adrodd o ran yr eitemau hyn a'u bod bellach ar y gweill.

DRAFT

8. **RHAGLEN WAITH 2023/24**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r rhaglen waith ddiweddaraf a gyflwynwyd. Nododd y Prif Swyddog Cyllid y diweddarwyd y rhaglen drwy gydol y cyfarfod gyda sylwadau aelodau.

Holodd y Cadeirydd a ellir amlygu eitemau cyfarfod mis Rhagfyr gan fod llawer o eitemau agenda ar y rhaglen waith.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod llawer o'r eitemau a restrir yn eitemau statudol na ellir eu symud.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau tynnu'r eitemau canlynol:

Diweddariad Gwerth am Arian – wedi'i ymgorffori yn y diweddariad sefydliadol.
Diweddariad moeseg – Cadeirydd Moeseg newydd wedi'u penodi – gohirio i gyfarfod diweddarach.
PEEL HMICFRS - arolwg nesaf ddechrau 2024 – cynnwys diweddariad o fewn y diweddariad HMICFRS a roddir ym mhob cyfarfod.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Prif Swyddog Gweithredol edrych ar ansawdd papurau a gyflwynir, yn enwedig o ran y cloriau a grëir. Gofynnwyd hefyd edrych ar yr angen i amlygu a ydy'r papurau'n berthnasol i newidiadau, allbwn, pryderon neu risgiau o fewn y clawr. Gall hyn gynorthwyo trafodaeth.

| | |
|---|---|
| Gweithrediad 8a | Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Prif Swyddog Gweithredol i edrych ar ansawdd papurau a gyflwynir i'r CA a sicrhau fod y cloriau'n adlewyrchu penderfyniadau/materion o bwys yn ddigonol. |

Holodd aelod o'r CA a fydd Archwilio Cymru'n gallu cwblhau cyfrifon a chreu'r llythyr rheoli cyn cyfarfod mis Rhagfyr.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid fod gwaith ar y gweill ac y bydd yr adroddiad yn barod ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr. Hyd yma, mae pethau'n mynd yn iawn. Y gobaith ydy bydd yr archwiliad yn cael ei gwblhau erbyn y cyfarfod ychwanegol ym mis Hydref sydd wedi'i drefnu a bydd y cyfrifon ond angen eu cadarnhau ar ôl y dyddiad hwn.

Hysbysodd Archwilio Cymru fod ganddynt dîm yn yr Heddlu ar hyn o bryd. Y gobaith ydy byddant yn gallu rhoi papurau ymhellach cyn cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr. Mae Archwilio Cymru yn dal i aros am ganllawiau gan y Tîm Technegol o ran rhai meysydd, yn enwedig o ran y gweddill ar bensiynau. Rydym yn gobeithio y derbynnir y canllawiau'r wythnos nesaf er mwyn galluogi ymgymryd â'r gwaith hwn.

Holodd aelod o'r CA a ellir amlygu eitemau gorfodol ar y rhaglen waith.

| | |
|---|---|
| Gweithrediad 8b | Y Prif Swyddog Cyllid i amlygu eitemau agenda gorfodol yn y rhaglen waith. |

9. **DATGANIAD STRATEGAETH RISG A PHARODRWYDD RISG TERFYNOL**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn Adolygiad Blynyddol Fframwaith Rheoli Risg a Mapio Sicrwydd yr Heddlu.

Nodwyd fod y Fframwaith Rheoli Risg a Mapio Sicrwydd yr Heddlu wedi'i gyflwyno i Uwch Dîm Arweinyddiaeth Heddlu Gogledd Cymru ar 25 Gorffennaf ac mae wedi'i gefnogi'n llawn.

Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i eiriad risgiau, yn aml o niweidiol i ochelgar neu fel arall, ond mae'r maes risg yn parhau'r un fath.

DRAFT

Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion am yr adolygiad trwyadl sydd wedi digwydd a'r broses lywodraethu a nodwyd.

## 10. DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Cyd-lywodraethu a'r mewnbwn a gafwyd gan y Bwrdd Sicrwydd.

Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion am eu gwaith ar yr Adolygiad Llywodraethu a sut mae hyn wedi esblygu dros y blynyddoedd.

Cyflwynodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol y gwaith a ymgymerwyd ar yr Adolygiad Llywodraethu a nododd fod craffu allanol wedi beirniadu'r trefniadau llywodraethu o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Ymgymerwyd â'r adolygiad llywodraethu'n fewnol ac mae bellach yn plethu hefo gweledigaeth yr Heddlu o dan gyfarwyddyd y Prif Gwnstabl newydd. Mae llawer o waith wedi ei wneud ar y dogfennau sy'n ategu'r cynllun hwn. Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl newydd ar gyfer y byrddau cyflawni hefo Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol yn mynd o amgylch y Byrddau Uwch Reoli er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gydnaws â'r weledigaeth.

Holodd aelod o'r CA sut y sicrhaodd fod y rhai sy'n bresennol mewn cyfarfodydd yn cael eu trin yn gyfartal a'u bod yn cael eu galluogi i wneud penderfyniad a chyfrannu'n gyfartal o fewn y strwythur.

Dywedodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr egwyddorion llywodraethu yn ei gwneud hi'n glir fod y swyddogion sy'n bresennol yn y cyfarfodydd yn ymwybodol o'u diben o fewn y cyfarfod a'r hyn sydd i'w ddisgwyl ganddynt. Mae'r Cynllun Dirprwyo hefyd yn ategu pob cyfarfod gan sicrhau fod gwneud penderfyniadau yn cael ei ddirprwyo i'r lefel iawn. Mae hyn wedi sicrhau cadeirydd ar lefel gywir yn y mannau amrywiol o fewn y sefydliad.

Nododd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes y bydd yr Arweinydd Llywodraethu a Pholisi Corfforaethol bellach yn cynnal cyfarfodydd misol hefo Cadeiryddion cyfarfodydd. Mae hyn er mwyn sicrhau fod yr eitemau iawn yn mynd i'r cyfarfodydd iawn ac nad ydy eitemau'n dyblygu ac yn trosglwyddo i'r gadwyn reoli.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau eu bod angen adlewyrchu'r adolygiad sy'n cael ei wneud o fewn y datganiad llywodraethu blynyddol. Nododd fod hyn wedi bod yn adolygiad llywodraethu da a dilys o fewn y sefydliad.

Mae Cwestiwn 12 PEEL yn trafod Gwerth am Arian ac mae hon wedi bod yn rhan fawr o'r gwaith hwn. Mae swyddogion hefyd wedi edrych ar heddluoedd sydd hefo gradd ragorol o ran cwestiwn 12 gan y gallai fod dysgu go iawn i'w gael ohonynt.

Holodd y Cadeirydd os oedd yr adolygiad llywodraethu wedi cael ei weithredu'n llawn a holodd pryd fydd yr adolygiad nesaf.

Dywedodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol nad ydy argymhellion yr adolygiad wedi'u gweithredu'n llawn ond eu bod yn mynd drwy'r broses gan sicrhau fod gan bawb y Cylch Gorchwyl. Mae'r gwaith yn sicr yn dal ar y gweill a dylid ei weithredu'n llawn erbyn y Nadolig.

Nododd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes y bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu'n llawn yn yr adolygiad blynyddol safonol. Dylai proses fod wedi bod mewn lle yn ddigon hir erbyn hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu gwaith. Gofynnodd a oedd cynnydd wedi bod mewn risg o ran trosglwyddo o un i'r llall.

Dywedodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes y dylai'r broses fapio sicrhau fod risg yn isel gan mai ond newid teitlau ydy rhai, sicrhau fod materion yn cael sylw cywir a rhai cyfarfodydd ychwanegol.

## 11. LLYTHYR YMHOLIADAU ARCHWILIAD

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r Llythyr Ymholiadau Archwiliad a gyflwynwyd gan Archwilio Cymru a'r ymatebion gan Reolwyr i gwestiynau.

Nodwyd bod y papur hwn yn egluro sut mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am gael sicrwydd rhesymol fod y datganiad ariannol yn rhydd o gamfynegiant perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Holodd Aelod o'r CA am yr ymateb i C2 ar dudalen 140 - lladrad mewnol – oedd hyn yn lladrad sylweddol ac ydy'r broses wedi'i diwygio er mwyn atal hyn rhag digwydd eto?

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod y mater hwn yn berthnasol i arddangosion arian parod. Ar ôl cael ei nodi, ymestynnwyd cwmpas archwiliad TIAA er mwyn rhoi adolygiad pellach o brosesau trin arian parod yr Heddlu. Mae'r digwyddiad penodol a gyfeirir yn y Llythyr Ymholiadau Archwiliad wedi symud ymlaen ac mae'r achos troseddol wedi symud ymlaen.

Mae gwaith yn parhau a gweithir drwy argymhellion pellach ar hyn o bryd. Rhoddwyd sicrwydd cyfyngedig o'r blaen gan ein harchwiliadau Eiddo a Atafaelwyd ac felly bydd yn faes i'w ailymweld o fewn amserlen archwiliad mewnol.

Holodd Aelod o'r CA hefyd am yr ymateb a roddwyd ar gyfer cwestiwn 3 tudalen 151 – adolygiadau yswiriant. Holodd pam fod y geiriad yr un fath ag yn 2021/22 a holodd na ddylai ymateb eleni fod yn wahanol.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y cronfeydd wrth gefn yswiriant wedi'u hadolygu bob pedair neu bum mlynedd a dyma pam fod y geiriad yr un fath ag ymateb blynyddoedd blaenorol.

## 12. DIWEDDARIAD CYNALIADWYEDD

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio y trosolwg a'r diweddariad a roddwyd ar faterion o ran agenda Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio Cymru Gyfan a Heddlu Gogledd Cymru a'r diweddariad a roddwyd ar gofnodi allyriadau a deddfwriaeth gwastraff sydd ar ddod.

Nododd aelod o'r CA ei bod yn ddefnyddiol gweld data'n dod trwodd. Holwyd a oedd y gwelliannau hyn oherwydd y gostyngiad yn y defnydd o nwy/trydan neu ydy hyn oherwydd Covid lle mae mwy o swyddogion yn gweithio o'r cartref.

Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau y byddai'n gofyn i Reolwr yr Amgylchedd/Arbed Ynni er mwyn rhoi data pellach.

| | |
|---|---|
| GWEITHREDIAD 12 | Rheolwr yr Amgylchedd/Arbed Ynni i roi data pellach yn dangos os oedd gwelliannau i ddefnyddio trydan/ynni oherwydd llai o ddefnydd neu os ydy hyn yn ganlyniad o'r pandemig. |

Holodd aelod o'r CA hefyd os oedd cynllun cyffredinol o'r hyn mae'r Heddlu'n anelu ei gyflawni bob blwyddyn, lle gellid dilyn cynnydd a pha mor bell mae hyn yn treiddio trwy'r sefydliad. Ydy rheolwyr y trysorlys yn chwilio am/edrych ar sefydliadau cynaliadwy?

Dywedodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol fod Heddlu Gogledd Cymru yn edrych ar greu cynllun gwaith ynghylch cynaliadwy a datgarboneiddio sy'n amlinellu'r blaenoriaethau a'r angen i ganolbwyntio ar feysydd a fydd yn rhoi'r argraff orau. Mae'r rhaglen waith yn ei fersiwn ddrafft ac mae gwaith ar y gweill. Rhoddir diweddariad pellach yn niweddariad nesaf y Cydbwyllgor Archwilio.

Nodwyd fod strategaeth Cymru Gyfan yn ddogfen wych sy'n cwmpasu'r fflyd, stad a chaffael ac sy'n arweiniad da i'r Heddlu weithio ohono. Mae gwaith yn digwydd ar y meysydd gallwn eu cyflawni.

## 13. SESIWN FRIFFIO'R CA – TREFNIADAU LLYWODRAETHU CYDWEITHREDIAD

Rhannodd y Pennaeth Newid Corfforaethol gyflwyniad gyda'r Cydbwyllgor ar y trefniadau Llywodraethu Cydweithrediad sydd mewn lle ar hyn o bryd.

Eglurodd y Pennaeth Newid Corfforaethol fod cydweithrediadau a phartneriaethau hirhoedlog sydd wedi cael eu llywodraethu tu hwnt i'r hyn fuasem yn ei weld fel llywodraethu rhaglen a phrosiect.

Holodd y Cadeirydd: pa mor aml mae cydweithrediad yn cael ei adolygu, gan ei fod tu allan i'r Adolygiad Llywodraethu? Nid ydyw wedi derbyn sicrwydd fod llywodraethu da'n digwydd.

Dywedodd y Pennaeth Newid Corfforaethol y cynhelir gwiriadau sicrwydd o ran y Cylch Gorchwyl ac yn y Byrddau Cydweithrediad sy'n bwydo i'r Bwrdd Newid Strategol. Gellir rhoi cyflwyniad i'r Cydbwyllgor Archwilio er mwyn egluro a rhoi'r sicrwydd hwn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fod Archwilio Cymru wedi edrych ar gydweithrediadau Cymru gyfan a'u trefniadau llywodraethu. Gwnaethant wedyn gynnal darn o waith pellach a oedd yn fwy penodol o ran asedau. Ehangwyd y gwaith hwn wedyn er mwyn edrych ar y Gwasanaethau Brys ar y Cyd. Dylai'r darn o waith hwn roi sicrwydd fod asiantaethau allanol wedi edrych ar y maes gwaith hwn ar sail Cymru gyfan.

Mae adolygiadau cyfnodol yn digwydd hefyd, ac fe adolygwyd cydweithrediad y gynghrair arfog ar gais Prif Gwnstabl newydd Swydd Gaer gan edrych ar y trefniadau sylfaenol ac a oedd y cydweithrediad dal yn addas. Tra nad ydy'r rhain yn gweddu'n daclus o fewn adolygiad llywodraethu Heddlu Gogledd Cymru, gellir cael sicrwydd eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gan fod cydweithrediadau ehangach yn bodoli er mwyn cynorthwyo cyflawni ein gweledigaeth ein hunain, mae llawer o graffu ar achosion unigol. Gwthir pethau'n ôl cyn mae prosiect cydweithredu'n digwydd.

Dywedodd aelod o'r CA ei bod hi a'r Pennaeth Newid Cydweithredol yn cyfarfod unwaith y mis ac y byddai'n ddefnyddio pigo'r meysydd cydweithredu mwyaf amlwg ac sydd hefo risg uchel o fewn y cyfarfodydd hyn.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau hefo'r ymdriniaeth hon. Dros amser, byddant yn cwmpasu sawl maes ac yn gallu profi pa drefniadau sydd mewn lle ac os ydynt yn gweithio.

| | |
|---|---|
| Gweithrediad 13 | Y Pennaeth Newid Corfforaethol ac arweinydd TG y CA i drafod y meysydd cydweithredol mwyaf amlwg a'r risg uchaf mewn cyfarfodydd misol. |

Holodd y Cadeirydd faint o gydweithrediadau sydd yna a bod sgwrs ar y mater hwn ond megis dechrau.

Holodd y Cadeirydd hefyd sut y gallai'r sgwrs barhau gan eu bod angen sicrhau fod y Cydbwyllgor yn cyflawni eu cylch gorchwyl ar gydweithrediad.

DRAFT

14. **PROFFILIAU GWERTH AM ARIAN HMICFRS**

Rhoddodd y Cyfrifydd Rheoli drosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio am Broffiliau Gwerth am Arian HMICFRS. Dangosodd sut maent yn rhoi sicrwydd fod Heddlu Gogledd Cymru'n mynd ati i ystyried gwybodaeth meincnodi ynghylch gwerth am arian a bwydo hyn i'r gweithgarwch mewnol priodol.

15. **UNRHYW FATER ARALL**

Nid chodwyd mater arall.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ar 7 Rhagfyr 2023 am 1pm fel cyfarfod hybrid: yn y cnawd yn Ystafell Gynhadledd 1, Pencadlys yr Heddlu ym Mae Colwyn a dros Microsoft Teams.

DRAFT

**CYDBWYLLGOR ARCHWILIO**
**COFNOD GWEITHREDIADAU o 28.09.2023**

| | |
|---|---|
| | **Ar agor** |
| | **Wedi cau** |
| | **Wedi ei ohirio** |

**Gweithrediadau newydd/agored o fis Mawrth 2021**

| DYDDIAD CYFARFOD | RHIF COFNOD | DISGRIFIAD GWEITHREDIAD | ANGEN ERBYN (DYDDIAD) | SAWL SY'N GYFRIFOL | DIWEDDARIAD |
|---|---|---|---|---|---|
| 28/03/2023 | 8 | **Diweddariad Risgiau** - Y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i rannu'r adroddiad ar yr adolygiad rheoli risg gydag aelodau tu allan i'r cyfarfod. | Ar unwaith | Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes | 28/06/23 - Rhannwyd Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Rheoli Risg i'w ymgymryd gan Gallagher Bassett gyda'r CA drwy eu Google Drive ar 07/03/23.<br>Ers hynny, mae'r Heddlu wedi newid yswirwyr i Maven. Felly, ni fydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal bellach gan Gallagher Bassett.<br>Un o anfanteision symud yswiriwr ydy fod y cymorth rheoli risg a ddarperir yn rhedeg ar y cyd â'n polisi presennol fel mantais gwerth ychwanegol. Fel y gwyddwn o'r blynyddoedd diwethaf, cynigiodd RMP sawl diwrnod rheoli risg am ddim o fewn tymor y cytundeb. Ar ben hyn, cynigiwyd cyfres o raglenni hyfforddiant gweminar ar-lein yn edrych ar feysydd cnoi cil llai. Yn anffodus, nid ydy Maven wedi'i sefydlu mewn ffordd i gynnig mor helaeth ag RMP.<br>Fodd bynnag, mae Maven wedi cynnig cronfa rheoli risg o £2,500 i'r Heddlu o dan y dyfynbris atebolrwydd.<br>Mae'r Arweinydd Risg a Pharhad Busnes ar hyn o bryd yn y broses o drosglwyddo drwy'r brocer i Maven. Mae hyn er mwyn gweld pa feysydd o Gylch Gorchwyl gwreiddiol Gallagher Bassett a allent symud ymlaen â nhw a'u trefnu o fewn y gyllideb o £2,500. Mae Maven hefyd |

| DYDDIAD CYFARFOD | RHIF COFNOD | DISGRIFIAD GWEITHREDIAD | ANGEN ERBYN (DYDDIAD) | SAWL SY'N GYFRIFOL | DIWEDDARIAD |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | wedi awgrymu anghenion hyfforddiant bach y gallent feddwl amdanynt a rhoi cyngor mewnol heb ddefnyddio'r gronfa.<br><br>Rhoddir diweddariad pellach faes o law.<br><br>27/07/2023 - Mynegodd aelod o'r CA eu siom na wnaeth yr adolygiad ddigwydd hefo Gallagher Bassett. Holodd aelod os oedd hyn yn un o'u rhwymedigaethau cytundebol ac wedi gofyn sut na wnaeth yr adolygiad hwn gymryd lle.<br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau nad oedd yn rhwymedigaeth gytundebol i Gallagher Basset. Dywedodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes nad oedd rhwymedigaeth i HGC ymgymryd â'r adolygiad hwn a byddai hyn yn lefel sicrwydd sicrwydd 3ydd lefel.<br>Dywedodd aelod o'r CA y byddai'n ddefnyddiol iawn cael yr adolygiad hwn ac mae'r un cwestiynau'n codi.<br>Dywedodd y Cadeirydd y dylai'r adolygiad hwn gael ei wneud gan ei fod yn rhoi sicrwydd i bawb.<br>Nododd Prif Uwcharolygydd Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol fod hyn dal ar y gweill ac y gwelir ffordd well ymlaen.<br>25/08/2023 - Rhoddir diweddariad ar lafar gan y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes yn y cyfarfod ar 28/09/23 ar yr Adolygiad Cymheiriaid gan Heddlu De Cymru.<br>28/09/2023 – Wedi ei gytuno gyda De Cymru ac yn edrych ar ddyddiadau fis Tachwedd. Cylch gorchwyl yn mynd i gael ei gynhyrchu ar dempled Gallagher Bassett. Bydd y Cydbwyllgor Archwilio yn gweld allbwn ac yn gobeithio i'w dablu yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr neu fis Mawrth ond gellir cael diweddariad y tu allan i'r cyfarfod.<br>**03/11/23 -** Trefniadau wedi gwneud ar gyfer Rheolwr Risg Heddlu Gogledd Cymru i ymweld â Heddlu Gogledd Cymru ar 17 Tachwedd a gwneud Adolygiad o Brosesau Rheoli Risg. Yn anffodus, ar 18 Hydref cawsom wybod bod y Rheolwr Risg De Cymru "i ffwrdd o'r gwaith ar |

| DYDDIAD CYFARFOD | RHIF COFNOD | DISGRIFIAD GWEITHREDIAD | ANGEN ERBYN (DYDDIAD) | SAWL SY'N GYFRIFOL | DIWEDDARIAD |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | hyn o bryd oherwydd amgylchiadau personol ac yn methu ymgymryd â'r adolygiad fel y cynlluniwyd".<br><br>Cyn gynted ag y bydd Rheolwr Risg HGC yn dychwelyd i'r gwaith, byddaf yn gwneud trefniadau ar gyfer Adolygiad ac yn parhau i ddiweddaru aelodau'r CA. |
| 27/07/2023 | 6b | **Archwilio Mewnol SICA 2023/24 -** Archwilio Mewnol a swyddogion i ystyried a geir data anffurfiol o fewn cwmpas yr archwiliad Diogelu Data. | CYN GYNTED A PHOSIBL | Archwilio Mewnol / Swyddog Cyllid a Chyllidebau | 01/09/2023 - Nid ydy'r Memorandwm Cynllunio Archwiliad (APM) wedi'i dderbyn.<br>28/09/2023 – Dyddiad a gytunwyr arno yn cael ei adeiladu i mewn i'r ystod. Bydd yr Archwiliad mewnol yn cylchredeg ystod i aelodau pan gaiff ei gytuno.<br>20/11/2023 – DFR wedi trafod APM gyda DPO. Data anstrwythuriedig wedi ei ymgorffori i APM.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 27/07/2023 | 10 | **Datganiad Rheoli'r Heddlu -** Datganiad Rheoli'r Heddlu i fod yn destun eitem agenda Adroddiad at Wraidd y Mater mewn cyfarfod o'r CA yn y dyfodol er gwybodaeth. | Cyfarfod mis Medi | Prif Uwcharolygydd Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol | 28/09/2023 - Wedi ei amserlenni ar gyfer cyfarfod Gorffennaf 2023 ond sesiwn wybodaeth ar gyfer FMS i'w drefnu ar gyfer y Cydbwyllgor Archwilio. Prif Uwcharolygydd Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol i drefnu a hwyluso. |
| 27/07/2023 | 13 | **Diweddariad Llywodraethu – yn cynnwys drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a chylch gorchwyl y CA** Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Prif Swyddog Cyllid i egluro'n union yr hyn a olygir o dan eitem 2.1.4 yng Nghylch Gorchwyl y CA. | Cyfarfod mis Medi | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Prif Swyddog Cyllid | 13/09/2023 - Anfonwyd e-bost at aelodau'r CA yn egluro'r hyn a olygir o dan gylch gorchwyl y CA 2.1.4.<br>28/09/2023 – Aelodau'r CA yn teimlo nad yw geiriau'r Cylch Gorchwyl ddim yn ddigon clir. I'w ystyried ymhellach yn JGB.<br>20/11/2023 – I'w drafod yn JGB. Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol i gyflwyno eglurhad i'r Cylch Gorchwyl.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.**. |
| 28/09/2023 | 4 | **Diweddariad Sefydliadol -** Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i roi | Cyfarfod mis Rhagfyr | Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol | 19/10/2023 - Diweddariad wedi ei gylchredeg i aelodau'r CA.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |

| DYDDIAD CYFARFOD | RHIF COFNOD | DISGRIFIAD GWEITHREDIAD | ANGEN ERBYN (DYDDIAD) | SAWL SY'N GYFRIFOL | DIWEDDARIAD |
|---|---|---|---|---|---|
| | | diweddariad ar gamerâu pellach a'r Prif Swyddog Gweithredol i roi diweddariad ar effaith lleol ar swyddogion drylliau tanio pellach yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio. | | | |
| 28/09/2023 | 6a | **ARCHWILIO MEWNOL SICA 23-24 -** Archwilio Mewnol i hysbysu aelodau'r CA a nodwyd yn ystod archwiliad Rheolaeth Gyllidebol fod diffyg ymwybyddiaeth o fewn y sefydliad i'r gyllideb sefydliadol gyffredinol. | Ar unwaith | Archwilio Mewnol | 20/11/2023 Cadarnhawyd nad oedd hyn yn broblem. |
| 28/09/2023 | 6b | **ARCHWILIO MEWNOL SICA 23-24** - Y Cyfarwyddwr Cyllid i ofyn i'r Swyddog Cyllidebau a Chyllid ymgorffori archwiliad dilynol ar chwythu chwiban i gynllun archwilio y blynyddoedd nesaf. | Ar unwaith | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | Ymateb FBO - Adolygir polisïau/gweithdrefnau chwythu chwiban yn flynyddol yn ystod yr archwiliadau Atal Twyll Cydweithredol. Ar gais y CA, mae'r APM wedi'i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu'r cais i brofi effeithiolrwydd y polisi Chwythu Chwiban. APM diwygiedig wedi'i lanlwytho i Google Drive.<br>**Awgrymu y caeir y gweithrediad.** |
| 28/09/2023 | 6c | **Trosolwg Archwilio Mewnol - Adroddiad Rheolwyr -** Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i roi diweddariad ar gynnydd o ran yr argymhellion a godwyd o archwiliad Rheoli Absenoldeb AD yn y | Cyfarfod mis Rhagfyr | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | 20/11/2023 - Diweddariad yn cynnwys Adroddiad Rheoli Mewnol. Diwrnod cwblhau ar gyfer y rhan fwyaf o argymhellion yw 31/01/24. Adroddiad Rheoli Mewnol.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |

| DYDDIAD CYFARFOD | RHIF COFNOD | DISGRIFIAD GWEITHREDIAD | ANGEN ERBYN (DYDDIAD) | SAWL SY'N GYFRIFOL | DIWEDDARIAD |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cydbwyllgor Archwilio nesaf. | | | |
| 28/09/2023 | 6d | **Trosolwg Archwilio Mewnol - Adroddiad Rheolwyr -** Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drafod archwiliad Fetio hefo'r Swyddog Cyllidebau a Chyllid a hysbysu aelodau'r CA tu allan i'r cyfarfod ynghylch a fethir y dyddiadau cau cyflawni. | Ar unwaith | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Swyddog Cyllid a Chyllidebau | Ymateb y Swyddog Cyllid a Chyllidebau - cafwyd trafodaethau hefo Rheolwr Fetio'r Heddlu, y CCA a'r TIAA. Mae hyn wedi arwain at ystyried "nad ydy'r argymhelliad hwn yn briodol bellach". Gwybodaeth wedi ei gylchredeg i aelodau'r CA cyn y cyfarfod ac mae ymateb byr iddo o fewn yr adroddiad archwilio mewnol. **Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 28/09/2023 | 8a | **Rhaglen Waith 2023/24 -** Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Prif Swyddog Gweithredol i edrych ar ansawdd papurau a gyflwynir i'r CA a sicrhau fod y cloriau'n adlewyrchu penderfyniadau/materion o bwys yn ddigonol. | Cyn cyfarfod mis Rhagfyr | Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Prif Weithredwr wedi ymgorffori ansawdd papur i GYNLLUN GWEITHREDU'R CA. Nodyn wedi ei gylchredeg i randdeiliaid **Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 28/09/2023 | 8b | **Rhaglen Waith 2023/24 -** Y Prif Swyddog Cyllid i amlygu eitemau agenda gorfodol yn y rhaglen waith | Cyn cyfarfod mis Rhagfyr | Prif Swyddog Cyllid | 31.10.2023 - Eitemau gorfodol wedi eu marcio ar y rhaglen waith ddiweddaraf. **Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 28/09/2023 | 12 | **Diweddariad Cynaliadwyedd** - Rheolwr yr Amgylchedd/Arbed Ynni i roi data pellach yn dangos os oedd gwelliannau i ddefnyddio trydan/ynni oherwydd llai o ddefnydd neu os ydy hyn yn ganlyniad o'r pandemig. | Ar unwaith | Rheolwr Amgylcheddol/Arbed Ynni | |

| DYDDIAD CYFARFOD | RHIF COFNOD | DISGRIFIAD GWEITHREDIAD | ANGEN ERBYN (DYDDIAD) | SAWL SY'N GYFRIFOL | DIWEDDARIAD |
|---|---|---|---|---|---|
| 28/09/2023 | 13 | **Briffio CA - Trefniadau llywodraethu ar y cyd** Y Pennaeth Newid Corfforaethol ac arweinydd TG y CA i drafod y meysydd cydweithredol mwyaf amlwg a'r risg uchaf mewn cyfarfodydd misol. | Cyn cyfarfod mis Rhagfyr | Pennaeth Newid a Chydweithredu ac Arweinydd TG CA | 22/11/2023 – Rhestr o >100 ar y cyd y tu allan i faes gwaith Pennaeth Newid Corfforaethol ac ni fyddai gan y cyfarfodydd digidol misol y capasiti i ymwneud ag agenda ehangach.<br>Pennaeth Newid a Chydweithredu yn cydlynu rhestr o'r holl gydweithredu a dyddiadau adolygiadau llywodraeth a gynhaliwyd ac wedi eu cwblhau yn cael eu rhannu gyda CA i gael sicrwydd pellach. |

**Gweithrediadau caeedig ers y cyfarfod diwethaf - archifwyd ym mis Ebrill 2022 - caewyd yn flaenorol - ar gael ar gais**

| DYDDIAD CYFARFOD | RHIF COFNOD | DISGRIFIAD GWEITHREDIAD | ANGEN ERBYN (DYDDIAD) | SAWL SY'N GYFRIFOL | DIWEDDARIAD |
|---|---|---|---|---|---|
| 08/12/2022 | 1 | **Diweddariad Sefydliadol - SCHTh -** Cyflwyniadau o'r digwyddiad Ymgyfarwyddo i gael eu cadw ar Google Drive er mwyn galluogi aelodau nad oedd yn bresennol i weld y cynnwys. | Ar unwaith | Cynorthwyydd Personol i'r Prif Weithredwr | Cyflwyniadau wedi'u cadw ar Google Drive. **Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 08/12/2022 | 2 | **Diweddariad HMICFRS -** Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau bod rhagor o fanylion o ran cyflawni gweithrediadau a risgiau cysylltiedig i'w cael o fewn papur cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio. | Cyfarfod mis Mawrth | Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol | 03/03/2022 - Dolen Adroddiad PEEL HMICFRS i'w rhannu gydag aelodau'r CA cyn y cyfarfod a diweddariad PEEL HMICFRS i'w gynnwys ar agenda mis Mawrth 23. **Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 08/12/2022 | 3 | **Archwilio Mewnol - SICA -** Archwilio Mewnol a'r Swyddog Cyllid a Chyllidebau i roi diweddariad i aelodau yn ystod mis Ionawr am archwiliadau wedi'u cwblhau a rhai sydd ar ôl ar gyfer 2022/23. | Ionawr 2022 | Archwilio Mewnol a Swyddog Cyllid a Chyllidebau | 21/12/2022 - Rhannwyd diweddariad gydag aelodau o'r CA **Awgrymu cau'r gweithrediad.** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 08/12/2022 | 5 | **Rhaglen Waith 2022/23 -** Y Prif Swyddog Cyllid i ddiweddaru'r Rhaglen Waith a chyflwyno papur diweddariad ar y praesept/cyllideb yng nghyfarfod mis Mawrth o'r CA. | Cyfarfod mis Mawrth | Prif Swyddog Cyllid | 01/03/2022 - Dolen i bapurau'r Panel Heddlu a Throsedd isod.<br>https://modgoveng.conwy.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=800&MId=9252&Ver=4<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 08/12/2022 | 6 | **Rhaglen Waith 2022/23 -** Y Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Swyddog Gweithredol i gyfarfod gydag Arweinydd Risg y CA er mwyn edrych dros gofrestr risg SCHTh. | Cyn gynted â phosibl | Prif Swyddog Cyllid / Prif Weithredwr | 14/2/23 - Gwnaeth y PSC gyfarfod â J Cunliffe ar 14 Chwefror 2023 i fynd drwy reoli risg o fewn y SCHTh, gan gynnwys sut yr uwchgyfeirir/isgyfeirir risgiau o'r gofrestr risgiau corfforaethol. Holodd JC a ydy'r broses a'r trothwyon uwchgyfeirio/isgyfeirio risgiau yn gyson ledled SCHTh a'r heddlu. Cyfeiriodd y PSC y mater at yr Arweinydd Risg a Pharhad Corfforaethol am gadarnhad.<br>**08/03/23 - Hysbysodd Arweinydd Risg HGC -**Mae Risgiau SCHTh yn cael eu cofnodi ar Gofrestr Risg yr Heddlu os ydynt yn bodloni'r un trothwy â Risgiau HGC. Gwneir hyn drwy Broses Sgorio a gytunwyd ac yn unol â'r Fframwaith Rheoli Risg a Mapio Sicrwydd. Mae unrhyw Risgiau SCHTh a ofynnir eu cau eto'n dilyn yr un broses. Hysbysir risgiau SCHTh i'r Bwrdd Gweithredol Strategol am oruchwyliaeth ac adolygiad strategol.<br>**28/03/2023** - mae aelodau'r CA yn pryderu fod cofrestrau risg yn cael eu cyfuno. Maent yn credu y dylent fod yn unigol gan y gallent achosi gwrthdaro os ydynt gyda'i gilydd. Dywedodd y PSG ei fod yn fodlon i'r ddau fod yn unigol er mwyn rhoi sicrwydd. Y PSG/PSC ac Arweinydd Risg y CA i gyfarfod er mwyn trafod.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 08/12/2022 | 7 | **Rheoli Perfformiad y Trysorlys -** Y Pennaeth Cyllid i ofyn i Arlingclose ddarparu hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys i aelodau'r CA. | Cyn gynted â phosibl | Pennaeth Cyllid | 22/12/22 - Mae cyngor y Trysorlys wedi'i anfon allan i dendr gyda dyddiad cau sef dechrau mis Ionawr.<br>28/03/2023 - Mae Arlingclose wedi'u hailbenodi. Y Pennaeth Cyllid i gysylltu er mwyn nodi dyddiad addas ar gyfer hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys.<br>**Gweithrediad wedi cau.** |
| 08/12/2022 | 8 | **Rhaglen Gyfalaf - Diweddariad -** Y Cyfarwyddwr Cyllid i rannu'r graff gydag aelodau o'r cydbwyllgor. | Cyn gynted â phosibl | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | 06/03/2023 - Casgliad o sleidiau'n amlinellu cyflawniad ariannol parth Gwariant cyfalaf a rannwyd gydag aelodau o'r cydbwyllgor.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 08/12/2022 | 9 | **Diweddariad moeseg** - Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ganfod os oedd y Pwyllgor Moeseg wedi bod ynghlwm yn y broses Archwiliadau Mewnol. | Ar unwaith | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | 02/03/2023 - Ni ymgymerwyd ag archwiliadau Moeseg penodol yn ddiweddar ac ni sbardunwyd gweithgarwch TIAA o ganlyniad i'r Pwyllgor Moeseg.<br>28/03/2023 - Bydd unrhyw faterion moesegol o'r broses archwilio yn cael ei hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Moeseg.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.**. |
| 08/12/2022 | 10 | **Diweddariad moeseg** - Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i egluro a ofynnir i ymgeiswyr a ydynt yn aelodau o'r Seiri Rhyddion fel rhan o'r broses ymgeisio/fetio. | Ar unwaith | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | 02/03/2022 - Eglurodd y CCA gyda Rheolwr Fetio'r Heddlu a gadarnhaodd nad oes ymchwiliad penodol i'r Seiri Rhyddion fel rhan o'r broses fetio.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 08/12/2022 | 11 | **Diweddariad moeseg** - Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg i rannu'r dilema a'r canlyniad gydag aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio. | Ar unwaith | Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg | 03/03/2022 - Y cyd-destun ar gyfer gweithredu oedd mater moesegol y cofnodion meddygol. Rhannwyd gwybodaeth bellach gydag aelodau o'r cydbwyllgor drwy yriant grŵp yn dilyn y cyfarfod.<br>**Awgrymu Cau Gweithrediad.** |
| 10/10/2022 | 9 | **Sesiwn Friffio at Wraidd y Mater - Strategaethau Cyfathrebu - SCHTh a HGC -** Ystyried a bwydo'n ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio, o ran sut ydym yn rhoi gwerth am arian drwy gyfathrebu wedi'i reoli i'n holl gymunedau, er mwyn ychwanegu at hyder cyhoeddus. | Mewn bod | Pennaeth cyfathrebu ac ymgysylltu SCHTh a Phennaeth Cyfathrebu HGC | 18/11/22 - Mae'r CCA wedi cysylltu a'r arweinwyr priodol er mwyn hysbysu y gwnaiff y CCA a'r Prif Swyddog Cyllid ystyried ymgysylltu a nhw ar gynllun cyfathrebu priodol.<br>08/12/2022 - Tryloywder ar danwariant yn parhau.<br>03/03/2022 - Wedi cynnwys agenda sesiwn gaeedig mis Mawrth 23 a fydd yn ystyried canfyddiadau adroddiad HMICFRS a rhoi diweddariad pellach.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 08/12/2022 | 4 | **Diweddariad Risgiau** - John Cunliffe, aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i rannu ei farn ynghylch sicrwydd risg gyda swyddogion tu allan i'r cyfarfod. | Cyn gynted â phosibl | John Cunliffe - Aelod o'r CA | 06/03/2023 - E-bost wedi'i anfon at y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i roi barn ar ddal risgiau a'i sicrwydd. Trafodir ymhellach gyda swyddogion os oes angen.<br>28/06/2023 - Mae aelod o'r CA wedi anfon e-bost at y Pennaeth Cudd-wybodaeth y mae'n ei ystyried.<br>28/06/2023 - Mae'r Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes, yr Arweinydd Risg a Pharhad Busnes a'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau Cynorthwyol wedi ystyried yr awgrym o gofnodi risg hinsawdd economaidd newydd, ond maent yn fodlon fod hyn yn cael ei gwmpasu a'i liniaru eisoes yn Risgiau 89 a 93.<br>**Awgrymir cau'r gweithrediad hwn.** |
| 08/12/2022 | 12 | **Sesiynau Briffio - Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio -** Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Rheolwr Gwarchod yr Amgylchedd ac Ynni i gyflwyno papur yn amlinellu rol y CA wrth graffu gwaith. | Erbyn cyfarfod mis Mawrth | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Rheolwr Gwarchod yr Amgylchedd ac Ynni | 06/03/2023 - Y bwriad ydy ystyried ymhellach ynghyd â Chylch Gorchwyl y CA ond y prif faes canolbwynt lle gallai'r CA ychwanegu gwerth fyddai o ran cydymffurfio gyda deddfwriaeth; cydymffurfiaeth gyda pholisi'r heddlu; ac unwaith y datblygir, craffu cynnydd cyfnodol o ran cynlluniau'r heddlu.<br>28/03/2023 - Angen ystyried ar y cyd â meysydd eraill. I'w gynnwys o fewn Cylch Gorchwyl drafft y CA. Rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf.<br>09/05/2023 - i'w drafod o dan eitem agenda Llywodraethu.<br>23.06.23 - Mae trafodaethau wedi bod ynghylch rôl y cydbwyllgor archwilio yn y maes hwn. Y cynnig ydy bod:<br>• Cynaliadwyedd yn cael ei ymgorffori i raglen waith y Cydbwyllgor Archwilio.<br>• Rhoddir adroddiadau ffurfiol i'r Cydbwyllgor Archwilio ddwywaith y flwyddyn.<br>• Rôl y Cydbwyllgor Archwilio ydy ceisio sicrwydd a chraffu o ran:<br>1. Mabwysiadau strategaeth yr heddlu.<br>2. Y risgiau a'r cyfleoedd a gyflwynir wrth gyflawni'r strategaeth hon.<br>3. Cydymffurfiaeth yr Heddlu gyda'i bolisïau, codau ymarfer a fabwysiadwyd a'r fframwaith ddeddfwriaethol ehangach.<br><br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 28/03/2023 | 1 | **Diweddariad Sefydliadol -** Y Prif Swyddog Gweithredol i rannu canrannau swyddogion o dan weithredu disgyblu o fewn heddluoedd eraill pan y cyhoeddir nhw gydag aelodau'r CA. | Ar unwaith | Prif Swyddog Gweithredol | 07.06.23 - Mae'r Prif Weithredwr wedi cysylltu â heddluoedd eraill ac wedi cael data cyfyngedig ganddynt. Cynnwys gwybodaeth o fewn y papur diweddariad sefydliadol nesaf.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 28/03/2023 | 2 | **Diweddariad Sefydliadol -** Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i rannu data'r Fframwaith gydag aelodau'r CA unwaith maent wedi'u cyhoeddi. | Cyn gynted â phosibl | Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol | Roedd newid mewn cyfeiriad yn genedlaethol a phenderfynwyd peidio â chyhoeddi data unigol yr Heddlu fel rhan o'r Fframwaith Cyflawniad VAWG.<br><br>Mae'r adroddiad ynghlwm yn un a gyhoeddwyd yn genedlaethol.<br><br><br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 28/03/2023 | 4 | **Diweddariad HMICFRS** - Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i gynnwys cynnydd lefel uchel gweithrediadau a godwyd gan HMICFRS o fewn y papur ar gyfer cyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio at y dyfodol | Cyfarfod mis Gorffennaf | Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol | Wedi'i gynnwys ym mhapur Diweddariad HMICFRS ar yr Agenda.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 28/03/2023 | 5 | **SICA Archwilio Mewnol 2022-23** - Gwnaiff y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fynd â'r mater hwn er mwyn ystyried a oes angen gosod unrhyw weithredu/prosesau pellach er mwyn sicrhau yr hawlir pob treuliad yn gywir. | Ar unwaith | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau | 23.06.23 - Mae'r broses dreuliau drwy ein system hunanwasanaeth AD ar-lein.<br><br>Mae'n gosod y pwyslais ar yr un sy'n hawlio. Gwneir cyflwyniadau ar ôl iddynt gadarnhau eu bod wedi darllen, deall a glynu at y Polisi Treuliau a Lwfansau. Dywed y polisi y gwnaiff HGC ad-dalu gwariant a dynnir, ar yr amod ei fod yn:<br><br>• Angenrheidiol<br>• Rhesymol<br>• Ar ben yr hyn fyddai'r gweithiwr fel arall wedi'i dynnu A<br>• Derbynneb fel tystiolaeth.<br><br>Dywedir yn glir y gall cyflwyno hawliad yn groes i hyn arwain at gasglu treuliau a hawliwyd yn llawn ac, os ystyrir yn briodol, disgyblu.<br><br>Mae hawliadau treuliau dal angen awdurdod rheolwr llinell.<br><br>Y cyd-destun ar gyfer y gweithredu oedd bod problem wedi bod o ran methu darllen derbynebau. Mae lanlwytho a sganio wedi dod yn haws gyda sganwyr ar safleoedd yr heddlu wedi'u hadfer ac mae derbynebau a lluniau digidol drwy ffonau symudol yr heddlu wedi lliniaru'r broblem ymhellach.<br><br>Penllanw hyn oll ydy bod y prosesau'n gymesur er mwyn sicrhau cyfreithlondeb hawliadau.<br><br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 28/03/2023 | 6 | **Trosolwg Archwilio Mewnol - Adroddiad Rheolwyr -** Y Swyddog Cyllid a Chyllidebau i rannu cynllun archwilio mewnol Gogledd Cymru 2023/24 gydag aelodau er mwyn cael cymeradwyaeth tu allan i'r cyfarfod. | Ar unwaith | Swyddog Cyllid a Chyllidebau | 04/04/2023 - Rhannwyd y cynllun gydag aelodau o'r CA.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.**. |
| 28/03/2023 | 7 | **Trosolwg Archwilio Mewnol - Adroddiad Rheolwyr -** Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Swyddog Cyllid a Chyllidebau i grynhoi a sicrhau y rhoddir diweddariadau o ran gweithrediadau a nodwyd gan yr archwiliad mewnol. | Cyfarfod mis Gorffennaf | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Swyddog Cyllid a Chyllidebau | 23.06.23 - Trafodwyd hyn wedi'r cyfarfod. O bwys penodol oedd yr argymhellion TIAA a oedd yn gysylltiedig â 'Cyfnod 2 NEP'. Yr argymhellion perthnasol oedd 249424, 249425 a 249426.<br>Mae'r CCA wedi cynnal sawl cyfarfod gweithgor er mwyn sicrhau fod aelodau'r CA yn cael cyfarwyddyd ar y mater hwn a bod diweddariadau i'r argymhellion hyn (sy'n parhau'n dymor hir) yn rhoi digon o fanylder ar gyfer cyfarfod y CA ym mis Gorffennaf.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.**. |
| 28/03/2023 | 9 | **Rhaglen Waith 2022/23 -** Y Prif Swyddog Cyllid i i rannu llythyr yr Archwilydd Cyffredinol at Awdurdodau Lleol gydag aelodau'r Cydbwyllgor er gwybodaeth iddynt. | Ar unwaith | Prif Swyddog Cyllid | 29/03/2023 - Rhannwyd y llythyr gydag aelodau'r CA.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 28/03/2023 | 10 | **Rhaglen Waith 2022/23 -** Y Prif Swyddog Cyllid i rannu dogfen cyflwyniad i gyfrifon gyhoeddus gydag aelodau'r CA cyn y caiff ei chyhoeddi. | CYN GYNTED A PHOSIBL | Prif Swyddog Cyllid | 03/07/2023 - Rhannwyd dogfen gydag aelodau o'r CA.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 28/03/2023 | 11 | **Rheoli'r Trysorlys -** Y Pennaeth Cyllid i newid y geiriad ym mharagraff 3.6 yr Adroddiad Rheoli'r Trysorlys o Cyngor i Comisiynydd Heddlu a Throsedd. | Ar unwaith | Pennaeth Cyllid | Mae'r geiriad wedi'i newid.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 28/03/2023 | 12 | **Rheoli'r Trysorlys -** Y Pennaeth Cyllid i greu amcangyfrif o gostau a'u cynnwys o fewn papurau'r Cydbwyllgor Archwilio. | Cyfarfod mis Gorffennaf | Pennaeth Cyllid | Bydd amcanestyniadau yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau lle bo'n bosibl. Ar adegau gall fod gwybodaeth wedi'i diweddaru nad oedd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad a fyddai'n cael ei gynnwys ar sleidiau<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 28/03/2023 | 13 | **Diweddariad Llywodraethu** - Y Prif Swyddog Cyllid i adolygu cynnwys y papur a gyflwynwyd i'r Cydbwyllgor Archwilio a rhoi sicrwydd pellach o effeithiolrwydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu. | Cyfarfod mis Gorffennaf | Prif Swyddog Cyllid | Mae cynnwys y Diweddariad Llywodraethu wedi'i adolygu er mwyn sicrhau fod effeithiolrwydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn cael ei ddangos yn fwy clir o fewn y papur.<br>**Awgrymu cau'r eitem.** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 28/03/2023 | 3 | **Diweddariad Sefydliadol -** Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau aelodau fod y Polisi Chwythu Chwiban wedi'i brofi ac yn addas i'r diben. | Ar unwaith | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol | 23.06.23 - Ymgysylltodd y CCA gyda'r Pennaeth ASP o ran Chwythu Chwiban. Ceir crynodeb o'r sefyllfa bresennol isod:<br><br>Mae ein canllawiau chwythu chwiban presennol o fewn y Polisi Gwrthlygredd. Mae hyn yn cael ei adolygu i gyd ar hyn o bryd. Dechreuodd darn o waith ledled Cymru llynedd lle mae 3 o 4 heddlu Cymru wedi ceisio cyngor am bolisi Chwythu Chwiban penodol. Mae hyn wedi'i roi allan am ymgynghoriad cyfyngedig yn yr heddlu gyda chymdeithasau staff, DPS ayyb. Fodd bynnag, bydd angen ymgynghoriad llawn pan gaiff ei gynnwys yn y fersiwn o'r Polisi Gwrthlygredd sydd wedi'i ddiweddaru'n llawn. Mae hyn yn parhau'n waith ar y gweill. Y dyddiad ar gyfer cwblhau'r polisi CCU ydy mis Awst 23.<br><br>Fodd bynnag, nid ydy hyn yn dirymu'r hyn sydd gennym eisoes. Gwnaeth staff ASP, yr Adran Gyfreithiol a chynrychiolwyr o AD fynd i fewnbwn Chwythu Chwiban gan gynghorwyr llynedd. Roedd hyn er mwyn sicrhau os ydy unigolyn yn ffitio'r meini prawf hyn, byddai bob adran yn gwybod sut i ymateb yn unol â hynny. Nid yw wedi'i brofi'n benodol ers hynny.<br><br>Mae gennym ymgysylltu arwyddocaol gyda'n Llinell Uniondeb Heddlu lle mae pobl yn hysbysu am bryderon yn gyfrinachol, ond mae opsiwn cychwyn cyswllt os ydy'r unigolyn yn dymuno.<br><br>27/07/2023 Holodd aelodau'r CA a oedd y Polisi Chwythu Chwiban wedi'i brofi ac yn addas i'r diben.<br>Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i fynd ag edrych a rhoi sicrwydd pellach yn y cyfarfod nesaf.<br>13/09/2023 - Gwnaeth y CCA a Phennaeth yr ASP gyfarfod er mwyn trafod profi'r polisi. Nid oes profi annibynnol o'r polisi Chwythu Chwiban yn digwydd ar hyn o bryd.<br>Fodd bynnag, mae ystod o gamau wedi'u cymryd sy'n sicrhau fod hygyrchedd ac ymwybyddiaeth o'r polisi'n bodoli, gan gynnwys:<br>• Mae'r Polisi Gwrthlygredd i'w gael drwy Fewnrwyd yr Heddlu<br>• Lansiwyd ymgyrch "Gwybod lle mae'r llinell" ledled yr Heddlu 2022 yn canolbwyntio ar ddisgwyliadau ymddygiad a safonau a oedd yn cynnwys ffilm |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | fideo ac ymgyrch bosteri'n canolbwyntio ar lwybrau hysbysu ar gyfer materion perthnasol.<br>• Mae llofnod yr ASP yn cynnwys manylion cysylltu â llinell Uniondeb yr Heddlu.<br>Gall Pennaeth yr ASP gadarnhau fod ymgysylltu hefo Llinell Uniondeb yr Heddlu yn digwydd yn rheolaidd.<br>Mae Polisi Gwrthlygredd wedi'i ddiweddaru yn ei gyfnod ymgynghori ar hyn o bryd. Unwaith caiff ei gwblhau, y cynnig ydy cyhoeddi "Need to Know" ledled yr heddlu er mwyn sicrhau fod ymwybyddiaeth eang o sefyllfa ddiweddaraf polisïau'r Heddlu.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 27/07/2023 | 3 | **Cofnod Gweithrediadau - Trosolwg Archwilio Mewnol** Gweithrediadau Cyfnod 2 NEP yn codi o weithrediadau a nodwyd gan archwilio mewnol | Ar unwaith | Arweinydd TG y CA | Arweinydd TG y CA i godi hefo swyddogion yn ystod y cyfarfod all-lein rheolaidd.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 27/07/2023 | 5 | **Diweddariad HMICFRS** - Prif Uwcharolygydd Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau bod cynnydd o ran meysydd i'w gwella yn cael ei gynnwys o fewn papur y cyfarfod nesaf. | Cyfarfod mis Medi | Prif Uwcharolygydd Dros Dro'r Gwasanaethau Corfforaethol | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed o ran Meysydd i'w Gwella wedi'u cynnwys yn y papur diweddariad HMICFRS diweddaraf ar gyfer y CA.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |
| 27/07/2023 | 6a | **Archwilio Mewnol SICA 2023-24** - Ceir Rheoli'r Trysorlys o fewn cynllun gwaith Archwilio Mewnol bob blwyddyn. | Cyfarfod mis Medi | Archwilio Mewnol / Swyddog Cyllid a Chyllidebau | 31/08/2023 - Hysbysodd y Swyddog Cyllid a Chyllidebau fod aelodau'r CA wedi gofyn o'r blaen i hwn fod yn archwiliad blynyddol ac mae HGC wedi glynu at hyn. Rheolir y Trysorlys yn flynyddol ac mae wedi derbyn sicrwydd sylweddol yn 2017/18, 2018/19, 2019/20, 2020/21, 2021/22 a 2022/23. Eleni, bydd yn archwiliad cydweithredol hefo Heddluoedd Gwent a De Cymru. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 27/07/2023 | 6c | **Archwilio Mewnol SICA 2023/24 -** Archwilio Mewnol i drafod cynnwys y llithriant cronfeydd o flwyddyn i flwyddyn o fewn archwiliad y Rhaglen Gyfalaf. | Cyfarfod mis Medi | Archwilio Mewnol | 12/09/2021 Mae cwmpas y Memorandwm Cynllunio Archwiliad (APM) wedi'i addasu er mwyn ymgorffori llithrant a dechreuodd y gwaith maes yn yr wythnos yn dechrau 11/09/23 |
| 27/07/2023 | 7 | **Diweddariad Risgiau -** Swyddogion i roi ffurflenni risg manylach i aelodau'r CA. | Cyfarfod mis Medi | Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes | 25/08/2023 - Bydd copïau PDF o Risgiau BYW a Risgiau a GAEWYD yn ddiweddar hyd at ddiwedd mis Awst yn cael eu cyflwyno i Gynorthwyydd Gweithredol SCHTh ar gyfer eu cadw ar Google Drive y CA cyn gynted ag y mae Arweinydd Risg a Pharhad Busnes yn dychwelyd o'u gwyliau blynyddol ar 11 Medi 2023. Medi 2023. |
| 27/07/2023 | 8 | **Rhaglen Waith 2022/23 -** Mae pawb i hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid am unrhyw eitemau ychwanegol sydd angen eu cynnwys o fewn y Rhaglen Waith ac ystyried a ellir symud unrhyw eitemau agenda o agenda mis Rhagfyr oherwydd y nifer mawr o eitemau i'w trafod. | Ar unwaith | Holl | Ar agenda'r cyfarfod eitemau a gytunwyd i'w gwaredu. |
| 27/07/2023 | 11 | **Diweddariad y CA - Rhaglen Gyfalaf** - Y Pennaeth Cyllid i rannu'r cyflwyniad hefo aelodau'r CA. | Ar unwaith | Pennaeth Cyllid | Rhannwyd cyflwyniad gydag aelodau o'r CA 04.09.2023.<br>**Awgrymu cau'r gweithrediad.** |

| **Allwedd Talfyriadau** | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| **PG** | Prif Gwnstabl |
| **PSG** | Prif Swyddog Gweithredol (SCHTh) |
| **PSC** | Prif Swyddog Cyllid (SCHTh) |
| **CCA** | Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (HGC) |
| **AROLYGON HMICFRS** | Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) Ei Mawrhydi |
| **CA** | Cydbwyllgor Archwilio |
| **HGC** | Heddlu Gogledd Cymru. |
| **SCHTH** | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **CP** | Cynorthwyydd Personol i'r PSG a'r PSC |
| **CHTH** | Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **ASP** | Adran Safonau Proffesiynol (HGC) |
| **TIAA** | Archwilio Mewnol |
| **SAC** | Swyddfa Archwilio Cymru |

HEDDLU GOGLEDD C
Gogledd Cymru diogelac

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

**Cydbwyllgor Archwilio**

**Dyddiad y Cyfarfod: 7 Rhagfyr 2023**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Diweddariad Sefydliadol y SCHTh |
| **Awdur:** | Stephen Hughes |
| **Diben yr adroddiad:** | |
| **Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer:**<br>**(ticiwch un)** | ☐ Penderfyniad<br>☐ Trafodaeth<br>☐ Sicrwydd<br>✓ Gwybodaeth |
| **Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:** | • Diweddariad Cynhadledd Pawb yn Un<br>• Penodi Gweithiwr Ieuenctid Diofn<br>• Gofal Iawn Pobl Iawn<br>• HMICFRS – Arolwg Troseddau Difrifol a Threfnedig |
| **Argymhellion:** | Bod aelodau'r CA yn nodi'r adroddiad ac y rhoddir manylion pellach yn y sesiwn gaeedig o ran Adolygiad Casey |
| **Effaith cofrestr risgiau:** | Dim |
| **Goblygiadau sicrwydd:** | Dim |
| **Effaith Cydraddoldeb:** | Dim |
| **Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:** | Dim |

| SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU / OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES | **Cydbwyllgor Archwilio 7 Rhagfyr 2023**<br><br>**Diweddariad Sefydliadol y SCHTh** |
|---|---|

## Diweddariadau

Cynhaliwyd cyfarfod blaenorol y Cydbwyllgor Archwilio (CA) ar 28 Medi 2023. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r CA ar faterion SCHTh o bwys ers hynny.

## Cynhadledd Pawb yn Un

Ar 9 Tachwedd, gwnaeth dros 100 o weithwyr proffesiynol ac arbenigwyr yn eu maes ddod at ei gilydd yng Nghanolfan Fusnes Conwy yng Nghyffordd Llandudno er mwyn trafod sut i helpu plant a phobl ifanc sy'n profi cam-drin domestig, trais rhywiol a chaethwasiaeth fodern yng Ngogledd Cymru yn well.

Bellach yn ei hail flwyddyn, roedd Pawb yn Un yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc. Edrychodd ar sut allen nhw gael eu helpu mewn sefyllfaoedd cymhleth, boed fel dioddefwyr eu hunain, neu drwy fyw mewn amgylchfyd lle mae achosion o gam-drin domestig, trais rhywiol a chaethwasiaeth fodern yn digwydd.

Roedd y gynulleidfa'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau brys, cynghorau lleol, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, timau tai ac addysg, elusennau, a gwasanaethau cymorth. Mae bob un yn gallu dod ar draws materion ynghylch cam-drin domestig, trais rhywiol a chaethwasiaeth fodern yn eu swyddi.

Ceir manylion pellach am y digwyddiad, gan gynnwys y siaradwyr yma

## Gweithiwr ieuenctid Diofn

Mae Gweithiwr Allgymorth newydd gael ei benodi gan Crimestoppers hefo'r nod o gyflwyno eu prosiect Fearless yng Ngogledd Cymru. Mae'r swydd wedi cael ei chreu hefo cyllid o Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru er mwyn helpu annog pobl ifanc riportio trosedd yn y rhanbarth.

Derbyniodd Jason Evans, sy'n wreiddiol o Landudno, y swydd newydd sef Gweithiwr Allgymorth Ieuenctid Fearless yng Ngogledd Cymru ddechrau mis Hydref. Yn fwyaf diweddar, gweithiodd Jason i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'i waith hefo pobl ifanc, sgil y bydd yn ei chyflwyno i'w rôl newydd hefo Fearless.

Fearless ydy'r gwasanaeth penodol i ieuenctid gan Crimestoppers ac mae'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc roi gwybodaeth am drosedd yn gyfan gwbl ddienw. Mae Fearless hefyd yn caniatáu pobl ifanc ddweud am drosedd drwy hyrwyddo gwasanaethau Crimestoppers, codi ymwybyddiaeth am yr hyn ydy trosedd, a thrwy chwalu rhwystrau riportio trosedd.

Mae gan Crimestoppers dîm o Weithwyr Allgymorth Fearless ar draws y wlad sy'n ymweld ag ysgolion, clybiau ieuenctid a digwyddiadau amrywiol er mwyn rhoi gwybod i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol am eu gwasanaeth.

**Gofal Iawn Pobl Iawn**

Gofal Iawn Pobl Iawn ydy fframwaith sydd wedi'i fabwysiadu'n genedlaethol yn seiliedig ar waith Heddlu Glannau Humber ym mis Mai 2020.

Mae'n canolbwyntio ar sicrhau fod y cymorth a'r gofal iawn yn cael ei roi i unigolion yn ein cymuned a all fod yn dioddef salwch meddwl. Yn hollbwysig, sicrheir fod gofal gan y gweithiwr proffesiynol iawn yn cael ei roi. Gan gydnabod nad yr heddlu ydy hynny.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cydweithio hefo heddluoedd Cymru er mwyn gweithredu pedwar maes Gofal Iawn Pobl Iawn a argymhellir dros y 18 mis nesaf, hefo'r cyntaf i fynd i fyw ddechrau 2024.

- Cyfnod 1 – Ein hymateb i "geisiadau gwirio lles" (Dechrau 2024).
- Cam 2 – Ein hymateb i unigolion sy'n gallu cerdded allan o leoliadau gofal iechyd a'r rhai hynny a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl sy'n absennol o leoliadau gofal iechyd (Gorffennaf 2024).
- Cam 3 – Cludo cleifion iechyd meddwl (Hydref 2024).
- Cam 4 – Trosglwyddo A136 a chleifion iechyd meddwl gwirfoddol i'r ysbyty (Dechrau 2025).

Mae'r gwahanu i bedwar cam yn fwriadol ac yn cael ei wneud er mwyn caniatáu partneriaid a all gael eu heffeithio gan y newidiadau baratoi'n llawn. Mae adolygiadau cychwynnol wedi digwydd er mwyn magu dealltwriaeth am y lefel galw tebygol o'r dechrau'n deg. Mae ein partneriaid i'w gweld yn sicr mai ychydig o effaith fydd ar eu gwasanaethau, hefo 15 achos y diwrnod ar draws Gogledd Cymru i gyd.

**Arolwg Troseddau Difrifol a Threfnedig HMICFRS**

Mae Gogledd Cymru yn un o chwe heddlu sy'n Uned Troseddau Trefnedig y Gogledd Orllewin a raddiwyd yn rhagorol.

Mae canfyddiadau'r adroddiad yn amlygu maint a graddfa'r bygythiad ar draws y Gogledd Orllewin a'r berthynas waith gref rhwng NWROCU a heddluoedd y rhanbarth wrth ymdrin â throseddau trefnedig difrifol.

Tra roedd y CHTh a'r Prif Gwnstabl yn siomedig hefo'r radd 'annigonol' a roddwyd i Heddlu Gogledd Cymru, roedd hefyd yn braf gweld meysydd arfer da yn cael eu nodi.

Mae'r CHTh yn hyderus fod y Prif Gwnstabl yn ymdrin â'r adroddiad a'i ganfyddiadau. Mae hyn yn bwysig er budd yr Heddlu a'i ymateb i droseddau difrifol a threfnedig, ond hyd yn oed yn fwyfwy er budd y cymunedau rydym i gyd yn eu gwasanaethu. Bydd y CHTh yn

gweithio gyda'r Prif Gwnstabl er mwyn sicrhau fod yr heddlu'n parhau i symud ymlaen wrth ymdrin â'r canfyddiadau

| | |
|---|---|
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Stephen Hughes, Prif Weithredwr** |

HEDDLU GOGLEDD C
Gogledd Cymru diogelac

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

**Cydbwyllgor Archwilio**

**Dyddiad y Cyfarfod: 7 Rhagfyr 2023**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Diweddariad Sefydliadol – Heddlu Gogledd Cymru |
| **Awdur:** | Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau |
| **Diben yr adroddiad:** | Rhoi trosolwg i'r Cydbwyllgor Archwilio am brif ddigwyddiadau a materion sefydliadol sy'n digwydd ers cyfarfod diwethaf o'r CA. |
| **Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)** | ☐ Penderfyniad<br>☐ Trafodaeth<br>☐ Sicrwydd<br>X Gwybodaeth |
| **Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:** | Mae'r adroddiad hwn yn rhoi Diweddariad Sefydliadol lefel uchel i Heddlu Gogledd Cymru. Amlygir y prif faterion a digwyddiadau a effeithiodd y sefydliad am y cyfnod rhwng 07.09.23 a 14.11.23.<br><br>Dadansoddir y materion a'r digwyddiadau rhwng y pedwar categori Cyllid; Pobl, Dysgu ac Arloesedd; Gweithredol a Chyhoeddus / Cymunedol. |
| **Argymhellion:** | Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau. |
| **Effaith Cofrestr Risgiau:** | Dim. |
| **Goblygiadau Sicrwydd:** | Dim. |
| **Effaith Cydraddoldeb:** | Dim. |
| **Gwybodaeth wedi'i Heithrio o Ddadleniad:** | Dim – Holl gynnwys yn y sesiwn **agored** |

**CYDBWYLLGOR ARCHWILIO**

**7 Rhagfyr 2023**

**Diweddariad Sefydliadol**

**Adroddiad gan Bennaeth Cyllid ac Adnoddau, Heddlu Gogledd Cymru**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi Diweddariad Sefydliadol lefel uchel i Heddlu Gogledd Cymru. Amlygir y prif faterion a digwyddiadau a effeithiodd y sefydliad am y cyfnod rhwng 07.09.23 a 14.11.23.

Dadansoddir y materion a'r digwyddiadau rhwng y pedwar categori Cyllid; Pobl, Dysgu ac Arloesedd; Gweithredol a Chyhoeddus / Cymunedol.

## 2. Cyllid

2.1 Mae'r amcanestyniadau refeniw blwyddyn lawn wedi'u creu ddiwedd Ch2 hefo tanwariant blwyddyn lawn o £3.204m / 1.7%. Mae prif gymhellwyr y tanwariant yn berthnasol i recriwtio a chadw staff (hefo trosiant swyddogion a staff uwch yn cymell tanwariant oddeutu £1.1m) ac incwm ychwanegol o £2.1m (wedi'i ddadansoddi gan £0.733m incwm llog, incwm Uplift £0.450m (ar gyfer recriwtio swyddogion ychwanegol) a £0.564m o incwm diogelu. Mae'r cymhellwyr allweddol yn annhebygol o ddigwydd eto yn y tymor hir. Mae'r amcanestyniadau hefyd yn cynnwys pwysau cynyddol ar gostau mewn rhai meysydd oherwydd chwyddiant a goramser. Bydd y sefyllfa yn parhau i gael ei monitro am weddill y flwyddyn.

2.2 Oherwydd yr hyder mewn amcanestyniadau, mae £3.2m yn cael ei gynnwys fel y sefyllfa a ragfynegir fel rhan o'r broses gynllunio bresennol. Oherwydd ei natur unigryw, gellir defnyddio'r tanwariant er mwyn ariannu gwariant cyfalaf neu leihau benthyca yn y dyfodol drwy ariannu prosiectau presennol. Bydd cynnig defnyddio'r tanwariant yn cael ei gynnwys fel rhan o'r broses gynllunio.

2.3 Mae'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023-24 wedi'i diwygio o'r gyllideb wreiddiol o £12.212m i £9636m (wedi'i diwygio o £10.978m ar ddiwedd Ch1). Mae hyn yn bennaf oherwydd oedi hefo gorsaf heddlu newydd Caergybi, hefo'r gwaith eto i ddechrau ym mis Chwefror 2024 yn hytrach na mis Medi 2023. Mae proffil gwariant sawl prosiect arall yn parhau o dan adolygiad.

2.4 Mae cynllunio ar gyfer cyllidebau 2024-25 ar y gweill. Mae'r Adolygiad Optimeiddio yn rhoi sylw i oddeutu 50% o gyllidebau'r Heddlu. Mae'n canolbwyntio ar ddyrannu adnoddau swyddogion orau hefo'r bwriad o gynyddu cynhyrchiant a lleihau risg. Mae gweddill y cyllidebau wedi cael eu hadolygu gan yr Arweinyddion Gwasanaeth a Swyddogaethol, gan ddefnyddio proses lywodraethu debyg i flynyddoedd blaenorol.

2.5 Mae dyddiau cynllunio wedi cael eu cynnal ym mis Hydref a mis Tachwedd hefo Gosod Cyllideb. Mae hyn fod i ddigwydd hefo'r Prif Gwnstabl ar 1 Rhagfyr 2023 a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar 8 Rhagfyr 2023. Mae'r dyfarniadau cyflog, hefo cyllid ychwanegol, wedi creu bwlch cyllid o ran rhagdybiaethau Cynllun Ariannol y Tymor Canolig (gan gynnwys cynnydd o £15 yn y dreth gyngor ar gyfer eiddo band D). Bydd cymhellwyr y tanwariant sy'n dod i'r amlwg eleni hefyd fel rhan o'r cylch cynllunio blynyddol.

2.6 Mae'r cyd-destun ariannol anodd ar draws gwasanaethau cyhoeddus yn parhau. Gall datganiad hydref y Canghellor ar 22 Tachwedd roi rhywfaint o eglurder o ran risgiau penodol sy'n dod i'r amlwg.

## 3. Pobl, Dysgu ac Arloesedd

3.1 Yn dilyn proses recriwtio gadarn, penodwyd Nigel Harrison fel Dirprwy Brif Gwnstabl newydd HGC ar 20 Hydref 2023 ac fe ddechreuodd yn y swydd ar ddydd Llun, 6 Tachwedd 2023.

3.2 Cynhaliwyd proses ddyrchafu Uwcharolygyddion ym mis Hydref 2023, gan nodi 4 ymgeisydd llwyddiannus. Mae proses ddyrchafu Prif Arolygyddion wedi'i threfnu ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau 27 Tachwedd 2023.

3.3 Mae recriwtio staff yn parhau'n heriol ar draws sawl maes, gan roi pwysau ar gyrchu a chael effaith ar danwariant. Mae'r heddlu'n parhau i fonitro cynnal niferoedd ei swyddogion a SCCH Uplift yn agos.

3.4 Mae rhaglen uwchraddio Rheoli'r Heddlu yn symud ymlaen a chanolbwyntio ar y broses sicrwydd diogelwch seiber. Yn gyfochrog, mae gwaith cynaliadwyedd Airwave wedi symud ymlaen yn llwyddiannus.

3.5 Gwnaeth prosiect Ap Symudol brofi materion technegol yn oedi lansio ap Pronto a aeth yn fyw yn y Rhanbarth Canolog ar 13 Tachwedd 2023. Disgwylir lleoli ledled yr Heddlu o ddechrau mis Ionawr 2024.

3.6 Daeth rheoliadau pensiwn newydd o ran datrysiad McCloud i rym ar 1 Hydref 2023. Mae'r hyb pensiwn a gweinyddwr pensiynau'r heddlu yn profi galw sylweddol hefo lefelau gwasanaeth cwsmeriaid o dan bwysau o'i gymharu â lefelau hanesyddol.

3.7 Ar hyn o bryd, mae'r heddlu yn ystyried ei sefyllfa leol mewn sawl maes polisi pwysig. Mae ei gynllun Ailymunwyr a llwybrau mynediad Swyddogion heddlu o dan adolygiad ar hyn o bryd. Mae Fframwaith Ymadawyr Cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar gadw swyddogion i gyd yn cael eu hystyried ar y cyd hefo canllawiau cenedlaethol.

## 4. Gweithredol

4.1 Cwblhaodd y PG Amanda Blakeman 12 mis yn y swydd ddiwedd mis Hydref 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r heddlu wedi cyflawni llawer:

- Mae Gogledd Cymru wedi gweld gostyngiad o 11.3% mewn cyfanswm troseddau a gofnodwyd – y gostyngiad mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cymharu hefo cynnydd cenedlaethol o 2.2%.
- Mae'r rhanbarth hefyd wedi gweld y gostyngiad mwyaf mewn trais yn erbyn pobl yn y DU.
- Mae gan yr heddlu'r 10fed cyfradd isaf o fyrgleriaethau mewn cartrefi yn genedlaethol, hefo gostyngiad llawer gwell ar gyfartaledd o un flwyddyn i'r llall.

4.2 Mae'r adolygiad Optimeiddio wedi parhau symud ymlaen hefo argymhellion yn y cyfnod gan gynnwys sefydlu model gweithredol rheng flaen, sy'n cael ei arbrofi yn y rhanbarth canolog ar hyn o bryd. Mae'r model yn sicrhau goruchwyliaeth eglur ar draws adrannau rheng flaen. Ceir gwahaniaeth ar lefel rheoli rhwng swyddogion ymateb a TCD sydd hefo'r bwriad o helpu swyddogion gyflawni'r gwasanaeth gorau i'r cyhoedd.

4.3 Yn gysylltiedig hefo'r uchod ac ar y cyd â sylw cynyddol ar friffio a gorchwylio er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau, lansiwyd offeryn briffio rhingylliaid ddechrau mis Tachwedd. Mae hyn yn defnyddio Power BI er mwyn gwneud gwybodaeth allweddol sy'n ymwneud â maes sy'n hawdd mynd ato o un lle. Mae'r arbrawf yn parhau ond yr adborth cynnar ydy bod yr offeryn wedi cael croeso cynnes.

4.4. Ar 10 Tachwedd cyhoeddwyd adroddiad gan HMICFRS a raddiodd yr heddlu fel "Annigonol" wrth ymdrin hefo Troseddau Difrifol a Threfnedig. Derbyniodd yr heddlu'r canfyddiadau ac mae wedi ymroi ymdrin ag argymhellion yr adroddiad.

4.5 Ar 11 Tachwedd 2023, cynhaliwyd Taith Gerdded Golau Glas ar Foel Famau er cof am swyddogion a staff sydd wedi colli eu bywydau neu sydd wedi dioddef problemau iechyd meddwl. Cafodd aelodau o wasanaethau golau glas eraill fel y gwasanaeth tân a'r gwasanaeth ambiwlans wahoddiad i ddod, ynghyd ag aelodau o'u teulu.

4.6 Yn ystod y cyfnod, rhoddodd HGC gymorth cilyddol i heddluoedd eraill. Yn benodol, rhoddodd gymorth er mwyn plismona protest a oedd yn gysylltiedig hefo gwrthdaro Israel-Palesteina.

4.7 Mae monitro cyflawniad ar lefel yr Heddlu a SCHTh yn parhau hefo diweddariadau cyflawniad allweddol gan y Bwrdd Gweithredu Strategol a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2023 sy'n cynnwys adroddiadau at wraidd y mater i feysydd Diogelwch Ffyrdd a Throseddau Difrifol a Threfnedig.

## 5. Cyhoeddus / Cymunedol

5.1 Mae HGC (ar y cyd â heddluoedd eraill Cymru) yn parhau cynorthwyo Llywodraeth Cymru wrth weithredu terfynau cyflymder 20mya. Mae unrhyw effaith andwyol ar amseroedd ymateb yr Heddlu yn parhau cael ei fonitro.

5.2 Cynhaliwyd pumed Gwobrau Partneriaethau Datrys Problemau (PDP) ar 11 Hydref 2023 gan ganolbwyntio ar asiantaethau'n cydweithio er mwyn datblygu atebion i broblemau diogelwch cyhoeddus. Mae'r gwobrau yn cydnabod y timau a'r unigolion o fewn yr heddlu a oedd wedi gweithio hefo partneriaid er mwyn gwneud gwahaniaeth sylweddol yn yr ardal honno.

5.3 Mae'r heddlu'n parhau symud ymlaen gyda'i gwaith o ran creu ymddiriedaeth a hyder gyda'i gymunedau a'i llif gwaith archwiliad diwylliannol yn parhau symud ymlaen.

## 6. Argymhellion

Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.

HEDDLU GOGLEDD C
Gogledd Cymru diogelac

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

**Cydbwyllgor Archwilio**

**Rhagfyr 2023**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Diweddariad HMICFRS |
| **Awdur:** | Sarah O'Hara |
| **Diben yr adroddiad:** | Diweddariad yn ymwneud ag arolygon HMICFRS |
| **Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (Ticiwch un)** | ☐ Penderfyniad<br>☐ Trafodaeth<br>X Sicrwydd<br>☐ Gwybodaeth |
| **Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:** | <u>**Effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL)**</u><br><br>Mae gwerthuso sefyllfa'r heddlu o ran Fframwaith Asesu 2024 PEEL yn parhau. Mae'r hunanasesiad hwn yn galluogi Prif Swyddogion ac Arweinyddion Gwasanaeth gael trosolwg o unrhyw feysydd pryder a hefyd amlygu unrhyw arfer cadarnhaol i HMICFRS cyn yr arolwg nesaf. Mae meysydd hefo graddau RAG ac fe'u trafodir trwy eithriad yn Grwp Gorchwyl a Gorffen PEEL, hefo'r DBG yn cadeirio bob mis.<br><br>Mae gwaith yn parhau er mwyn cynorthwyo cwblhau'r 11 maes i'w gwella a dderbyniwyd o adroddiad arolwg PEEL 2022 ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru. Ceir diweddariad isod am gynnydd ers y CA blaenorol:<br><br>**1. Dylai'r heddlu sicrhau, o ran ei ddefnydd o rym, bod holl swyddogion a staff perthnasol yn cofnodi pan ddefnyddir grym a bod goruchwyliaeth effeithiol.**<br><br>Mae'r map proses ar gyfer defnyddio archwiliadau'r heddlu wedi'u datblygu ac mae wedi'i gyflwyno'n raddol fel a ganlyn:<br>• Cyfnod 1 (meintiol) ydy'r broses o nodi ffurflenni defnyddio grym sydd ar goll a datrys hyn er mwyn cael cydymffurfiaeth 100%. Cofnodir hyn ar daenlenni Ardal GPLl.<br>• Cyfnod 2 (ansoddol) ydy'r broses archwilio fanwl. Bydd bob Arolygydd Patrôl yn cynnal archwiliadau manwl ar bum achos y mis lle defnyddiwyd grym (60 archwiliad manwl yn y GPLl bob mis). Bydd yr allbwn yn gofnod ADP ar gyfer bob swyddog, gan amlygu arfer a dysgu da, a gweithredu arall yn ôl yr angen. Mae defnyddio ADP yn galluogi HGC ddangos llwybr archwilio, a ystyrir yn hanfodol. Bydd yr archwiliadau hyn hefyd yn cael eu cofnodi ar daenlenni Ardal GPLl.<br>• Mae Cyfnod 3 (adolygiad myfyriol) yn cael ei wneud gan Brif Arolygyddion Ardal a wnaiff graffu data chwarterol a grëwyd (defnyddwyr grym amlaf ac achosion sydd dal hefo ffurflen defnyddio grym ar goll). Bydd y Prif Arolygyddion yn adrodd wrth y Bwrdd Defnyddio Grym Tactegol ac yn datrys problemau, lle mae angen.<br><br>O fewn mapiau proses mae gweithdrefn ar gyfer tynnu sylw'r ASP at ddefnyddio grym yn amhriodol.<br><br>**2. Mae'r heddlu angen ymateb i alwadau am wasanaeth yn unol â'i amseroedd presenoldeb cyhoeddedig a sicrhau, pan nad ydy hyn yn digwydd, fod dioddefwyr yn cael eu diweddaru'n llawn** |

| | |
|---|---|
| | Fel y cyfeiriwyd yn yr adroddiad blaenorol i'r CA, y maes na ddeallwyd yn dda ydy ein cyswllt dioddefwyr pan mae oedi'n digwydd o ran ymateb. Er mwyn cael dealltwriaeth mwy manwl o'n cydymffurfiaeth yma, mae'r FCIR wedi ychwanegu cwestiynau i Asesiad Gwasanaeth Dioddefwyr Canolfan Reoli'r Heddlu. *(Asesiad Gwasanaeth Dioddefwyr Ystafell Reoli'r Heddlu)* Archwiliad: *"A oedd oedi mewn bodloni'r amser ymateb a bennwyd" Oedd/Nag oedd; "Os oedd, a hysbyswyd y dioddefwr am yr oedi".* Gan ddibynnu ar ganlyniad cyfres o archwiliadau, gall uwch arweinwyr yna benderfynu a oes angen unrhyw newidiadau i'r broses. Mae'r ail archwiliad sy'n cwmpasu data rhwng Mai-Gorffennaf 2023 ar y gweill ar hyn o bryd hefo adroddiad i Grwp Gorchwyl a Gorffen PEEL ar ganfyddiadau wedi'i drefnu cyn diwedd y flwyddyn.<br><br>**3. Dylai'r heddlu sicrhau fod ymchwiliadau'n cael eu goruchwylio gan sicrhau yr ystyrir holl gyfleoedd ymchwilio.**<br><br>Cymeradwywyd y Canllawiau Arfer Rheoli Trosedd diwygiedig ac aethant yn fyw ar 26 Medi 2023. Yn debyg i faes i'w wella 2, mae cwestiynau er mwyn cynorthwyo gwaith archwiliad yn y maes hwn wedi'u hychwanegu at lyfrynnau Archwiliad y Gwasanaeth Asesiad Dioddefwyr am gyfleoedd goruchwylio ac ymchwilio. Mae'r ail archwiliad sy'n cwmpasu data rhwng Mai-Gorffennaf 2023 ar y gweill ar hyn o bryd hefo adroddiad i Grwp Gorchwyl a Gorffen PEEL ar ganfyddiadau wedi'i drefnu cyn diwedd y flwyddyn.<br><br>**4. Mae'r heddlu angen sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda gofynion y Codau Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd. Mae hyn yn cynnig y cyfle i bobl wneud datganiadau personol dioddefwyr a chwblhau asesiad anghenion dioddefwyr.**<br><br>Bydd sesiynau briffio wyneb yn wyneb ar lynu a chyfrifoldebau Cod Ymarfer Dioddefwyr yn cael eu cyflwyno i staff mewn sesiynau yn y bore a'r prynhawn. Mae taflen ganllawiau wedi'i pharatoi sy'n rhoi trosolwg o'r asesiad anghenion dioddefwyr, atgyfeiriadau i gymorth dioddefwyr, nodi hawliau gwell a chanllawiau ynghylch datganiadau personol dioddefwyr. Ar ben hyn, mae'r FCIR wedi gosod gofynion Cod Ymarfer Dioddefwyr i'r templed archwiliad Asesiad Gwasanaeth Dioddefwyr. Roedd hyn er mwyn cwmpasu'r mesurau a ddefnyddir gan HMICFRS er mwyn monitro cydymffurfiaeth. Mae'r ail archwiliad sy'n cwmpasu data rhwng Mai-Gorffennaf 2023 ar y gweill ar hyn o bryd hefo adroddiad i Grwp Gorchwyl a Gorffen PEEL ar ganfyddiadau wedi'i drefnu cyn diwedd y flwyddyn.<br><br>**5. Rhaid i'r heddlu rhoi llywodraeth briodol ar waith a phrosesau monitro i wneud yn siŵr bod y defnydd o ganlyniadau yn briodol a'i fod yn cydymffurfio gyda pholisïau'r heddlu a pholisïau cenedlaethol.**<br><br>Gwnaeth yr FCIR gynnal seminarau ar-lein dros fis Hydref er mwyn rhoi canllawiau ar gymhwyso canlyniadau a rhoi cyfle i swyddogion gael unrhyw gwestiynau maent wedi'u hateb. Mae'r FCIR wedi trefnu recordiad o'r sesiwn hon i'w rhannu yn ehangach ar gyfer y bobl hynny sydd wedi methu ymuno, er mwyn iddynt wylio'r seminar yn eu hamser eu hunain.<br><br>Mae'r tîm archwilio canolog dros dro bellach wedi'i sefydlu'n llawn, hefo dau o aelodau'r tîm yn y cyfnod mentora. Oherwydd defnydd isel o ganlyniadau 10 a 21s, mae'r tîm yn gallu edrych dros 100% o'r canlyniadau a gaewyd hefo 10 neu 21 sy'n galluogi'r tîm gywiro unrhyw wallau lle bo'n briodol. Bydd gan ganlyniadau 15 ac 16 elfen ychwanegol o gymorth sef bod y tîm wedi rhoi cyfeiriad drwy newidiadau ar gyfer Rhingylliaid. Tra mae'r tîm hwn dros dro am gyfnod o 12 mis, gobeithir y bydd yr hyfforddiant ar gyfer canlyniadau anghywir yn gwella cydymffurfiaeth dros amser. |

| | |
|---|---|
| | **6. O fewn chwech mis dylai'r heddlu ddangos fod ganddo ddigon o allu o fewn yr Uned Atgyfeirio Ganolog, ac mae hyn wedi arwain at asesiadau risg amserol yn cael eu cwblhau ac mae staff yn gallu mynychu cyfarfodydd gan amlasiantaethau.**<br><br>Bydd y Rhaglen Optimeiddio'n adolygu'r Model CRU fel rhan o'r adolygiad Gwasanaethau Trosedd. Yn y cyfamser, cytunwyd ar Dditectif Ringyll arall, gan gynyddu'r nifer o 6 i 7. Mae'r heddlu'n fodlon fod y CRU mewn lle llawer gwell nag yn yr arolwg diwethaf. Mae'n hyderus y bydd y maes i'w wella hwn yn cael ei gydnabod fel wedi'i gwblhau gan HMICFRS.<br><br>**7. Dylai'r heddlu fod yn fwy rhagweithiol wrth hyrwyddo gwaith amlasiantaeth er mwyn sicrhau fod pobl fregus yn cael eu diogelu'n effeithiol.**<br><br>Mae'r heddlu'n mynd ati'n barhaus er mwyn cyflawni gwaith amlasiantaeth ledled yr heddlu, ond mae hyn hefyd ar ddisgresiwn asiantaethau partner. Serch hynny, mae datblygiadau sylweddol wedi bod wrth weithredu MASH ledled ardal yr heddlu. Ar hyn o bryd, mae MASH Conwy yn fusnes fel arfer yn dilyn yr arbrawf llwyddiannus. Dechreuodd arbrawf MASH *(gwasanaethau plant yn unig)* ym mis Mawrth 2023 hefo Cyngor Sir Ddinbych, gyda'r gwasanaethau oedolion yn barod i ddechrau o safbwynt plismona ond yn disgwyl mynd ymlaen o'r awdurdod lleol oherwydd problemau staffio. Aeth Ynys Môn yn fyw hefo model tebyg ym mis Mehefin eleni. Mae gwaith ar y gweill er mwyn cynnwys gwasanaethau oedolion. Mae cynnydd ar y gweill o hyd yn siroedd Wrecsam a'r Fflint.<br><br>Bydd gwaith yn parhau fel erioed hefo'r awdurdodau lleol er mwyn ceisio cyrraedd cytundeb hefo sefydlu MASH. Nid oes trefniant hefo Gwynedd ar hyn o bryd.<br><br>**8. Dylai'r heddlu adolygu ei allu digidol o fewn Timau Ymchwilio Cam-drin Plant Ar-lein a Rheoli Troseddwyr Rhywiol neu Dreisgar.**<br><br>Mae opsiynau am feddalwedd digidol yn cael eu ceisio ar gyfer y Tim Ymchwilio Cam-drin Plant Ar-lein (OCAIT). Mae hyn er mwyn gwella eu gallu o frysbennu teclynnau yn y fan a'r lle, fel mae'r Tîm Rheoli Troseddwyr Rhyw a Threisgar (MOSOVO). Mae swyddogion yn y tim MOSOVO wedi derbyn hyfforddiant pellach er mwyn gwella ein gallu digidol ynghylch rheoli troseddwyr drwy fynd ar gwrs sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol ac sy'n cael ei argymell gan heddluoedd eraill, gan gynnwys Cumbria *(a raddiwyd fel rhagorol)* sy'n dal y portffolio ar gyfer rheoli troseddwyr rhyw a threisgar. Mae'r cwrs hwn wedi gwella gallu swyddogion MOSOVO i gynnal brysbennu cynnar teclynnau TG mewn mannau a lleoedd gan roi arwydd cynnar o droseddu posibl a phroblemau diogelu i ymdrin â nhw.<br><br>**9. Dylai'r heddlu adolygu ei arfer rheoli troseddwyr rhyw.**<br><br>Er mwyn sicrhau bod trosolwg gwaith wedi'i gofnodi'n dda a'i oruchwylio'n amserol, cofnodir cynlluniau rheoli risg a diweddariadau o ymweliadau â chartrefi hefo troseddwyr rhyw cofrestredig yn Adroddiad Cyflawniad y PVPU. Mae'n cael ei gyflwyno i Fwrdd Llywodraethu'r PVPU am drosolwg gan yr UDRh. Mae ditectif ringyll parhaol wedi'u gosod yn y tîm, gan ymuno ym mis Tachwedd 2023. Mae'r heddlu'n hyderus bydd y maes i'w wella hwn yn cael ei gydnabod fel wedi cwblhau gan HMICFRS ar ôl ail arolwg.<br><br>**10. - Mae'r heddlu angen deall ei allu'n well a sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon er mwyn darparu gwasanaethau gwell i'w gymunedau.**<br><br>Aeth cynllun peilot model Patrôl GPLl y Rhaglen Optimeiddio'n fyw ar 15 Hydref. Bydd y cyfnod y cynllun peilot yn destun adolygiad parhaus er mwyn ysbrydoli penderfyniad yn y flwyddyn newydd ar fynd yn fyw ledled yr heddlu. |

Mae edrych dros y Gwasanaethau Trosedd wedi dechrau hefyd. Mae'r cwmpas er mwyn nodi pa feysydd wedi'u hymgorffori yng nghyfnod cyntaf y prosiect wedi'i gwblhau. Y meysydd o dan sylw a nodwyd ydy'r CRU, Amethyst, Intel a'r broses Brysbennu Dyrannu Trosedd. Anelir cwblhau'r gwaith ar y meysydd hyn erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

Mae'r prosiect Gofal Iawn Pobl Iawn yn symud ymlaen yn dda, hefo cynllun gweithredu'n gydnaws ag amserlen Cymru gyfan, hefo cyfnod 1 i fod i fynd yn fyw ym mis Ionawr. Nid ydy Prosiect FCC wedi dechrau eto.

Mae gwaith yn parhau hefyd er mwyn datblygu cynnyrch er mwyn cynorthwyo rhoi gwybodaeth rheoli er mwyn deall gallu a galw fel rhan o'r Rhaglen Warws Data.

**11. - Mae'r heddlu angen gwella sut mae'n trosglwyddo ei gynlluniau ariannol a'r heriau mae'n wynebu wrth gyflawni ei wasanaethau.**

Fel y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad blaenorol i'r CA, mae'r heddlu'n hyderus bydd y maes i'w wella hwn yn cael ei gydnabod fel wedi cwblhau gan HMICFRS. Ni roddir diweddariadau pellach ar hyn o bryd.

**Arolwg Troseddau Difrifol a Threfnedig**

Arolygwyd Heddlu Gogledd Cymru ar ein hymateb i droseddau difrifol a threfnedig ym mis Chwefror 2023, fel rhan o ranbarth y Gogledd Orllewin. Cyhoeddwyd yr adroddiad arolwg ar ddydd Gwener 10 Hydref ar gyfer y rhanbarth, hefo manylion arolwg unigol Heddlu Gogledd Cymru o fewn yr adroddiad. Fe dderbyniodd Heddlu Gogledd Cymru radd 'annigonol' am yr arolwg hwn a gofynnwyd i bedwar argymhelliad gael eu cwblhau erbyn mis Tachwedd 2024:

***Achos pryder:*** *Dylai Heddlu Gogledd Cymru sicrhau fod ganddo ddigon o adnoddau er mwyn ymdrin trefnedig difrifol yn effeithiol. Rhaid iddo hefyd sicrhau fod ei weithlu'n deall fod troseddau trefnedig difrifol yn flaenoriaeth. Codir yr achos pryder hwn mewn ymateb i sawl mater wnaethom eu nodi sy'n effeithio ar allu'r heddlu i ymdrin â throseddau trefnedig difrifol. Crynhoir y rhain isod (rhoddir manylion ychwanegol yng nghorff yr adroddiad hwn):*

- *Mae gan yr heddlu gynllun corfforaethol sy'n nodi troseddau trefnedig difrifol fel bygythiad blaenoriaethol. Fodd bynnag, ni wnaeth rhai personél ddeall hyn yn llawn.*
- *Nid oes gan yr heddlu ddigon o adnoddau dadansoddol er mwyn deall ei fygythiadau o droseddau trefnedig troseddol yn llawn.*
- *Mae gan yr heddlu dair uned rhagweithiol lleol. Fodd bynnag, nid ydy dwy ohonynt ar waith yn llawn, sy'n cyfyngu ar allu'r heddlu i ymdrin â'i fygythiadau troseddau trefnedig difrifol.*
- *Mae swyddogion cyfrifol arweiniol yn rheoli galwadau eraill o bwys, sy'n cyfyngu ar eu heffeithiolrwydd wrth ymdrin â throseddau trefnedig difrifol. Nid ydy swyddogion cyfrifol arweiniol, uwch swyddogion ymchwilio arbenigol yr heddlu a thimau eraill yn cydweithio'n gyson.*
- *Nid ydy cynlluniau 4P tactegol o'r ansawdd neu'r cysondeb angenrheidiol er mwyn rhoi ymateb effeithiol.*

| | |
|---|---|
| | • *Nid ydy'r heddlu'n cofnodi dysgu'n rheolaidd o ran troseddau trefnedig difrifol. Roedd hwn yn faes i'w wella a roddwyd i'r heddlu yn 2016 ac ni ymdriniwyd â nhw.*<br><br>*Argymhellion: Erbyn 1 Tachwedd 2024, dylai'r heddlu:*<br><br>*1. sicrhau fod y gweithlu'n deall pwysigrwydd troseddau trefnedig difrifol a'i rôl wrth ymdrin ag o.*<br>*2. cynyddu eu gallu dadansoddol er mwyn gwella dealltwriaeth o fygythiadau troseddau trefnedig difrifol sy'n dod i'r amlwg.*<br>*3. adolygu ei model cyrchu er mwyn gwella sut mae bygythiadau troseddau trefnedig a difrifol yn cael eu nodi, eu rheoli a'u hymchwilio, a ddylai gynnwys edrych ar rôl y swyddog cyfrifol arweiniol a sut maent yn rheoli cynlluniau 4P; a*<br>*4. datblygu proses er mwyn nodi dysgu ac arfer da a chymhwyso hyn er mwyn gwella cyflawniad gweithredol.*<br><br>Mae gwaith wedi bod yn mynd ymlaen er mwyn ymdrin â'r materion a nodwyd gan HMICFRS. Ceir manylion pellach a'r adroddiad llawn yma: Arolwg ymateb rhanbarthol y gogledd orllewin i droseddau difrifol a threfnedig – Arolygaeth Ei Fawrhydi ar Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (justiceinspectorates.gov.uk)<br><br>**Adroddiad Thematig Cenedlaethol: Arolwg o fetio, camymddwyn a chasineb at ferched yn y gwasanaeth heddlu**<br><br>Cyhoeddwyd yr adroddiad thematig cenedlaethol i fetio, camymddwyn a chasineb at ferched yn y gwasanaeth heddlu ar 2 Tachwedd 2022. Arweiniodd canfyddiadau'r arolwg hwn at 43 o argymhellion a 5 maes i'w wella ar gyfer Prif Gwnstabliaid, y Coleg Plismona, y Swyddfa Gartref a'r CCPSH i'w ystyried.<br><br>Rhoddodd yr heddlu ddiweddariadau sefyllfa CCPSH yn unol â'r dyddiadau cau a bennwyd rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2023. Roedd cais pellach ym mis Gorffennaf i heddluoedd roi adroddiad cynnydd wedi'i ddiweddaru i'r CCPSH a mynnu pa argymhellion/meysydd i'w gwella a gwblhawyd ar Borth Monitro'r HMICFRS.<br><br>Mae HMICFRS wedi dechrau edrych dros rhai o'r cyflwyniadau gan CCPSH mae heddluoedd wedi'u rhoi. Maent yn bwriadu edrych dros yr argymhellion mewn cyfnodau oherwydd y nifer a dderbyniwyd gan 43 heddlu. Derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru gadarnhad gan HMICFRS fod 5 argymhelliad i'w cau'n ffurfiol yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth a gyflwynir. Bydd yr argymhellion sydd ar ôl yn cael eu hadolygu gan HMICFRS pan fydd gallu o'r arolygaeth yn bodoli. Mae'r heddlu'n fodlon hefo'r cynnydd a wnaed o ran yr holl argymhellion a'r meysydd i'w gwella o'r adroddiad hwn, heb ddim meysydd yn peri pryder i adrodd arnyn nhw.<br><br>Er gwybodaeth, y pum argymhelliad a fydd yn cael eu cau gan HMICFRS, gan eu bod wedi'u cwblhau ydy:<br><br>• Argymhelliad 15: Erbyn 30 Ebrill 2023, dylai prif gwnstabliaid: |

- sicrhau fod holl swyddogion a staff yr heddlu yn ymwybodol o'r angen i hysbysu am unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau personol
- sefydlu proses lle mae pob rhan o'r sefydliad sydd angen gwybod am newidiadau hysbys, yn enwedig uned fetio'r heddlu, yn cael gwybod amdanynt bob amser; a
- sicrhau os ydy newid amgylchiadau'n creu risgiau ychwanegol, eu bod yn cael eu cofnodi a'u hasesu'n llawn. Os oes angen, dylai risgiau ychwanegol arwain at adolygiad o statws fetio'r unigolyn

- Argymhelliad 20: Erbyn 30 Ebrill 2023, dylai prif gwnstabliaid fabwysiadu polisi aflonyddu rhywiol y Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion Heddlu.
- Argymhelliad 24 (24207): Erbyn 31 Hydref 2023, dylai prif gwnstabliaid sicrhau fod eu hadrannau safonau proffesiynol yn rhoi baner ymddygiad rhagfarnllyd ac amhriodol at holl achosion perthnasol sydd newydd eu cofnodi.
- Argymhelliad 38 (24687): Erbyn 30 Ebrill 2023, dylai prif gwnstabliaid sicrhau fod holl gudd-wybodaeth perthnasol i lygredd yn cael ei gategoreiddio'n unol â chategorïau gwrthlygredd y Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion Heddlu (ac unrhyw fersiwn diwygiedig o'r rhain).
- Argymhelliad 43 (24902): Erbyn 30 Ebrill 2023, dylai prif gwnstabliaid sicrhau fod proses gadarn mewn lle er mwyn cwblhau adolygiadau uniondeb blynyddol ar gyfer pob swyddog a staff.

**<u>Adroddiad ar ymweliad arolwg dirybudd i ddalfeydd yr heddlu yn Heddlu Gogledd Cymru</u>**

Yn dilyn ymweliad sicrwydd ansawdd â'r Ddalfa, mae'r Tîm Archwilio ac Arolygu bellach yn fodlon fod sawl argymhelliad a meysydd i'w gwella bellach wedi'u cwblhau ac yn barod i'w cau. Bydd y Prif Arolygydd Dros Dro Simon Kneale yn cyfarfod hefo'r DBG ganol mis Tachwedd er mwyn eu briffio ar y gwaith a wnaed er mwyn bodloni cau'r rhain cyn cyflwyno i HMICFRS. Ynghlwm mae crynodeb lefel uchel o sefyllfa bresennol yr argymhellion/meysydd i’w gwella mewn dalfeydd:

Custody AFI rec appendix (Nov23).doc

**<u>Argymhellion a meysydd i'w gwella cenedlaethol</u>**

Fel y cyfeiriwyd ato mewn adroddiadau blaenorol, mae HMICFRS wedi cyflwyno proses newydd yn gadael i Brif Swyddogion gymeradwyo argymhellion neu feysydd i’w gwella yn haen 2. Mae'r isod yn crynhoi sefyllfa bresennol yr heddlu:

| **Lefel 2 – Yr Heddlu i gymeradwyo** | **Lefel 3 – Yr Heddlu a HMICFRS i gymeradwyo** |
|---|---|
| Anghyfartaledd hil mewn gwneud penderfyniadau cyfiawnder troseddol yr heddlu x 4 | Fetio, camymddwyn a chasineb at ferched x 24 argymhelliad yn disgwyl adolygiad HMICFRS |
| Atal llofruddiaeth x 2 argymhelliad | Dalfa x 4 argymhelliad *(ystyriwyd 4 yn gyflawn)* |
| Gosod drylliau tanio x 5 | Fetio HGC 2022 x 1 maes i'w wella |

| | |
|---|---|
| Trais Ieuenctid Difrifol x 2 argymhelliad | PEEL 2022 x 11 maes i'w wella |
| CSE Ar-lein x 10 argymhelliad | **Newydd: Troseddau Trefnedig Difrifol HGC 2023 x 4 argymhelliad** |
| Fforenseg digidol x 1 argymhelliad | |
| Fetio, camymddwyn a chasineb at ferched x 5 maes i'w wella *(ystyriwyd 3 yn gyflawn)* | |
| Byrgleriaeth, lladrad a throsedd caffael arall x 2 argymhelliad | |
| Dalfa x 3 maes i'w wella | |
| VAWG x 3 argymhelliad | |
| Treisio x 1 argymhelliad | |

Mae traciwr er mwyn monitro cynnydd pob un o'r argymhellion a'r meysydd i'w gwella agored i'w cynnwys ar y wefan Microsoft Teams ar gyfer tryloywder pellach.

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | Dim. |
| **Effaith cofrestr risgiau:** | Dim. |
| **Goblygiadau sicrwydd:** | Dim. |
| **Effaith Cydraddoldeb:** | Dim. |
| **Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:** | Dim. |

TERFYNOL

tiaa

# Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

## Adroddiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA)

## 2023/24

Tachwedd 2023

# Adolygiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA)

## Cyflwyniad

**1.** Mae'r adroddiad rheolaeth sicrwydd cryno hwn yn cynnig diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio ar faterion yn ymwneud â materion sy'n berthnasol i Lywodraethu, Risg a Rheolaeth Fewnol ac ar gynnydd ein gwaith ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru fel ar 15 Tachwedd 2023.

## Archwiliadau a gwblhawyd ers adroddiad diwethaf SICA i'r Cydbwyllgor Archwilio

**2.** Mae'r tabl isod yn gosod manylion o'r archwiliadau sydd wedi eu cwblhau ers y cyfarfod blaenorol o'r Cydbwyllgor Archwilio.

*Archwiliadau a gwblhawyd ers adroddiad blaenorol SICA – 2023/24*

| | | Dyddiadau Allweddol | | | Niferoedd Argymhellion | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adolygiad** | **Gwerthusiad** | **Drafft wedi'i gyhoeddi** | **Ymatebion a Dderbyniwyd** | **Cyhoeddi drafft terfynol** | **1** | **2** | **3** | **OEM** |
| Rheolaeth Gyllidebol | Sylweddol | 28 Gorffennaf 2023 | 8 Awst 2023 | 9 Awst 2023 | - | - | - | - |
| Caffael | Sylweddol | 4 Medi 2023 | 20 Medi 2023 | 9 Tachwedd 2023 | - | 1 | - | 4 |
| Uned Iechyd Galwedigaethol | Sylweddol | 13 Hydref 2023 | 1 Tachwedd 2023 | 9 Tachwedd 2023 | - | - | - | - |

**3.** Nid oes materion yn codi o'r canfyddiadau hyn a fyddai'n gofyn i'r Pennaeth Arolwg Barn blynyddol fod yn gymwys.

## Cynnydd o ran Cynllun Blynyddol 2023/24

**4.** Mae ein cynnydd o ran Cynllun Blynyddol 2023/24 wedi ei osod yn Atodiad A.

## Newidiadau i Gynllun Blynyddol 2023/24

**5.** Nid oes meysydd lle argymhellir gwaith archwilio mewnol er mwyn gallu darparu Pennaeth Barn Archwilio diamod ar gyfer 2023/24.

## Symud ymlaen gyda gweithredu argymhellion blaenoriaeth 1

**6.** Nid ydym wedi gwneud argymhellion Blaenoriaeth 1 (h.y. materion rheoli sylfaenol y dylid gweithredu arnynt ar unwaith) ers yr adroddiad SICA Blaenorol.

## Dangosyddion achosion gwraidd

**7.** Datblygwyd y dangosyddion gwraidd achos (RCI) gan TIAA i roi cyfeiriad treigl strategol ar gyfer asesiad llywodraethu, risg a rheolaeth teithio ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru. Caiff pob argymhelliad a wneir ei ddadansoddi i sefydlu achos sylfaenol y mater sy'n arwain at yr argymhelliad (RCI). Mae angen ystyried y dadansoddiad dros gyfnod parhaus, yn hytrach nag ar sail unigol bob chwarter. Mae canrannau, yn hytrach na nifer wirioneddol yr adolygiadau/argymhellion a wneir yn caniatáu nodi'r cyfeiriad teithio yn fwy effeithiol. Mae saeth tuag i lawr yn arwydd o leihad cadarnhaol mewn risg mewn perthynas â'r RCI penodol ers y chwarter blaenorol.

*DAG – Cyfeiriad Asesiad Teithio*

| Dangosyddion Achosion Gwraidd | Chwarter 2 (2022/23) | Chwarter 3 (2022/23) | Chwarter 4 (2022/23) | Chwarter 1 (2023/24) | Chwarter 2 (2023/24) | Cyfeiriad Teithio yn y Tymor Canolig | Arsylwad Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyd** | | | | | | | |
| Fframwaith Llywodraethu | 50% (1) | - | 4% (1) | - | - | ↔ | |
| Lliniaru Risg | 50% (1) | - | - | - | - | ↔ | |
| Cydsyniad Rheolaeth | - | - | 96% (24) | 84% (20) | - | ↓ | |
| **Cynllun Cyflawni** | | | | | | | |
| Monitro Cyflawniad | - | - | - | 4% (1) | - | ↓ | |
| Cynaliadwyedd | - | - | - | 4% (1) | 100% (1) | ↑ | |
| Gwytnwch | - | - | - | 8% (2) | | ↓ | |

## Twyll/Anghysondebau

**8.** Nid ydym wedi clywed am dwyll neu anghysondebau yn y cyfnod ers i'r adroddiad cryno diwethaf gael ei gyhoeddi.

## Materion Eraill

**9.** Rydym wedi cyhoeddi nifer o nodiadau briffio a threuliau twyll, a ddangosir yn Atodiad C, ers adroddiad blaenorol yr SICA. Mae'r camau a gymerwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru wedi'u crynhoi isod:

*Camau a gymerwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru mewn ymateb i Rybuddion a roddwyd gan TIAA*

| Nodyn Briffio |
|---|
| Nid oes unrhyw Nodiadau Briffio Cleientiaid wedi bod ers y cyfarfod diwethaf. |

| Rhybudd Twyll |
|---|
| Nid oes unrhyw Rybuddion Atal Trosedd ers y cyfarfod diwethaf. |

## Cyfrifoldeb/Ymwrthodiad

**10.** Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi'n unswydd ar gyfer defnydd y rheolwyr ac ni ddylid ei ddyfynnu neu gyfeirio ato yn llawn neu yn rhannol i drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol. Nid ydy'r materion a godir yn yr adroddiad hwn o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r holl welliannau y gellid eu gwneud. Ni dderbynnir cyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi cael ei baratoi, na'i fwriadu ar gyfer unrhyw bwrpas arall. Nid ydy TIAA yn derbyn nac rhoi unrhyw ddyletswydd gofal i unrhyw barti eraill a fydd yn derbyn yr adroddiad hwn ac yn benodol yn ymwadu unrhyw gyfrifoldeb am golled, niwed neu wariant o unrhyw natur, sy'n cael ei achosi ar ddibynnu ar ein hadroddiad.

**---------------**

## Progress against Annual Plan -2023-24

| System | Planned Quarter | Current Status | Comments |
|---|---|---|---|
| Collaborative – Pan Wales | | | |
| Data Protection Act | 2 | Planned start date 28th November 2023 | Lead Force – Gwent Police |
| Risk Management | 3 | Draft Report issued 30th October 2023 | Lead Force - Gwent Police |
| Property Subject to Charge (Evidential Property) | 3 | Planned start date 29th January 2024 | Lead Force - Dyfed-Powys |
| Treasury Management | 3 | Draft report issued 15th November 2023 | Lead Force – Gwent Police |
| Payroll | 3 | Planned start date 21st November 2023 | Lead Force – South Wales Police |
| Counter-Fraud (Anti-Fraud Procurement) | 3 | Planned start date 11th December 2023 | Lead Force – North Wales Police |
| Debtors | 3 | Site work commenced 6th November 2023 | Lead Force – North Wales Police |
| Telematics | 4 | Planned start date 23rd February 2024 | Lead Force – Dyfed-Powys Police |
| North Wales Police only | | | |
| Estates Management – Strategy | 1 | Final Report Issued | |
| Fixed Assets – ICT Assets | 1 | Site work commenced 27th September 2023 | Moved to Q3 at the request of Management – Report delayed due to TIAA waiting for evidence |
| Eastern Area – Command Unit | 1 | Draft report issued 14th July 2023 | |
| Capital Programme | 2 | Draft report issued 29th September 2023 | |
| HR Absence Management linked to Agility | 2 | TBA | Moved to Q3 then again to Q4 at the request of Management. Date to be agreed. |
| Occupational Health Unit | 2 | Final report issued 9th November 2023 | |
| Purchasing/Creditors | 2 | Planned start date 11th December 2023 | Moved to Q3 at the request of Management |
| General Ledger | 2 | Final report issued 5th September 2023 | |
| ICT Data Assurance | 2 | | Date to be agreed – ICT auditor vetting now completed |

| System | Planned Quarter | Current Status | Comments |
| --- | --- | --- | --- |
| **Procurement** | **2** | **Final report issued 9th November 2023** | |
| **Budgetary Control** | **2** | **Final report issued 9th August 2023** | |
| **ICT Change Management** | **2** | | **Date to be agreed – ICT auditor vetting now completed** |
| **Community Engagement** | **3** | **Final report issued 17th November 2023** | |
| **ICT Infrastructure Review** | **3** | | **Date to be agreed – ICT auditor vetting now completed** |
| **Governance - Collaborations and Partnerships** | **3** | **TBA** | **Moved to Q4 at the request of Management** |
| **Fleet Management - Fuel** | **3** | **Planned start date 29th January 2024** | |
| **Follow-up** | **3** | **Planned start date 12th February 2024** | |
| **Liaison with Audit Wales** | **1-4** | | |
| **Annual Planning** | **1** | **Final report issued 23rd June 2022** | |
| **Annual Report** | **4** | | |

**KEY:**

| | | | | | | | | | | |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| | To be commenced | | | Site work commenced | | | Draft report issued | | | Final report issued |

# Priority 1 Recommendations - Progress update

| Recommendation | Priority | Management Comments | Implementation Timetable | Responsible Officer | Action taken to date (and any extant risk exposure) | Risk Mitigated |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **There were no Priority one recommendations** | | | | | | |

**KEY:**

**Priority Gradings 1**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | URGENT | Fundamental control issue on which action should be taken immediately. |

**Risk Mitigation**

| | | |
|---|---|---|
| 020 | 23/24-1 | 23/24 Procurement | Delivery Risk | The Social Value Policy, Social Value Charter and Social Value Guidance documents be reviewed and updated to reflect current practices. | 2 | Recommendation is accepted. The OPCC will approach the same independent consultant that was commissioned to write the Policy in order to carry out the review. At the time of writing the exact timescales are still to be confirmed. A meeting is set to take place on 27/09/2023 so the timeline of 31/03/2024 is an estimate. | Chief Finance Officer | 31/03/2024 | | 1 | New – final report issued 09/11/2023 |

**Appendix 3 –** Recommendation Categorisation

**"Priority"** refers to the implementation timeline to adopt:

| Description | Priority |
|---|---|
| URGENT – Fundamental Control issue on which action should be taken immediately. | 1 |
| IMPORTANT – Control issue on which action should be taken at the earliest opportunity. | 2 |
| ROUTINE – Control issue on which action should be tak[illegible] | 3 |

**"Category"** refers to date revisions as per the below:

| Description | Category |
|---|---|
| Recommendations – still on original due date | 1 |
| Recommendations – 1st revised due date | 2 |
| Recommendations – 2nd revised due date | 3 |
| Recommendations – 3rd revised due date | 4 |
| Recommendations – 4th revised due date | 5 |
| Recommendations – 5th revised due date | 6 |

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

**CYDBWYLLGOR ARCHWILIO**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Adroddiad Rheoli Risg – (Sesiwn Agored) |
| **Awdur:** | Neil T. Ackers, Arweinydd Risg a Pharhad Busnes |
| **Diben yr adroddiad:** | Rhoi diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio ar y broses risg sefydliadol a throsolwg o'r risgiau presennol a gofnodir gan Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. |
| **Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer:**<br>**(ticiwch un)** | ☐ Penderfyniad<br>☐ Trafodaeth<br>✓ Sicrwydd<br>☐ Gwybodaeth |
| **Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:** | • Mae'r holl risgiau wedi'u hadolygu'n fisol gan yr Arweinydd Risg a Pharhad Busnes, gan sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru ac yn parhau ar darged. Gwneir cofnod dyddiedig ar y cyd a'r adolygiad o fewn 'dogfen wybodaeth ategol' y cofnod risg gosodedig.<br><br>• Anfonwyd negeseuon atgoffa at Arweinwyr Risg i adolygu a diweddaru eu risgiau a'u gweithredoedd parhaus naill ai'n fisol neu'n chwarterol (yn dibynnu ar y math o risg).<br><br>• Ers y diweddariad blaenorol, mae bob risg ar Gofrestr Risg yr Heddlu wedi'u hadolygu yn y cyfarfodydd canlynol gyda dim materion nac eithriadau wedi'u codi.<br><br>• Cyfarfodydd Tîm Uwch Reoli<br>• Bwrdd Rheoli Strategol<br>• Bwrdd Gweithredol Strategol<br>• Bwrdd Cyflawni Gwasanaeth Gwych<br>• Bwrdd Addas i'r Dyfodol<br>• Bwrdd Pobl Strategol<br>• Bwrdd Newid a Chydweithredu Strategol<br>• Bwrdd Sicrwydd<br><br>• Crynodeb o risgiau HGC a SCHTh byw wedi eu cofnodi ar Gofrestr Risg yr Heddlu 26 Awst i 17 Tachwedd 2023.<br><br>• **Risgiau newydd HGC a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf.**<br>  ○ Risg 118 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG<br>  ○ Risg 119 – Gallu cynnal lefelau cynnydd swyddogion heddlu<br>  ○ Risg 120 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG<br>  ○ Risg 121 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG<br>  ○ Risg 123 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG |

| | |
|---|---|
| | • **Risgiau newydd SCHTh a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf.**<br>• **Risgiau HGC a dynnwyd o Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf.**<br>    • Risg 103 Colli CCC i'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd<br><br>• **Risgiau SCHTh wedi'u tynnu o Gofrestr Risgiau'r Heddlu ers yr adroddiad diwethaf**<br><br>• **Risg HGC Newidiadau i'r Risgiau ar Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf**<br><br>• **SCHTH Risg Newidiadau i'r Risgiau ar Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf**<br>• **Cofrestr Risgiau'r Heddlu a oedd yn cynnwys Risgiau SCHTh.**<br><br>• **Graddau RAG Gweithrediadau Risg – HGC**<br>• **Graddau RAG Gweithrediadau Risg – SCHTh**<br><br>• **Cofrestr Risg COVID19**<br><br>• **Datblygiadau o ran rheoli risg**<br>    • Adolygiad cymheiriaid gan Heddlu De Cymru<br>    • Archwiliad Cydweithrediad TIAA – Gogledd Cymru, Dyfed Powys, Gwent.<br><br>• **Tabl yn crynhoi risgiau HGC a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu ar 17/11/23.**<br><br>• **Tabl yn crynhoi risgiau SCHTh a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu ar 17/11/23.** |
| **Argymhellion:** | Dim |
| **Effaith Cofrestr Risgiau:** | Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gofnodion a gofnodwyd ar Gofrestr Risg a Chofrestr Risg COVID 19 yr Heddlu |
| **Goblygiadau Sicrwydd:** | Mae'r adroddiad hwn yn uniongyrchol berthnasol i ddatblygu sicrwydd yn Heddlu Gogledd Cymru |
| **Effaith Cydraddoldeb:** | Dim |
| **Gwybodaeth wedi'i Heithrio o Ddadleniad:** | Ydy (amlygwyd mewn melyn) |

## 1. CYFLWYNIAD

Diben yr adroddiad hwn ydy rhoi diweddariad ar broses rheoli risg sefydliadol gan roi trosolwg o statws risgiau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'n seiliedig ar

wybodaeth a dderbyniwyd ac a gofnodwyd erbyn 17 Tachwedd 2023 ar Gofrestr Risg yr Heddlu fersiwn 6.238.

Mae risgiau prosiectau yn cael eu rheoli ar wahân o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolios. Fodd bynnag, mae'r rhai hynny sydd angen sylw'r Heddlu yn cael eu rhoi ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu drwy'r broses a gytunir a ddogfennir yn y Fframwaith Mapio Risg a Sicrwydd f1.10.

## 2. CRYNODEB COFRESTR RISG YR HEDDLU

Rydym yn parhau i osod ein hymdriniaeth i Reoli Risg ledled y sefydliad drwy ryngweithio rheolaidd gyda'r Arweinwyr/Perchnogion Risg un ai'n fisol neu'n chwarterol (yn dibynnu ar y math o risg). Mae nodiadau atgoffa wedi'u hanfon at yr unigolion er mwyn adolygu a diweddaru gweithrediadau parhaus er mwyn sicrhau bod risg yn parhau i gyrraedd y targed. Ar ben hyn, rydym yn parhau i gynnal adolygiad misol o bob risg ac wedi codi unrhyw bryderon neu broblemau gydag Arweinwyr Risg ac Uwch Dimau Rheoli drwy eu hadroddiadau prif faterion risg. Mae risgiau hefyd wedi cael eu riportio a'u hadolygu yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli (SMT), Bwrdd Rheoli Strategol (SMB), Bwrdd Gweithredu Strategol (SEB), Bwrdd Cyflawni Gwasanaeth Gwych, Bwrdd Addas i'r Dyfodol, Bwrdd Pobl Strategol (SPB), Bwrdd Newid a Chydweithrediad Strategol (SCCB), gyda dim materion nac eithriadau wedi'u codi. Adroddir crynodeb o'r holl risgiau a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu i'r Bwrdd Sicrwydd hefyd.

**Tabl 1: - Risgiau HGC ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu 26 Awst 2023 – 17 Hydref 2023**

| Lefelau'r Risg cyn Rheolaethau | Cyfanswm Blaenorol Risg HGC | Risgiau a dynnwyd yn y cyfnod hwn | Risgiau Newydd yn y cyfnod hwn | Risgiau HGC a gofnodir ar hyn o bryd ar Gofrestr Risg yr Heddlu |
|---|---|---|---|---|
| **Difrifol** | **9** | **0** | **2** | **11** |
| **Uchel** | **14** | **1** | **3** | **16** |
| **Canolig** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| **Cyfanswm** | **24** | **1** | **5** | **28** |

**Tabl 2: - Risgiau SCHTh ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu 26 Awst 2023 – 17 Hydref 2023**

| Lefelau'r Risg cyn Rheolaethau | Cyfanswm Blaenorol Risg SCHTh | Risgiau a dynnwyd yn y cyfnod hwn | Risgiau Newydd yn y cyfnod hwn newydd yn y cyfnod hwn | Risgiau SCHTh a gofnodir ar hyn o bryd ar Gofrestr Risg yr Heddlu |
|---|---|---|---|---|
| **Difrifol** | **1** | **0** | **0** | **1** |
| **Uchel** | **2** | **0** | **0** | **2** |
| **Canolig** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm** | **3** | **0** | **0** | **3** |

**Tabl 3: - Crynodeb 31 Risg Byw ar Gofrestr Risg yr Heddlu gan UDRh hyd at 16 Tachwedd 2023. Rhennir y rhain i Risgiau Heddlu Gogledd Cymru a Risgiau SCHTh fel a ganlyn:**

| | Risg Cyn Lefelau Rheoli | | | |
|---|---|---|---|---|
| **UDRh** | **Difrifol** | **Uchel** | **Canolig** | **Cyfansymiau** |
| **Gwasanaethau Corfforaethol yn cynnwys DPS** | 0 | 1 | 0 | **1** |
| **Gwasanaethau Trosedd** | 4 | 4 | 0 | **8** |
| **Cyllid ac Adnoddau** | 7 | 6 | 1 | **14** |
| **Gwasanaethau Plismona Lleol** | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Gwasanaethau Cefnogi Gweithredol** | 0 | 4 | 0 | **4** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Safonau Proffesiynol** | 0 | 1 | 0 | **1** |
| **SCHTH** | 1 | 2 | 0 | **3** |
| **CYFANSWM RISGIAU HGC A SCHTh AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU** | **12** | **18** | **1** | **31** |

**3. RISGIAU NEWYDD HGC A GOFNODWYD AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF.**

Mae 4 risg newydd wedi'u hychwanegu at Gofrestr Risgiau'r Heddlu ers yr adroddiad risg CA diwethaf.

- **Risg 118 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG**

- **Risg 119 – Gallu cynnal lefelau cynnydd swyddogion heddlu**
  **Mae risg** nad ydy'r heddlu'n gallu recriwtio digon o swyddogion heddlu **oherwydd** ymgeiswyr addas yn yr arfaeth a'r nifer o swyddogion HGC yn ymddiswyddo, ymddeol neu'n trosglwyddo i Heddluoedd eraill **a all arwain at** fethu bodloni niferoedd Uplift y Swyddfa Gartref a wnaiff arwain at gosbau ariannol ac effeithio ar allu'r Heddlu gyflawni ei flaenoriaethau.

  Codwyd y risg Dynamig hwn gan yr Uwcharolygydd (73479), Pennaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol ar 28/08/23. Cofnodwyd risg ar gyfer y flwyddyn flaenorol ar Gofrestr Risg yr Heddlu o dan URN 103 ac fe'i caewyd ar 18/09/23.

  Mae'r 'Lefel Risg Rheolaethau Cynt' fel DIFRIFOL ac mae'r 'Lefel Risg Presennol' yn GANOLIG ar hyn o bryd. Y Lefel Targed ydy ISEL gyda Dyddiad Darfod Risg Targed yn 30/09/24.

  Mae 2 Weithrediad Byw ar y risg hon. Yr Arweinydd Risg ydy yr Uwcharolygydd (73479), Pennaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol.

- **Risg 120 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG**

- **Risg 121 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG**

- **Risg 122 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG**

**4. RISGIAU NEWYDD SCHTH A GOFNODWYD AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF.**

Nid oes risgiau newydd gan y SCHTh wedi'u hychwanegu at Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad risg CA diwethaf.

**5. RISGIAU HGC A DYNNWYD O GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF**

Mae 1 risg SCHTh sydd wedi'i chau a'i o Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf.

- **Risg 103 Gallu integreiddio swyddogion 'Uplift'**
  Codwyd y risg hon i ddechrau ar 15/09/22 gan (94192) Pennaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol.

Penderfynwyd ar y 'Lefel Risg Rheolaethau Cynt' fel UCHEL. Gostyngwyd y 'Lefel Risg Presennol' o UCHEL i ISEL ar 30/03/23. Roedd y 'Lefel Targed' yn ISEL.

Roedd y risg Dynamig hwn yn berthnasol i fethiant posibl recriwtio ac integreiddio digon o swyddogion heddlu drwy ymgyrch Uplift **oherwydd** swyddogion HGC yn ymddiswyddo, ymddeol, neu'n trosglwyddo i heddluoedd eraill a diffyg swyddogion addas a **all fod wedi arwain at** fethu bodloni targedau'r Swyddfa Gartref a wnaiff effeithio ar gyllidebau'r dyfodol a gallu'r heddlu i gyflawni ei flaenoriaethau.

Adolygwyd y risg gan UDRh Gwasanaethau Corfforaethol ar 29/08/23 a'i awdurdodi i'w dynnu o Gofrestr Risg yr Heddlu oherwydd:

- gorffennodd Rhaglen Uplift yr Heddlu ar 31 Mawrth 2023.
- Cyflawnodd yr Heddlu Darged Rhaglen Uplift yr Heddlu +1.
- Cyrhaeddwyd Lefel Targed Risg ISEL.
- Mae'r risg wedi'i Thrin.
- Crëir risg newydd (URN 119).

Caewyd a thynnwyd y risg o Gofrestr Risg yr Heddlu ar 18/09/23.

**6. RISGIAU SCHTH A DYNNWYD O GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF.**
Ni chaewyd na thynnwyd risgiau SCHTh o Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf.

**7. NEWIDIADAU I'R RISGIAU HGC AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF**
Nid ydy unrhyw risg HGC byw wedi newid eu Lefelau Risg Presennol ers yr adroddiad diwethaf.

8. **SCHTH NEWIDIADAU I'R RISGIAU AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF**
Nid oes risg SCHTh Byw wedi newid eu lefel risg presennol ers yr adroddiad diwethaf.

**9. GWEITHREDIADAU COFRESTR RISGIAU'R HEDDLU**

- **Graddau RAG Gweithrediadau Risg – HGC**

| Gweithrediadau Ddim ar y Gweill | Gweithrediadau Ar y Gweill ond gyda Phroblemau | Gweithrediadau Ar y Gweill | Gweithrediadau wedi'u Cwblhau |
|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 57 | 75 |

Mae risgiau wedi'u hamlygu gyda *'Gweithrediadau ar y Gweill ond gyda phroblemau'* yn berthnasol i Weithrediadau sy'n cael eu marcio ar hyn o bryd fel yn aros neu wedi gohirio ac yn disgwyl ar benderfyniadau ar gynnydd.

Mae risgiau wedi'u hamlygu gyda *'Gweithrediadau Ddim ar y Gweill'* yn berthnasol i Weithrediadau hwyr ac yn disgwyl diweddariadau gan Arweinwyr Risg.

- **Graddau RAG Gweithrediadau Risg – SCHTh**

| Gweithrediadau Ddim ar y Gweill | Gweithrediadau Ar y Gweill ond gyda Phroblemau | Gweithrediadau Ar y Gweill | Gweithrediadau wedi'u Cwblhau |
|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 11 | 3 |

Mae risgiau wedi'u hamlygu gyda *'Gweithrediadau ar y Gweill ond gyda phroblemau'* yn berthnasol i Weithrediadau sy'n cael eu marcio ar hyn o bryd fel yn aros neu wedi gohirio ac yn disgwyl ar benderfyniadau ar gynnydd.

Mae risgiau wedi'u hamlygu gyda *'Gweithrediadau Ddim ar y Gweill'* yn berthnasol i Weithrediadau hwyr ac yn disgwyl diweddariadau gan Arweinwyr Risg.

**10. COFRESTR RISG COVID19 YR HEDDLU**

Nid oes risgiau wedi'u cofnodi ar Gofrestr Risg Covid19 yr Heddlu.

**11. DATBLYGIADAU O RAN RHEOLI RISGIAU**

- **Adolygiad cyfoedion gan Heddlu De Cymru**
  Hysbyswyd yr Heddlu ar 18/10/23 fod Rheolwr Risg De Cymru i ffwrdd o'u gwaith ar hyn o bryd oherwydd amgylchiadau personol ac ni fyddan nhw'n gallu ymgymryd â'r adolygiad fel y cynlluniwyd. Fe eir ar drywydd hyn pan mae Rheolwr Risg De Cymru'n dychwelyd i'r gwaith.

- **Archwiliad Cydweithrediad TIAA – Gogledd Cymru, Dyfed Powys, Gwent.**
  Mae'n braf adrodd fod Heddlu Gogledd Cymru wedi derbyn Sicrwydd Sylweddol gan yr Archwilwyr, TIAA am ein Prosesau Rheoli Risg a hynny am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae'r canlyniadau drafft ar gyfer archwiliadau Rheoli Risg Cydweithredol Heddluoedd Dyfed Powys, Gwent a Gogledd Cymru fel a ganlyn:

| Heddlu | Asesiad |
|---|---|
| Heddlu Dyfed Powys | Rhesymol |
| Heddlu Gwent | Rhesymol |
| **Heddlu Gogledd Cymru** | **Sylweddol** |

## 12. CRYNODEB AM RISGIAU HGC AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU AR 17/11/2023

| URN | Teitl y Risg | Lefelau'r Risg | | | Math o Risg | Dyddiad y Risg a Godwyd | Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf | Cynnydd Gweithrediadau Risg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyn Rheolaethau | Yn bresennol | Targed | | | | Gweithrediadau Neilltuol | Gweithrediadau wedi'u Cwblhau | Ar y Gweill | Ar y gweill ond hefo problemau | Dim ar y Gweill |
| 003 | Cronfa Ddata RMS Legacy | **Uchel** | **Canolig** | **Isel** | Datganiad llywodraethu 2020-2021 | 10/08/16 | 01/07/24 | 1 | 1 | 1 | | |
| 054 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Uchel** | **Canolig** | **Isel** | Dynamig | 29/04/20 | 06/10/23 | 1 | 2 | 1 | | |
| 060 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Uchel** | **Canolig** | **Canolig** | Sefydlog | 19/05/20 | 16/08/23 | 1 | 3 | 1 | | |
| 071 | Pensiynau | **Uchel** | **Canolig** | **Canolig** | Sefydlog | 20/01/21 | 07/08/23 | 2 | 3 | 2 | | |
| 074 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Difrifol** | **Canolig** | **Canolig** | Dynamig | 04/06/21 | 19/11/23 | 1 | 14 | 1 | | |
| 081 | Analluo i ddenu Staff i wneud cais am rolau allweddol o fewn HGC | **Difrifol** | **Canolig** | **Canolig** | Dynamig | 08/09/21 | 28/08/23 | 2 | 3 | 2 | | |
| 088 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Uchel** | **Uchel** | **Isel** | Dynamig | 01/02/22 | 18/10/23 | 4 | 3 | 4 | | |
| 091 | Colli arian a fuddsoddwyd ar y farchnad arian | **Difrifol** | **Isel** | **Isel** | Sefydlog | 16/02/22 | 07/08/23 | 2 | 2 | 2 | | |
| 093 | Adnoddau ariannol annigonol i gyflawni cynlluniau gwasanaeth am y cyfnod 01/04/2024 tan 31/3/2029 | **Difrifol** | **Canolig** | **Canolig** | Sefydlog | 15/03/22 | 07/08/23 | 2 | 2 | 2 | | |
| 094 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Uchel** | **Canolig** | **Dibwys** | Dynamig | 22/02/22 | 12/10/23 | 1 | 7 | 1 | | |
| 096 | Galw Gormodol o fewn yr Uned Dadansoddwyr | **Uchel** | **Canolig** | **Canolig** | Sefydlog | 12/04/22 | 25/08/23 | 3 | 10 | 3 | | |
| 098 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Difrifol** | **Difrifol** | **Canolig** | Dynamig | 19/05/22 | 18/10/23 | 2 | 5 | 2 | | |
| 099 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Uchel** | **Isel** | **Isel** | Dynamig | 13/06/22 | 05/07/23 | 0 | 7 | 0 | | |
| 101 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Canolig** | **Isel** | **Dibwys** | Sefydlog | 07/06/22 | 24/08/23 | 1 | 1 | 1 | | |
| 105 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Uchel** | **Uchel** | **Canolig** | Sefydlog | 03/01/23 | 17/10/23 | 4 | 1 | 3 | | |
| 106 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Difrifol** | **Difrifol** | **Canolig** | Sefydlog | 03/01/23 | 01/08/23 | 3 | 0 | 3 | | |
| 108 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Difrifol** | **Uchel** | **Dibwys** | Dynamig | 20/12/22 | 06/11/23 | 3 | 4 | 3 | | |
| 110 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Uchel** | **Uchel** | **Canolig** | Sefydlog | 09/05/23 | 25/08/23 | 2 | 0 | 2 | | |
| 111 | Diffyg presenoldeb Ymgynghorydd Meddygol yr Heddlu | **Difrifol** | **Uchel** | **Canolig** | Dynamig | 01/05/23 | 20/09/23 | 1 | 3 | 1 | | |
| 112 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Difrifol** | **Uchel** | **Isel** | Dynamig | 01/05/23 | 10/11/23 | 4 | 1 | 4 | | |
| 115 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Uchel** | **Uchel** | **Dibwys** | Sefydlog | 20/06/23 | 21/09/23 | 2 | 0 | 2 | | |
| 116 | Colli Ymddiriedaeth a Hyder yn HGC | **Uchel** | **Uchel** | **Canolig** | Sefydlog | 23/01/23 | 17/11/23 | 2 | 1 | 2 | | |
| 117 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Uchel** | **Uchel** | **Isel** | Dynamig | 18/07/23 | 17/10/23 | 1 | 0 | 1 | | |
| 118 | **GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG** | **Uchel** | **Uchel** | **Isel** | Sefydlog | 14/09/23 | 14/09/23 | 4 | 2 | 4 | | |
| 119 | Gallu cynnal lefelau swyddogion heddlu Uplift | **Uchel** | **Canolig** | **Isel** | Dynamig | 28/08/23 | 28/09/23 | 2 | 0 | 2 | | |
| 120 | Colli CCC i'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd | **Difrifol** | **Uchel** | **Canolig** | Dynamig | 10/10/23 | 18/10/23 | 1 | 0 | 1 | | |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 121 | Tynnu Cylchedau Copr BT | **Difrifol** | **Difrifol** | **Isel** | Dynamig | 10/10/23 | 10/10/23 | 6 | 0 | 6 | | |
| 122 | Diffyg staff yn yr Uned Troseddau Ffyrdd | **Uchel** | **Uchel** | **Canolig** | Dynamig | 18/10/23 | 26/11/23 | Yn disgwyl | - | - | | |

## 13. CRYNODEB AM RISGIAU SCHTH AR GOFRESTR RISG YR HEDDLU AR 17/11/2023

| URN | Teitl y Risg | Lefelau'r Risg | | | Math o Risg | Dyddiad y Risg a Godwyd | Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf | Cynnydd Gweithrediadau Risg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyn Rheolaethau | Yn bresennol | Targed | | | | Gweithrediadau Neilltuol | Gweithrediadau wedi'u Cwblhau | Ar y Gweill | Ar y trywydd iawn ond gyda Phroblemau | Dim ar y Gweill |
| 091 | Colli arian a fuddsoddwyd ar y farchnad arian | **Difrifol** | **Isel** | **Isel** | Sefydlog | 16/02/22 | 07/08/23 | 2 | 2 | 2 | | |
| 109 | Digonolrwydd adnoddau ariannol 2023/2024 | **Difrifol** | **Canolig** | **Canolig** | Sefydlog | 26/04/23 | 19/09/23 | 2 | 1 | 2 | | |
| 113 | Etholiad CHTh 2024 | **Uchel** | **Canolig** | **Isel** | Sefydlog | 10/05/23 | 30/08/23 | 7 | 0 | 7 | | |

**Cydbwyllgor Archwilio**

**Dyddiad y Cyfarfod: 7 Rhagfyr 2023**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Rhaglen Waith Arfaethedig |
| **Awdur:** | Prif Swyddog Cyllid |
| **Diben yr adroddiad:** | I gytuno ar y rhaglen waith |
| **Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)** | ☐ X Penderfyniad<br>☐ Trafodaeth<br>☐ Sicrwydd<br>☐ Gwybodaeth |
| **Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:** | • Sicrhau bod y Cydbwyllgor yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â dyddiadau cau statudol, a bod holl gyfrifoldebau'r Cydbwyllgor yn cael eu cwblhau yn ystod bob blwyddyn.<br>• Nodir eitemau gorfodol felly. Os ydy'r eitemau hyn yn cael eu ystyried yn ôl dyddiad cau statudol fel arfer, amlygir y dyddiad cau hwn hefyd. |
| **Argymhellion:** | • Aelodau'r Cydbwyllgor i nodi pa eitemau sy'n amodol ar ddyddiad cau statudol, ac felly mae'r cyfarfodydd wedi'u trefnu i gyflawni'r gofynion hynny.<br>• Aelodau'r Cydbwyllgor i ystyried cynnwys ychwanegol a allai gael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.<br>• Rhaglen waith y dyfodol i gael ei chyflwyno i bob cyfarfod, gan amlinellu'r gwaith am y deuddeg mis nesaf yn dreiglol. |
| **Effaith cofrestr risgiau:** | Un o ddibenion y Cydbwyllgor yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod risgiau ariannol ac anariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol. |
| **Goblygiadau sicrwydd:** | Diben y Cydbwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, yn unol â'r Cylch Gorchwyl. Mae'r rhaglen waith yn cynorthwyo i sicrhau bod holl feysydd perthnasol yn cael eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor. |
| **Effaith Cydraddoldeb:** | Ystyriwyd deddfwriaeth cydraddoldeb wrth recriwtio aelodau annibynnol y Cydbwyllgor Archwilio.<br>Mae Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd mewn grym. |
| **Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:** | Dim. |

**CYDBWYLLGOR ARCHWILIO**

**7 Rhagfyr 2023**

**RHAGLEN GWAITH ARFAETHEDIG**

**Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn derbyn rhaglen waith yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae hyn yn sicrhau bod y Cydbwyllgor yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â dyddiadau cau statudol, a bod holl gyfrifoldebau'r Cydbwyllgorau yn cael eu cwblhau yn ystod bob blwyddyn.

**1.2** Yn ogystal, mae eitemau i'w cyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio i'w nodi drwy ffyrdd amrywiol – gan swyddogion, staff neu aelodau'r Cydbwyllgor. Mae'r rhain wedi'u hychwanegu at y rhaglen waith yn llai ffurfiol, ac yn cael eu hychwanegu at yr agenda fel mae'n briodol.

**1.3** Gwahoddir aelodau i awgrymu eitemau i'w cynnwys ar y rhaglen waith a gellir gwneud hyn drwy gysylltu hefo'r Prif Swyddog Cyllid.

**1.4** Mae'r adroddiad hwn, felly, yn cynnwys y cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer y deuddeg mis nesaf. Os nad ydy dyddiad cyfarfod wedi'i gadarnhau eto, dangosir mis y cyfarfod fel arweiniad.

## 2. ARGYMHELLION

**2.1** Aelodau'r Cydbwyllgor i nodi pa eitemau sy'n amodol ar ddyddiad cau statudol, ac felly mae'r cyfarfodydd wedi'u trefnu i gyflawni'r gofynion hynny.

**2.2** Aelodau'r Cydbwyllgor i ystyried cynnwys ychwanegol a allai gael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**2.3** Rhaglen waith y dyfodol i gael ei chyflwyno i bob cyfarfod, gan amlinellu'r gwaith am y deuddeg mis nesaf yn dreiglol.

## 3. RHAGLEN WAITH

**3.1** Gan eithrio eitemau ar amserlen sy'n bodloni dyddiadau cau statudol, mae'r rhaglen waith yn hyblyg. Felly, gall eitemau ychwanegol gael eu hychwanegu os yw'r angen yn codi.

**3.2** Mae nifer o eitemau agenda sefydlog ar hyn o bryd yn cael eu trefnu ar gyfer bob cyfarfod. Bydd y rhain yn parhau ar agenda'r CA hyd nes y clywir yn wahanol:

| **Dyddiad y Cyfarfod** | **Rhaglen Waith 2022/23** |
|---|---|
| Pawb (Hyd nes y clywir yn wahanol) | • Diweddariad Busnes yn cynnwys Gwerth am Arian<br>• Diweddariad HMICFRS (wedi'i ymgorffori i'r uchod oni bai ei fod yn sylweddol)<br>• Diweddariad Archwilio Mewnol<br>• Diweddariad Risgiau |

| | |
|---|---|
| | • Newidiadau sefydliadol<br>• Diweddariad Digidol TGCh – Rheoli a NEP *sesiynau caeedig*<br>• Rhaglen Waith<br>• Diweddariad Cynllun Gweithredu'r CA |

Mae'r rhaglen waith ar wahân i'r eitemau agenda sefydlog a amlinellir uchod fel a ganlyn:

| **Dyddiad y Cyfarfod** | **Rhaglen Waith 2023/24** |
|---|---|
| i'w drefnu | • Sesiwn wybodaeth – FMS – sesiwn ar-lein, awr hefo Matt Stewart a Simon Williams – Angharad i drefnu |
| Mawrth 2024 | • Strategaeth Gyfalaf (yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys) *gorfodol – i'w chadarnhau cyn 1 Ebrill 2024*<br>• Diweddariad llywodraethu – yn cynnwys drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• Diweddariad Cynaliadwyedd<br>• Archwilio Cymru – cynllun blynyddol<br>• Diweddariad Moeseg<br>• Fframwaith Rheoli Ceisiadau (os ddim yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2023) *sesiwn gaeedig*<br>Adroddiad at wraidd y mater risg: Risg 106 a 112 *sesiwn gaeedig* |
| Gwanwyn 2024 | • Digwyddiad hyfforddiant Cymru Gyfan |
| Mehefin 2024 | • Cyfarwyddyd Technegol Cyfrifon<br>• Cyflwyniad i'r cyfrifon |
| Gorffennaf 2024 | • ISA 260 a llofnodi cyfrifon *gorfodol - dyddiad statudol i'w lofnodi erbyn 31 Gorffennaf 2024, ond gall ymestyn i ddyddiadau yn 2024*<br>• Datganiad Rheoli'r Heddlu – cyfarwyddyd<br>• Hunan-asesiad ac Adroddiad Blynyddol y CA – adroddiad terfynol<br>• Datganiad Strategaeth Risg a Pharodrwydd Risg – Adolygiad blynyddol<br>• Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys *gorfodol*<br>• Adroddiad Cyfreithiol<br>• At wraidd y mater risg: Risg 118 *sesiwn gaeedig* |
| Medi 2024 | • Diweddariad llywodraethu<br>• Diweddariad Cynaliadwyedd<br>• Proffiliau Gwerth am Arian HMICFRS<br>• Sesiwn friffio: Risg 119 – gallu cynnal lefelau cynnydd swyddogion heddlu |
| Rhagfyr 2024 | • Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr) *gorfodol*<br>• Diweddariad Llywodraethu<br>• Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys *gorfodol*<br>• Adroddiad cyfreithiol<br>• Diweddariad Gwerth am Arian<br>• Adroddiad HMICFRS – Adolygiad PEEL |

| | |
|---|---|
| Eitemau eraill i'w trafod gyda'r CA | Cynllun Gweithredu Gwerthuso CA – Sicrhau fod sesiynau ymroddedig a chaeedig wedi'u trefnu yn ôl yr angen er mwyn symud gweithrediadau cynllun Gwerthusiad y CA yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys adolygu effeithiolrwydd darparwyr sicrwydd gan ystyried darparu gwasanaethau archwilio mewnol yn benodol.<br>Cyflwyno Rhaglen TG (yn fisol, tu allan i gyfarfodydd)<br>Cyfarfod rhwng y Cydbwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru<br>Cyfarfod rhwng y Cydbwyllgor Archwilio ac Archwilio Mewnol<br>Cynaliadwyedd a datgarboneiddio<br>Adolygu/goruchwylio trefniadau llywodraethu ar gyfer partneriaethau a chydweithrediad |

## 4. GOBLYGIADAU

| | | |
|---|---|---|
| 4.1 | Cydraddoldeb | Ystyriwyd deddfwriaeth cydraddoldeb wrth recriwtio aelodau annibynnol y Cydbwyllgor Archwilio.<br>Mae Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd mewn grym. |
| 4.2 | Ariannol | Mae cynllunio'r gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod yn lleihau'r angen am gyfarfodydd unswydd. |
| 4.3 | Cyfreithiol | Mae deddfwriaeth yn gofyn i Gydbwyllgor Archwilio gael ei sefydlu. Crynhoir swyddogaethau'r Cydbwyllgor Archwilio o fewn ei Gylch Gorchwyl, sydd wedi'i baratoi yn unol â *Audit Committees\Practical Guidance for local Authorities and police – 2022 Edition (CIPFA)*.<br>Mae'r rhaglen waith hon yn ystyried gofynion statudol ac ymarferol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau hyn. |
| 4.4 | Cymuned | Cyhoeddir papurau a chofnodion cyfarfodydd, ac mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd eu mynychu. |
| 4.5 | Risg | Un o ddibenion y Cydbwyllgor yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod risgiau ariannol ac anariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol. |
| 4 .6 | Cynllun Heddlu a Throsedd | Mae rôl y Cydbwyllgor Archwilio yn rhan o'r Cynllun Heddlu a Throsedd cyffredinol. |

**Awdur yr Adroddiad:**

Kate Jackson
Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

# Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023

Cyfeirnod y ddogfen:

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich Cyfrifon. Mae rhai materion y mae angen rhoi gwybod ichi amdanynt cyn eu cymeradwyo.


Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad 4

Barn archwilio arfaethedig 5

Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad 5

Atodiadau

Atodiad 1: Llythyr Sylwadau Terfynol - Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru 8

Atodiad 2: Llythyr Sylwadau Terfynol - Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru 11

Atodiad 3: Adroddiad Archwilio arfaethedig - Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru 14

Atodiad 4: Adroddiad Archwilio arfaethedig - Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru 19

Atodiad 5: Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed 25

# Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon

## Cyflwyniad

1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o’ch cyfrifon ar gyfer 2022-23 yn yr adroddiad hwn.

2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Phrif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau’r Prif Gwnstabl a’u timau cyllid.

3 Nid yw archwilwyr byth yn gallu rhoi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi’u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o ‘berthnasedd’. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai beri fel arall i’r sawl sy’n defnyddio’r cyfrifon gael ei gamarwain.

4 Fe wnaethom bennu’r lefelau ar gyfer archwiliad eleni fel a ganlyn:

Arddangosyn 1: lefelau perthnasedd ar gyfer archwiliad eleni

| | **Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu** | **Y Prif Gwnstabl** | **Cronfa Bensiwn yr Heddlu** |
|---|---|---|---|
| Eitemau Incwm a Gwariant a balansau eraill | £2.752 miliwn | £2.752 miliwn | £1.016 miliwn |

5 Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i’r darllenydd ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:

- Datgeliadau Partïon Cysylltiedig £10,000.
- Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddogion £1,000.

6 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni’n sylweddol.

7 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â’r safonau moesegol sy’n berthnasol i’n gwaith; rydym yn annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthnasoedd rhyngom ni a chi a allai danseilio ein gwrthrychedd a’n hannibyniaeth yn ein tyb ni.

# Barn archwilio arfaethedig

8 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyrau Sylwadau inni yn seiliedig ar y rhai a nodir yn **Atodiadau 1 a 2**.

9 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.

10 Mae'r Llythyrau Sylwadau'n cynnwys rhai cadarnhadau y mae'n ofynnol i ni eu cael gennych chi dan safonau archwilio.

11 Caiff ein hadroddiadau archwilio arfaethedig eu nodi yn **Atodiadau 3 a 4**.

# Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

12 Rydym yn nodi isod y camddatganiadau a ganfuwyd gennym yn y cyfrifon, sydd wedi cael eu trafod gyda'r rheolwyr ond sy'n dal heb eu cywiro. Gofynnwn fod y rhain yn cael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi gwybod inni'n ysgrifenedig beth yw'r rhesymau dros beidio â'u cywiro:

**Arddangosyn 2 – Camddatganiadau nas cywirwyd**

| **Nodyn 12 Eiddo, Offer a Chyfarpar: Prisio Tir ac Adeiladau** |
| --- |
| **Asedau na chawsant eu hailbrisio yn ystod y flwyddyn**<br><br>Mae'n ofynnol i gyrff a archwilir ar draws pob sector roi cyfrif am eiddo, offer a chyfarpar yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar.<br><br>Mae Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn caniatáu i gyrff a archwilir fabwysiadu rhaglen brisio sy'n prisio Eiddo, Offer a Chyfarpar dros gyfnod 'byr' o amser. Dehonglir 'cyfnod byr' i olygu bod asedau fel arfer yn cael eu hailbrisio unwaith bob pum mlynedd ar gyfer pob dosbarth o asedau, ar yr amod nad yw'r swm cario'n amrywio'n berthnasol o'r swm a fyddai'n cael ei bennu gan ddefnyddio'r gwerth cyfredol ar ddiwedd y cyfnod adrodd.<br><br>Yn sgîl cyfnewidioldeb parhaus yng nghostau adeiladau a gwerthoedd rhenti, oherwydd amodau economaidd ehangach, mae risg bod asedau na chawsant |

eu hailbrisio'n ffurfiol yn ystod 2022-23 wedi cael eu camddatgan yn berthnasol.

Mae'r prisiwr allanol a benodwyd ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi darparu adroddiad 'Adolygiad o'r Farchnad' ar gyfer 2022-23 sy'n darparu manylion effaith bosibl y newidiadau hyn ar asedau na chawsant eu hailbrisio yn ystod y cyfnod.

Mae'r holl asesiadau a gaiff eu prisio gan ddefnyddio cost amnewid ddibrisiedig (DRC) wedi cael eu hailbrisio yn ystod y flwyddyn, felly nid yw ond yn ofynnol ystyried asedau a gaiff eu prisio gan ddefnyddio gwerth defnydd presennol (EUV) yr effeithir arnynt gan newidiadau yn rhenti ac arenillion y farchnad.

Mae'r prisiwr wedi nodi y bu cynnydd cyfartalog o 5.3% mewn rhenti yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, darparwyd gwybodaeth am y symudiad mewn arenillion rhent sy'n dangos ei fod yn amrywio o 3.16% i 12%.

Yn sgîl yr ystod eang, nid yw hi'n bosibl pennu'r effaith benodol ar brisio'r asedau. Fodd bynnag, wrth edrych ar effaith uchafswm ac isafswm y newidiadau mewn arenillion, rydym wedi ein sicrhau nad yw gwerth yr asedau wedi ei gamddatgan yn berthnasol yn y datganiad ariannol:

- Byddai cynnydd o 5.3% mewn rhent a chynnydd o 3.16% mewn arenillion yn golygu bod yr asedau wedi'u gorddatgan o £341,000.
- Byddai cynnydd o 5.3% mewn rhent a chynnydd o 12% mewn arenillion yn golygu bod yr asedau wedi'u tanddatgan o £1,246,000.

**Nodyn 12 Eiddo, Offer a Chyfarpar: Prisio Tir ac Adeiladau**

**Gwallau yn y data gwreiddiol a ddefnyddiwyd ym mhrisiadau 2022-23**

Nid yw'r data arwynebedd llawr a ddefnyddiwyd gan y prisiwr allanol yn nau o'r prisiadau defnydd presennol a wnaed yn ystod y flwyddyn yn gyson â'r data arwynebedd llawr a gedwir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae hyn wedi arwain at y camddatganiadau canlynol:

- Mae gwerthoedd asedau Tir ac Adeiladau wedi'u gorddatgan o £306,000.
- Mae'r gronfa wrth gefn ailbrisio wedi'i gorddatgan o £129,000.
- Mae'r golled ailbrisio a godir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi'i thanddatgan o £177,000.

## Camddatganiadau a gywirwyd

13 Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, rydym ni'n credu y dylid dwyn y rhain i'ch sylw, ac maent wedi'u nodi ynghyd ag esboniadau yn **Atodiad 5**.

## Materion Arwyddocaol eraill sy'n codi o'r archwiliad

14 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion sy'n codi yn y meysydd hyn eleni.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Dyddiad

### Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2022-23

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru (sy'n cynnwys Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru) a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u cywirdeb a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

### Sylwadau'r rheolwyr

#### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â'r rhain; a
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ynghylch y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a

rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Ceir crynodeb o'r eitemau hyn isod:

- Nodyn 12 Eiddo, Offer a Chyfarpar: prisio Tir ac Adeiladau:
  - Nid yw effaith newidiadau yn rhent ac arenillion y farchnad wedi cael ei chymhwyso i asedau a gaiff eu prisio gan ddefnyddio'r sail defnydd presennol, na chawsant eu prisio'n ffurfiol eleni.
  - Mae data arwynebedd llawr anghywir wedi cael ei ddefnyddio mewn dau o'r prisiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn. Mae cost gros un ased wedi'i gorddatgan o £165,000 ac mae cost gros un ased wedi'i thanddatgan o £141,000. Mae'r gwallau hyn yn effeithio ar y cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Fantolen.

Fe benderfynwyd peidio ag addasu ar gyfer y gwallau ar y sail eu bod yn amherthnasol.

## Sylwadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar 7 Rhagfyr 2023.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom ni, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Prif Swyddog Cyllid Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru | Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Dyddiad | Dyddiad |

# Atodiad 2

## Llythyr Sylwadau Terfynol – Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Dyddiad

## Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2022-23

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u cywirdeb a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau'r rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â'r rhain; a
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

- gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll.
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ynghylch y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol.

## Sylwadau gan Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar 7 Rhagfyr 2023.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein wneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Dyddiad | Dyddiad |

# Atodiad 3

## Adroddiad Archwilio Arfaethedig

### Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

#### Barn ar y datganiadau ariannol

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru;
- Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru sy’n cynnwys Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru; a
- Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod, a’r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o’r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn cynnwys Dadansoddiad o Wariant a Chyllid y Grŵp, Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp, Mantolen y Grŵp, Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn y Grŵp, Datganiad o Lifoedd Arian Parod y Grŵp a’r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o’r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru’n cynnwys Datganiad Cyfrif ac Asedau Net y Gronfa.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a’r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y’u dehonglwyd ac y’u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-2023.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2023 ac o’u hincwm a’u gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a’r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y’u dehonglwyd ac y’u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-2023.

#### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â’r gyfraith berthnasol a’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 ‘Archwilio Datganiadau Ariannol

Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd arnynt. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru a'u hamgylcheddau a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

## Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall; ac
- asesu gallu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru'n parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol ag adran 13(2) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, pennaeth archwilio mewnol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru sy'n ymwneud ag:
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y maes canlynol: cofnodi dyddlyfrau anarferol;
- Cael dealltwriaeth am fframwaith awdurdod Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru'n gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru; a hefyd
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Cydbwyllgor Archwilio am ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a
- gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

# Atodiad 4

## Adroddiad Archwilio Arfaethedig

### Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

### Barn ar y datganiadau ariannol

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru; a
- Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru.

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Llifoedd Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru'n cynnwys Datganiad Cyfrif ac Asedau Net y Gronfa.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-2023.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2023 ac o'u hincwm a'u gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-2023.

### Sail y Farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r

gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd arnynt. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth am Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru a’u hamgylcheddau a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy’n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw’r datganiadau ariannol yn gyson â’r cofnodion a’r ffurflenni cyfrifyddu.

## Cyfrifoldebau’r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy’n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy’n rhoi darlun cywir a theg, ac sy’n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall; ac
- asesu gallu Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru’n parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau’r archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio’r datganiadau ariannol yn unol ag adran 13(2) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, pennaeth archwilio mewnol Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru sy'n ymwneud ag:
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y maes canlynol: cofnodi dyddlyfrau anarferol;
- Cael dealltwriaeth am fframwaith awdurdod Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru'n gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru.
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Cydbwyllgor Archwilio am ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a
- gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

# Atodiad 5

## Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, fe ganfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni oherwydd ei perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi dros y broses adrodd ariannol.

**Arddangosyn 3: crynodeb o gywiriadau a wnaed**

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad yng nghyfrifon y Comisiynydd/Grŵp | Natur y cywiriad yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|---|
| **Amrywiol** – datgeliadau yn unig | Nodyn 26 Cydnabyddiaeth Ariannol Swyddogion<br><br>Fe wnaed newidiadau i'r datgeliadau mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol, bandiau cydnabyddiaeth ariannol, pecynnau ymadael uwch swyddogion. | Nodyn 14 Cydnabyddiaeth Ariannol Swyddogion<br><br>Fe wnaed newidiadau i'r datgeliadau mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol, bandiau cydnabyddiaeth ariannol, pecynnau ymadael uwch swyddogion | Er mwyn sicrhau bod y datgeliadau yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio'n llwyr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23. |
| **Y fantolen**: Asedau net wedi'u cynyddu o £3,827,000.<br><br>Cyfanswm cronfeydd wrth gefn wedi'i gryfhau o £3,827,000. | Nodyn 12 Eiddo, Offer a Chyfarpar<br><br>Cafodd y prisiad o dir ac adeiladau ei gynyddu o £3,827,000 i adlewyrchu prisiadau diwygiedig tri ased.<br><br>Roedd ffactor lleoliad anghywir wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer dau ased ac roedd y data arwynebedd mewnol gros anghywir wedi cael ei ddefnyddio | Ddim yn berthnasol gan nad oedd unrhyw effaith ar gyfrifon y Prif Gwnstabl. | Er mwyn sicrhau bod yr asedau yn y datganiadau ariannol yn cael eu datgelu yn ôl eu gwerthoedd cywir. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad yng nghyfrifon y Comisiynydd/Grŵp | Natur y cywiriad yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|---|
| | gan y prisiwr allanol ar gyfer yr ased a oedd yn weddill.<br>Roedd newid cyfatebol i Nodyn 20, Cronfa wrth Gefn Ailbrisio a'r Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn. | | |
| **Y fantolen:**<br>Asedau net wedi'u cynyddu o £56,161,000.<br><br>Cyfanswm cronfeydd wrth gefn wedi'u lleihau o £56,161,000.<br><br>**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:**<br>Addasu gwarged pensiwn / terfyn uchaf asedau wedi'i gynyddu o £56,161,000. | Nodyn 34 Cynllun Pensiwn Buddion Diffiniedig – diwygiwyd yr ased pensiwn sy'n ymwneud â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfyngu ar swm y gwarged a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.<br><br>Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 yn cyfyngu ar swm y gwarged pensiwn y gellir ei gydnabod, gan ystyried cyfraniadau a chostau yn y dyfodol. Caiff y 'terfyn uchaf asedau' hwn ei egluro gan y Pwyllgor Dehongli Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn IFRIC 14.<br><br>Mae'r terfyn uchaf asedau wedi cael ei gyfrifo gan actiwari'r gronfa bensiwn. | Nodyn 17 Cynllun Pensiwn Buddion Diffiniedig – diwygiwyd yr ased pensiwn sy'n ymwneud â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfyngu ar swm y gwarged a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.<br><br>Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 yn cyfyngu ar swm y gwarged pensiwn y gellir ei gydnabod, gan ystyried cyfraniadau a chostau yn y dyfodol. Caiff y 'terfyn uchaf asedau' hwn ei egluro gan y Pwyllgor Dehongli Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn IFRIC 14.<br><br>Mae'r terfyn uchaf asedau wedi cael ei gyfrifo gan actiwari'r gronfa bensiwn. | Er mwyn sicrhau bod yr ased pensiwn sydd wedi'i gynnwys yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio ag IAS 19 ac IFRIC 14. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad yng nghyfrifon y Comisiynydd/Grŵp | Natur y cywiriad yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|---|
| | Cafodd yr ased gwreiddiol o £57,095,000 ei leihau i £934,000.<br><br>Roedd y newid yn cynnwys codiant ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.<br>Mae hyn hefyd wedi effeithio ar y canlynol:<br><br>• Y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.<br>• Nodyn 20 cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy.<br>• Credydwyr hirdymor. | Cafodd yr ased gwreiddiol o £57,095,000 ei leihau i £934,000.<br><br>Roedd y newid yn cynnwys codiant ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.<br>Mae hyn hefyd wedi effeithio ar y canlynol:<br><br>• Y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.<br>• Dyledwyr hirdymor gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. | |
| Fe wnaed nifer o fân newidiadau a diweddariadau i ddatgeliadau o ganlyniad i’n gwaith hefyd | | | |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

**CYDBWYLLGOR ARCHWILIO**
**7 Rhagfyr 2023**
**Datganiad Cyfrifon 2022-2023**
**Adroddiad gan Brif Swyddogion Cyllid y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.**

## 1. Cefndir

1.1 Yn dilyn cyflwyniad Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael ei adnabod fel corfforaeth unigol o 22 Tachwedd 2012 ymlaen. Yn ymarferol, mae'n ofynnol i'r ddwy gorfforaeth unigol baratoi eu Datganiad o Gyfrifon unigol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Lleol (y Cod) a'r Safonau Hysbysu Ariannol Rhyngwladol perthnasol. Mae hefyd yn ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyflwyno set o Gyfrifon Grŵp.

1.2 Mae'r Datganiadau wedi'u cyflwyno'n unol â'r Cod, y ddeddfwriaeth berthnasol a'r canllawiau sydd ar gael. Mae dwy ddogfen wedi cael eu cyflwyno, sef:

- Cyfrifon Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac Endid Unigol 2022-2023. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfrifon Grŵp a chyfrifon endid unigol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- Cyfrifon Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru 2022-2023. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifon endid unigol y Prif Gwnstabl a Chyfrif Pensiwn yr Heddlu 2022-2023.

1.3 Mae copïau o'r ddwy ddogfen i'w cael ar wahân.

## 2. Y broses ar gyfer cwblhau Datganiad Cyfrifon 2022-23

2.1 Mae Gwelliant Cyfrifon ac Archwiliad (Cymru) 2018 yn gofyn i'r swyddog ariannol cyfrifol lofnodi a rhoi dyddiad i'r datganiad cyfrifon ac ardystio ei fod yn rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn ariannol erbyn dim hwyrach na 31 Mai o'r flwyddyn honno. Mae'n ofynnol wedyn i'r swyddog ariannol cyfrifol wedyn ardystio'r datganiad eto cyn y caiff ei gymeradwyo a'i gyhoeddi gyda thystysgrif, barn neu adroddiad yr archwilydd perthnasol er mwyn cyhoeddi'r datganiad erbyn 31 Gorffennaf y flwyddyn honno.

2.2 Yn dilyn trafodaethau hefo Cymdeithas Trysoryddion Cymru (Llywodraeth Leol), Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru amserlen ddiwygiedig ar 15 Mai 2023 sef 31 Gorffennaf 2023 ar gyfer ardystio'r cyfrifon drafft a 31 Rhagfyr 2023 ar gyfer cyhoeddi fersiwn derfynol o'r cyfrifon cymeradwy. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu'r newid hwn hefo'r hysbysiadau perthnasol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y CHTh.

2.3 Crëwyd yr Adroddiad Alldro mewnol ar 16 Mai 2023. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau hefo Archwilio Cymru, newidiwyd y dyddiad targed ar gyfer creu'r cyfrifon drafft ardystiedig i 30 Mehefin 2023 er mwyn caniatáu gwirio ychwanegol. Cynlluniwyd y prif archwiliad ar gyfer mis Medi i fis Tachwedd 2023. Ar sail hyn, gosodwyd cyfarfod y CA ar 7 Rhagfyr fel y dyddiad targed ar gyfer y fersiwn olaf a'r adroddiadau perthnasol.

2.4 Os yw'n bosibl a phan mae staff ar gael, cynhaliwyd peth gwaith archwilio dros fisoedd yr haf. Defnyddiwyd Inflo, porth rhannu gwybodaeth, am y tro cyntaf hefyd yn ystod yr archwiliad. Cynhaliwyd y prif archwiliad yn yr hydref, ar-lein ond hefyd hefo rhai cyfarfodydd yn y cnawd.

2.5 Mae rhai materion wedi dod i'r amlwg ers creu'r cyfrifon drafft gwreiddiol ddiwedd mis Mehefin 2022. Mae hyn wedi arwain at newid cynnwys a chyflwyniad y cyfrifon. Fodd bynnag, nid yw'r un o'r rhain wedi newid y symudiad cyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, sef diwedd y gân yn ei hanfod, o'r ffigyrau drafft gwreiddiol a adroddwyd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn ystod mis Mai 2022 yn yr adroddiad alldro.

2.6 Mae adborth gan aelodau'r CA o ran Datganiad Cyfrifon 2022-2023 hefyd wedi ei ystyried. Ychwanegir at y newidiadau a wnaed yn y blynyddoedd cynt er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth o'r cyfrifon.

2.7 Oherwydd natur dechnegol y cyfrifon a'r gofynion cyfrifyddu cynnydd i arferol o fewn cyfrifyddu llywodraeth leol, mae gwella eu haddasrwydd i ddefnyddwyr yn parhau'n heriol. Fodd bynnag, y bwriad fyddai parhau i ddatblygu'r agwedd hon yn flynyddol heb beryglu eu cyflawniad erbyn y dyddiadau cau priodol.

2.8 Mae'r canlynol yn amlinellu rhai o'r digwyddiadau allweddol sy'n bwydo i greu'r datganiadau diwygiedig

- 16.05.2023: Adroddiad Alldro wedi cael ei greu.
- 27.06.2023: Cyflawnwyd y Sesiwn Friffio Dechnegol i aelodau'r CA.
- 30.06.2023: Llofnodwyd y cyfrifon drafft a'u hanfon at dîm Archwilio Cymru.
- Haf 2023: Sefydlwyd system Inflo a 'dechrau araf deg' i'r archwiliad.
- Hydref 2023: Cynhaliwyd prif waith yr archwiliad.
- 24.10.2023: Diweddariad ar y cyfrifon i aelodau'r CA.
- 17.11.2023: Cyhoeddwyd set o gyfrifon drafft diwygiedig gyda newidiadau a gytunwyd arnynt wedi'u hanfon at Archwilio Cymru
- 24.11.2023: Derbyniwyd adroddiad drafft Archwiio Cymru ISA 260.

## 3. Cynnwys y Datganiadau

3.1 Mae'r ddau Ddatganiad yn cynnwys Adroddiad Naratif sy'n cynnwys y gofynion yn ôl y Cod. Nid yw'r rhain yn cael eu hailadrodd yn yr adroddiad hwn ond mae'r prif benawdau – wedi'u datblygu ar y cyd gyda'r Cydbwyllgor Archwilio ac adolygiad o arfer da mewn sefydliadau Plismona eraill – yn cynnwys:

- Cyflwyniad
- Llywodraethu a Chyfrifoldebau
- Blaenoriaethau Strategol
- Cyflawniad Gweithredol 2022-23
- Risg Corfforaethol
- Cyflawniad Ariannol 2022-23

- Cysoni Cyllid GAAP
- Amodau Cronfeydd wrth Gefn a Ffynonellau Cyllid
- Rhagolwg
- Polisïau cyfrifyddu
- Cydweithio a chyrff eraill
- Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd:
- Eglurhad o'r prif ddatganiadau.

3.2 Mae Datganiadau Cyfrifon mewn Llywodraeth Leol yn ddogfennau technegol iawn. Mae'r cyfuniad o'r gofynion cyfrifyddu, ynghyd â chynnydd Statudol a Rheoleiddiol (er mwyn sicrhau nad yw'r ffordd y mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi yn peri costau ychwanegol i'r cyhoedd) yn arwain at set o Ddatganiadau cymhleth. Mae gofynion ychwanegol dau endid unigol a set o gyfrifon Grŵp yn ychwanegu ymhellach at y cymhlethdod hwn.

3.3 Mae'r dull a gymerwyd yng Ngogledd Cymru, yn dilyn trafodaethau gyda Rhwydwaith Cyllid CIPFA'r Heddlu, heddluoedd eraill Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn adlewyrchu realiti'r trefniadau. Canlyniad hyn yw bod cost Plismona yn cael ei ddangos yng Nghyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Prif Gwnstabl. Mae angen i fformat y datganiad hwn gan y Cod gael ei baratoi yn unol ag adrodd rheolwyr h.y. ar sail dadansoddiad goddrychol.

3.4 Mae'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid (EFA) yn dangos y gwariant blynyddol a sut y bydd yn cael ei ariannu i ddangos y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a'r effaith gyffredinol ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio am y flwyddyn.

3.5 Mae'r prif ddatganiadau eraill yn dilyn ymlaen o'r EFA. Erbyn hyn, mae gan y Prif Gwnstabl fantolen gyfyngedig, symudiad mewn cronfeydd wrth gefn a datganiad llif arian o gyflwyno'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid. Mae'r rhain yn cynnwys y cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio mewn perthynas â'r ased/rhwymedigaeth Pensiwn net a'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig. Yna mae'r nodiadau i'r datganiadau yn dilyn yr hyn a gynhwysir yn y prif ddatganiadau.

## 4. Crynodeb o newidiadau i'r drafft terfynol ac ymateb Rheolwyr i Adroddiad Archwilio Cymru

4.1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu rhoi barn diamwys ar y ddau Ddatganiad Cyfrifon fel yr amlinellir yn ei adroddiad. Mae dau gamddatganiad heb eu cywiro sydd wedi'u manylu yn adroddiad yr archwilydd. Maent yn cael eu crynhoi isod hefo ymateb y rheolwyr. Mae'r rhain wedi'u cytuno hefo Archwilio Cymru.

4.2 Camddatganiadau heb eu cywiro

1. Gwerth adeiladau allan ohoni o bosib £0.341m i £1.246 oherwydd anwadalrwydd y farchnad rentu.

**Ymateb –** Prisir adeiladau ar gylch 5 mlynedd. Mae asedau sydd yn cael eu prisio o dan y Prisiad Defnydd Presennol yn cael eu hasesu o ran defnyddio costau rhentu yn yr ardal ac arenillion cyffredinol dal yr asedau. Gwnaeth asesiadau o'r farchnad bresennol a brisiwyd wahaniaeth posibl hefo'r gwerthoedd hanesyddol yn y cyfrifon. Yr unig ffordd o gadarnhau

hyn fyddai prisio'r stad i gyd ar gost ychwanegol. Cytunwyd peidio newid y prisiadau hanesyddol ac asesu fel rhan o gyfrifon 2023-2024, boed prisiad llawn o'r stad yn angenrheidiol ai peidio. Amcangyfrifon ydy'r ffigyrau prisio ar ddiwedd y dydd.

2. Gwallau mewn data ffynonellau a ddefnyddiwyd ym mhrisiadau 2022-23 gan arwain at wallau.

**Ymateb -** Canfuwyd yn hwyr yn yr archwiliad nad oedd data llawr a ddefnyddiwyd gan y prisiwr yn cyfateb i'r ffigyrau cywir. Gan nad ydy'r swm yn sylweddol, cytunwyd na fyddai'r rhain yn cael eu newid yn 2022-2023 ond yn cael eu cynnwys i'w ailbrisio yn 2023-24. Mae camau wedi'u cytuno er mwyn sicrhau fod y data sydd gan y priswyr yn cyfateb y data gan yr Adran Stadau.

Ni fyddai'r un o'r camddatganiadau hyn yn dylanwadu'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac maent yn rhan o ased dechnegol cyfrifyddu a adlewyrchir yng ngwerthoedd yr asedau a chronfeydd wrth gefn anddefnyddiadwy.

4.3 Camddatganiadau a gywirwyd

Cafwyd cywiriadau ac eglurhad eraill o'r hyn sy'n deillio o'r archwiliad. Roedd y rhain yn dechnegol eu natur neu'n symudiadau rhwng nodiadau. Nid ydy'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi newid o'r adroddiad alldro a'r cyfrifon drafft gwreiddiol. Mae'r rhain wedi'u crynhoi'n fyr isod ac yn cael eu cynnwys yn Atodiad 5 o adroddiad yr Archwiliad:

- Nodyn Cydnabyddiaeth Swyddogion – Mae hwn yn nodyn statudol ac mae ganddo lefel dibwys is sef £1000, ond ar waith y lefel dibwys ymarferol ydy £1. Gwnaed y nodyn yn fwy cymhleth eleni oherwydd newidiadau yn nhîm y Prif Swyddogion gan gynnwys Prif Swyddog yn gweithredu dros dro yn ystod y trosglwyddiad. Mae trefniadau mewn lle er mwyn sicrhau fod y nodyn yn gywir cyn belled ag y bodd yn y cyfrifon drafft y flwyddyn nesaf.
- Prisio Asedau – Cafwyd gwall ym mhrisiad Llai oherwydd yr hepgorwyd rhan o'r llawr. Roedd hwn yn swm sylweddol ac mae wedi'i gywiro yn y cyfrifon.
- Gweddill pensiwn – Amlygwyd y camddatganiad hwn fel problem bosibl o fewn y cyfrifon drafft. Gwnaeth prisiad cyfrifyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol staff adrodd gweddill. Mae hyn yn sefyllfa anarferol ac fe gafwyd trafodaeth eang rhwng ymarferwyr a CIPFA dros yr haf. Daethpwyd i'r casgliad y dylid rhoi uchafswm i'r gweddill. Cytunwyd ar driniaeth cyfrifyddu hefo ymarferwyr, CIPFA a'i wirio gan dîm technegol Archwilio Cymru.

4.4 Gwnaed diwygiadau eraill er mwyn egluro'r adroddiad Naratif ymhellach a rhai nodiadau yn dilyn adborth gan aelodau'r CA. Diweddarwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol er mwyn adlewyrchu newidiadau ers y crëwyd y cyfrifon drafft. Oherwydd yr amserlen estynedig, mae wedi bod yn bosibl rhannu drafft diwygiedig yn gynnar er mwyn sicrhau fod pob newid wedi'u cynnwys.

## 5. Argymhellion

- Aelodau'r pwyllgor archwilio i nodi cynnwys yr adroddiad hwn yn unol â dyletswyddau'r pwyllgor a sefydlwyd yn y cylch gorchwyl, yn benodol adolygu datganiadau cyfrifon blynyddol a datganiadau llywodraethu blynyddol.

**A datrys:**

**Yn unol â'i Gylch Gorchwyl, mae'r Cydbwyllgor Archwilio wedi adolygu Datganiadau Ariannol Blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae hefyd wedi ystyried adroddiadau'r archwiliwr allanol o hynny ymlaen. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn cadarnhau nad oes materion heb eu datrys yn codi sydd angen eu hadrodd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, cyn i'r Datganiadau Ariannol Blynyddol gael eu cymeradwyo.**

## 6. GOBLYGIADAU

| | | |
|---|---|---|
| 6.1 | Cydraddoldeb | Mae’r Prif Gwnstabl a’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu o ran yr egwyddorion a sefydlwyd o fewn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd. |
| 6.2 | Ariannol | Nod yr adroddiad hwn yw cyflwyno datganiad cyfrifon y ddwy gorfforaeth unigol i'r pwyllgor. |
| 6.3 | Cyfreithiol | Mae'r datganiad cyfrifon yn cyrraedd y safonau disgwyliedig, fel sy'n cael eu holrhain o fewn yr adroddiad. |
| 6.4 | Cymuned | Cyhoeddir y datganiadau cyfrifon ar wefan y Comisiynydd. Mae hysbysiad cyhoeddus wedi'i gyhoeddi o dan Adrannau 29, 30 a 31 Deddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004, sy'n datgan y gall aelodau o'r cyhoedd, rhwng 9 Hydref 2023 a 3 Tachwedd 2023, archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a gofyn cwestiynau i'r Archwilydd penodedig o 6 Tachwedd ymlaen. |
| 6.5 | Risg | Mae gweithdrefnau rheoli risg wedi'u sefydlu ac fe'u hystyriwyd ar wahân gan y pwyllgor fel rhan o'r trefniadau llywodraethu cyffredinol. Mae risgiau ariannol wedi'u cynnwys yn y datganiad o gyfrifon. |
| 6.6 | Cynllun Heddlu a Throsedd | Ystyrir y Cynllun Heddlu a Throsedd ar ddechrau'r cylch cynllunio ariannol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r cynllun o fewn cyllideb gynaliadwy. |

**Cydbwyllgor Archwilio**

**Dyddiad y Cyfarfod: 7 Rhagfyr 2023**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Adroddiad Dwywaith y Flwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2023-24** |
| **Awdur:** | **Prif Swyddog Cyllid** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Adrodd ar gyflawniad rheoli'r trysorlys** |
| **Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)** | ☐ Penderfyniad<br>☐ Trafodaeth<br>☐ **Sicrwydd**<br>☐ Gwybodaeth |
| **Crynodeb Gweithredol / Pwyntiau Allweddol:** | • Mae Cod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus Rheoli'r Trysorlys CIPFA yn gofyn i adroddiad ar gyflawniad Rheoli'r Trysorlys gael ei ystyried o leiaf ddwywaith y flwyddyn gan y CA.<br>• Mae gofyniad newydd yn y Cod diwygiedig ar gyfer 2021, sy'n orfodol o 1 Ebrill 2023, sef adroddiadau chwarterol o ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys. Adroddir y rhain drwy eithriad i'r Bwrdd Gweithredol Strategol a'r Bwrdd Rheoli Strategol, ac mae hefyd yn cynnwys dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhan o'r trysorlys.<br>• Mae'n cynnwys crynodeb o weithgarwch Rheoli'r Trysorlys a wnaed yn chwe mis cyntaf 2023-24.<br>• Mae'n ymdrin â buddsoddi arian parod sy'n weddill ac unrhyw ofynion benthyca. Ar hyn o bryd, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd adnoddau mantolen cryf sy'n arwain at sefyllfa buddsoddwr net yn mynd ymlaen (h.y. nid oes angen arfaethedig i fenthyg ar gyfer y tymor canolig).<br>• Mae'n tynnu sylw at a dorrwyd unrhyw gyfyngiadau neu ddangosyddion ai peidio. Yn y 6 mis sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn, ni thorrwyd dangosyddion statudol. |
| **Argymhellion:** | Cyflwynir yr adroddiad i'r CA am wybodaeth a sylwadau, ac i roi ei sicrwydd cyn cyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. |
| **Effaith cofrestr risgiau:** | Dim effaith – mae'r trefniadau wedi'u llunio er mwyn rheoli'r risg o fuddsoddi a benthyg. |
| **Goblygiadau sicrwydd:** | Mae’r adroddiad yn amlinellu'r cyflawniad o ran rheolau a chyfyngiadau a gytunwyd ar gyfer buddsoddi a benthyg arian yn ôl y strategaeth Rheoli'r Trysorlys sydd mewn lle ar gyfer 2023-24. |
| **Effaith Cydraddoldeb:** | Dim effaith. |
| **Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:** | Dim gwybodaeth wedi'i hesgusodi. |

# Adroddiad Rheoli'r Trysorlys H1 2023/24

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fabwysiadu *Treasury Management in the Public Services: Code of Practice* (y Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd dderbyn adroddiadau alldro dwywaith y flwyddyn a blynyddol rheoli'r trysorlys o leiaf.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y gofyniad newydd yng Nghod 2021, sy'n orfodol o 1 Ebrill 2023, sef adroddiadau chwarterol am ddangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys. Adroddir y rhain drwy eithriad i'r Bwrdd Gweithredol Strategol a'r Bwrdd Rheoli Strategol, ac mae hefyd yn cynnwys dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhan o'r trysorlys.

Mabwysiadwyd strategaeth rheoli'r trysorlys 2023/24 y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ffurfiol fel rhan o'i Strategaeth Gyfalaf ar 29 Mawrth 2023 gan y Comisiynydd yn dilyn craffu gan y Cydbwyllgor Archwilio ar 28 Mawrth 2023. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Comisiynydd yn buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd a'r effaith refeniw o newid cyfraddau llog. Mae llwyddo i nodi, monitro a rheoli risg yn parhau'n ganolog i strategaeth rheoli'r trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

## 2. Cyd-destun Allanol

**Cefndir economaidd:** Parhaodd chwyddiant y DU yn ystyfnig o uchel dros lawer o'r cyfnod o'i gymharu â pharth yr UD a'r Ewro, gan gadw disgwyliadau'n uchel o ran pa mor bell fyddai Banc Lloegr yn codi cyfraddau o'i gymharu â'r rhanbarthau. Fodd bynnag, roedd data chwyddiant a gyhoeddwyd yn rhan olaf y cyfnod yn brin o'r nod, gan achosi marchnadoedd ariannol ailasesu'r brig yng Nghyfradd Fanc Banc Lloegr. Dilynwyd hyn yn fuan iawn gan Fanc Lloegr yn penderfynu oedi'r Gyfradd Fanc ar 5.25% ym mis Medi, o ran disgwyl am gynnydd arall o 0.25%.

Parhaodd twf economaidd yn y DU yn eithaf gwan dros y cyfnod. Yn Ch2 calendr 2023, chwyddodd yr economi 0.4% gan drechu disgwyliadau o gynnydd o 0.2%. Fodd bynnag, dangosodd data GDP misol gwtogiad o 0.5% ym mis Gorffennaf, sef y cwymp mwyaf hyd yma yn 2023 ac yn waeth na'r gostyngiad disgwyliedig o 0.2% a allai fod yn arwydd o'r cylch tynhau ariannol

Dangosodd data mis Gorffennaf fod y gyfradd ddiweithdra wedi codi i 4.3% (3 mis/y flwyddyn) tra cododd y gyfradd cyflogaeth i 75.5%. Roedd twf cyflog yn 8.5% ar gyfer cyfanswm cyflog (gan gynnwys bonysau) a 7.8% ar gyfer cyflog rheolaidd. Dyma'r gyfradd twf blynyddol a gofnodwyd uchaf am gyfanswm cyflog. Gan addasu ar gyfer chwyddiant, roedd twf cyflog mewn termau real yn gadarnhaol ar 1.2% a 0.6% ar gyfer cyfanswm cyflog a chyflog rheolaidd yn y drefn honno.

Parhaodd chwyddiant gwympo o'i frig wrth i brif CPI blynyddol ostwng i 6.7% ym mis Gorffennaf 2023 o 6.8% yn y mis blaenorol o ran disgwyliadau am gynnydd yn ôl i 7.0%. Daeth y cwymp mwyaf oherwydd prisiau bwyd yn bennaf. Gwnaeth y gyfradd graidd hefyd siomi'n annisgwyl, gan syrthio i 6.2% o 6.9% o'i gymharu â darogan y byddai ond yn gostwng ychydig i 6.8%.

Parhaodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr dynhau polisi ariannol dros y mwyafrif o'r cyfnod, gan fynd â'r Gyfradd Fanc i 5.25% ym mis Awst. O ran disgwyliadau naid bellach ym mis Medi, pleidleisiodd y Pwyllgor 5-4 er mwyn cynnal Cyfradd Fanc ar 5.25%. Roedd pob un o'r gwrthwynebwyr o blaid cynnydd arall o 0.25%.

Gwnaeth disgwyliadau Cyfradd Fanc y farchnad ariannol gymedroli dros y cyfnod wrth i chwyddiant gostyngol a data gwanhaol fynegi fod cyfraddau llog uwch yn gweithio. Disgynnodd disgwyliadau o ragfynegi brig dros 6% ym Mehefin i 5.5% ychydig cyn cyfarfod Pwyllgor Polisi Ariannol mis Medi, ac yna disgwyl 5.25% fod y brig erbyn diwedd y cyfnod.

Yn dilyn Pwyllgor Polisi Ariannol mis Medi, fe wnaeth Arlingclose, ymgynghorydd trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, adolygu ei ragolwg llog yn rhesymol er mwyn adlewyrchu'r farn ganolog mai 5.25% fydd y brig yn y Gyfradd Fanc. Yn y tymor byr, y risgiau ydy i'r ochr gadarnhaol os ydy chwyddiant yn cynyddu eto.

Ond dros weddill craffu'r gorwel, y risgiau ydy i'r gostyngiad o weithgarwch economaidd yn gwanhau'n fwy na'r disgwyl.

Mae effaith hwyr polisi ariannol ynghyd â morgeisi tymor sefydlog gwasgarog yn aeddfedu dros yn 12-24 mis nesaf yn golygu fod effaith lawn cynnydd yn y Gyfradd Fanc dal i'w deimlo gan gartrefi. Fel y cyfryw, tra parhaodd hyder cwsmeriaid wella dros y cyfnod, gwnaeth y mesur GfK daro -21 ym mis Medi. Mae'n debygol bydd hyn yn gwrthdroi rhyw dro. Bydd cyfraddau uwch hefyd yn effeithio ar fusnes. Yn ôl data arolwg S&P/CIPS, bydd hefyd yn effeithio ar sector gweithgynhyrchu a gwasanaethau'r DU sydd o dan gytundeb yn ystod y chwarter hefo'r holl fesurau'n sgorio o dan 50, gan fynegi cwtogi yn y sectorau.

Gwnaeth Cronfa wrth Gefn Ffederal gynyddu ei chyfradd llog allweddol i 5.25-5.50% dros y cyfnod, gan oedi ym mis Medi yn dilyn cynnydd o 0.25% y mis cyntaf, a dangos efallai nad oedd wedi cwblhau ei gylch tynhau ariannol eto.

Wedi gostwng drwy gydol 2023, dechreuodd chwyddiant blynyddol yr UD godi eto ym mis Gorffennaf 2023, gan godi o 3% ym mis Mehefin, a ddangosodd y lefel isaf ers mis Mawrth 2021, i 3.2% ym mis Gorffennaf. Neidiodd eto i 3.7% ym mis Awst, gan drechu disgwyliadau am gynnydd i 3.6%. Prisiau olew cynyddol oedd prif achos y cynnydd. Gwnaeth twf GDP yr UD a gofrestrwyd yn 2.1% droi'n gyfradd flynyddol yn ail chwarter calendr 2023, i lawr o'r amcangyfrif cychwynnol o 2.4% ond uwchben y twf o 2% a welwyd yn y chwarter cyntaf.

Cynyddodd y Banc Canolog Ewropeaidd ei flaendal allweddol, prif ail-gyllido, a'i gyfraddau llog benthyca ffiniol i 4.00%, 4.50% a 4.75% yn y dref honno ym mis Medi. Awgrymodd y gallai'r lefelau hyn gynrychioli'r brig mewn cyfraddau ond pwysleisiodd hefyd y byddai cyfraddau'n parhau'n uchel mor hir ag sydd angen er mwyn dod â chwyddiant i lawr i'r targed.

Er parhau i ostwng yn araf, mae chwyddiant wedi glynu. Syrthiodd prif CPI blynyddol ardal yr Ewro i 5.2% ym mis Awst wrth i chwyddiant craidd blynyddol leddfu i 5.3% ar aros ar 5.5% yn y ddau fis blaenorol. Mae twf GDP yn parhau'n wan, hefo data diweddar yn dangos fod y rhanbarth wedi tyfu ond 0.1% yn y tri mis hyd at fis Mehefin 2023, yr un gyfradd â'r chwarter blaenorol.

**Marchnadoedd ariannol:** Parhaodd ansicrwydd wrth reoli barn y farchnad ariannol ac arenillion bond. Roedd arenillion bond yn mynd ar i lawr gan fod arwyddion o chwyddiant. Er eu bod dal yn uchel, roeddent yn cymedroli ac roedd cyfraddau llog ar frig.

Gwnaeth arenillion gilt ostwng tuag at ddiwedd y cyfnod. Cododd arenillion gilt meincnod 5 mlynedd y DU o 3.30% i frig ar 4.91 ym mis Gorffennaf cyn gostwng i 4.29%. Cododd yr arenillion gilt 10 mlynedd o 3.43% i 4.75% ym mis Awst cyn gostwng i 4.45%. Cododd yr arenillion gilt 20 mlynedd o 3.75% i 4.97% ym mis Awst a gostwng yn ôl i 4.84%. Roedd y Gyfradd Sterling Dros Nos yn 4.73% ar gyfartaledd dros y cyfnod.

**Adolygiad credyd:** Wedi cwblhau ei adolygiad llawn o'i gyngor credyd ar flaendaliadau anwarantedig mewn banciau yn y DU a rhai sydd ddim yn y DU yn dilyn pryderon am argyfwng ariannol ehangach wedi cwymp Banc Silicon Valley, UBS yn prynu Credit Suisse, ynghyd â phroblemau cyhoeddus iawn yn y sector bancio, fe wnaeth Arlingclose leihau'r uchafswm terfyn hyd a gynghorwyd ar gyfer bob banc ar ei restr gwrthbarti cymeradwy i 35 diwrnod. Parhaodd yr agwedd hon ar ddiwedd y cyfnod.

Yn ystod ail chwarter y cyfnod, gwnaeth Moody's ddiwygio'r rhagolwg ar Svenska Handelsbanken i negyddol o sefydlog, gan gyfeirio at bryderon ynghylch sector eiddo tiriog Sweden.

Wedi rhoi gradd sofran y DU ar Wyliadwriaeth Gradd Negyddol yn gynharach yn y cyfnod, fe wnaeth Fitch weithredu ymhellach ym mis Awst. Fe wnaeth israddio'r radd tymor hir i AA+, yn rhannol ynghylch uchafswm dyled parhaus ond hefyd dirywiad ariannol disgwyliedig dros y blynyddoedd nesaf.

Yn dilyn rhoi hysbysiad Adran 114, fe wnaeth Arlingclose gynghori ym mis Medi peidio benthyca o'r newydd i Gyngor Dinas Birmingham. Yn hwyrach yn y mis, fe wnaeth dorri ei hyd cymeradwy ar Gyngor Bwrdeistref Warrington i uchafswm o 100 diwrnod.

Parhaodd Arlingclose fonitro ac asesu lefelau cyfnewid diofyn credyd am arwyddion o straen credyd. Er na chafwyd newidiadau i hyd cymeradwy dros y cyfnod, ychwanegwyd Northern Trust Corporation i restr y gwrth bartïon.

Mae disgwyl i anwadalwch cynyddol y farchnad barhau, o leiaf yn y tymor agos. Fel erioed, mae'r sefydliadau a'r hyd ar restr gwrth bartïon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a argymhellwyd gan Arlingclose yn parhau o dan adolygiad cyson.

## 3. Cyd-destun Lleol

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddiadau net o £30m yn codi o'i refeniw ac incwm a gwariant cyfalaf. Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), tra mai adnoddau mantolen ydy adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Crynhoir y ffactorau hyn yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen

| | 31.3.23 Presennol £m | Meincnod 2022-23 £m |
|---|---|---|
| GCC Cronfa Gyffredinol | 28.0 | 30.9 |
| Llai: *Dyledion eraill | (7.3) | (7.3) |
| **CFR Benthyca** | **20.7** | **23.6** |
| Llai: Benthyca Allanol | (8.4) | # (6.2) |
| **Benthyca mewnol** | **12.3** | **17.4** |
| Llai: Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy | (51.2) | (27.6) |
| Ychwanegiad: Cyfalaf gweithio | 8.9 | 0.2 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **(30.0)** | **# (10.0)** |

* prydlesi cyllid, rhwymedigaethau PFI a dyled wedi'i throsglwyddo sy'n ffurfio rhan o gyfanswm dyled y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Ffynhonnell: Adroddiad Strategaeth Gyfalaf 2022-23 (tablau amrywiol)

# i gynnal meincnod o isafswm buddsoddiad o £10m

Dangosir sefyllfa rheoli'r trysorlys ar 30 Medi a'r newid dros y chwe mis yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2: Crynodeb Rheoli'r Trysorlys

| | 31.3.23 Balans £m | Symudiad £m | 30.9.23 Balans £m | 30.9.23 Cyfartaledd Pwysedig Cyfradd % | Meincnod 2023-24 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau tymor hir | 8.4 | (0.3) | 8.1 | 1.25 | 7.9 |
| Benthyciadau tymor byr | 0.0 | 0.0 | 0.0 | - | - |
| **Cyfanswm benthyca** | **8.4** | **(0.3)** | **8.1** | **1.25** | **7.9** |
| Buddsoddiadau tymor hir | 0 | 0 | 0 | - | - |
| Buddsoddiadau tymor byr | (24.6) | (23.6) | (48.2) | (4.76) | - |
| Arian parod ac arian parod cyfwerth | (5.4) | 1.1 | (4.3) | (0.42) | - |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **(30.0)** | **(22.5)** | **(52.5)** | **(5.18)** | **# (10.0)** |
| **Buddsoddiadau net** | **(21.6)** | **(22.8)** | **(44.4)** | **(3.93)** | **-** |

# i gynnal meincnod o isafswm buddsoddiad o £10m

## 4. Benthyca

Mae Cod Darbodus 2021 CIPFA yn glir na ddylai awdurdodau lleol fenthyg er mwyn buddsoddi'n bennaf ar gyfer elw ariannol. Nid yw'n ddarbodus i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd wneud unrhyw fuddsoddiad neu benderfyniad ar wario a wnaiff gynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf, ac y gall arwain at fenthyca newydd, oni bai ei fod yn berthnasol yn uniongyrchol neu'n bennaf i swyddogaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Nid ydy benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) bellach ar gael i brynu asedau buddsoddi'n bennaf ar gyfer arenillion oni bai bod y benthyciadau hyn at ddibenion ail-gyllido. Nid ydy'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi buddsoddi mewn asedau yn bennaf am elw ariannol neu nad ydynt yn berthnasol yn bennaf i swyddogaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Nid oes cynlluniau gwneud yn y dyfodol.

## 5. Strategaeth a gweithgarwch benthyca

Fel yr amlinellwyd yn strategaeth y trysorlys, prif nod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fenthyca ydy taro cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd y costau hynny dros y cyfnod y mae angen cronfeydd. Ceir hyblygrwydd er mwyn ail-drafod benthyciadau fel amcan eilradd os ydy cynlluniau tymor hir y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn newid. Mae strategaeth fenthyca'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i ymdrin â'r mater allweddol o fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hirach y portffolio dyled.

Roedd cynnydd sylweddol yng nghost benthyca tymor byr a hir dros y 18 mis diwethaf. Cododd y Gyfradd Fanc 1% o 4.25% ddechrau mis Ebrill i 5.25% ar ddiwedd mis Medi. Roedd y Gyfradd Fanc 2% yn uwch nac ar ddiwedd mis Medi 2022.

Roedd arenillion gilt y DU yn anwadal, yn bennaf yn wynebu pwysau ar i fyny ers dechrau mis Ebrill. Mae hyn yn dilyn arwyddion fod twf yn y DU wedi bod yn fwy gwydn, mae chwyddiant wedi glynu yn fwy na'r disgwyl, ac fe welodd Banc Lloegr gyfraddau uwch cyson drwy 2023/24 yn allweddol i ladd galw domestig. Cododd arenillion gilt, a chyfraddau benthyca PWLB o ganlyniad, ac fe barhaodd ar lefelau uwch yn fras. Ar 30 Medi, roedd cyfraddau sicrwydd PWLB benthyciadau aeddfedrwydd yn 5.26% ar gyfer benthyciadau 10 mlynedd, 5.64% am fenthyciadau 20 mlynedd a 5.43% am fenthyciadau 50 mlynedd. Roedd eu cywerthoedd ar 31 Mawrth 2023 yn 4.33%, 4.70% a 4.41% yn y drefn honno.

Ar 30 Medi roedd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd £8.1m o fenthyciadau, gostyngiad o £0.3m hyd at 31 Mawrth 2023, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf blynyddoedd blaenorol a phresennol. Crynhoir benthyciadau dros ben ar 30 Medi yn Nhabl 3A isod.

Tabl 3: Sefyllfa Fenthyca

| | Balans 31.3.23 £m | Symudiad Net £m | Balans 30.9.23 £m | Cyfartaledd Pwysedig Cyfradd 30.9.23 % | Cyfartaledd Pwysedig Aeddfedrwydd 30.9.23 (blynyddoedd) |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 8.4 | (0.3) | 8.1 | 1.25 | 14.2 |
| **Cyfanswm benthyca** | **8.4** | **(0.3)** | **8.1** | **1.25** | **14.2** |

## 6. Gweithgarwch dyled arall


Er nad ystyrir fel benthyca, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gytundeb tymor hir o dan PFI (Menter Gyllid Breifat). Ar 31 Mawrth 2023 arhosodd cyfanswm dyled oni bai am fenthyca ar £7.3m, gan fynd â chyfanswm dyled i £15.7m. Amcangyfrifir mai cyfanswm y ddyled ar 30 Medi 2023 ydy £14.9m.

## 7. Gweithgarwch Buddsoddiadau'r Trysorlys

Mae Cod Rheoli'r Trysorlys CIPFA bellach yn diffinio buddsoddiadau rheoli'r trysorlys fel buddsoddiadau sy'n codi o lifoedd arian parod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu weithgarwch rheoli risg y trysorlys. Yn y pen draw, maent yn cynrychioli gweddill sydd angen ei fuddsoddi hyd nes bydd angen yr arian parod ar gyfer defnydd busnes.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cadw cronfeydd sylweddol wedi'u buddsoddi, sy'n mynegi incwm a dderbynnir o flaen gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn. Yn ystod yr hanner blwyddyn, roedd balansau buddsoddiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd rhwng £29.9m a £76.2m oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Gweler y sefyllfa fuddsoddi yn graff 1 a thabl 4 isod.

Graff 1: Balans Buddsoddi Dyddiol




Tabl 4: Sefyllfa Buddsoddiadau'r Trysorlys

| | **Balans 31.3.23 £m** | **Net Symudiad £m** | **Balans 30.9.23 £m** | **Elw Incwm 30.9.23 %** | **Dyddiau Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol 30.9.23 (dyddiau)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Banciau a chymdeithasau adeiladu (anwarantedig) | 5.40 | (5.38) | 0.02 | 0.01 | 0.00 |
| Bond yswiriedig | 0.00 | 7.50 | 7.50 | 5.13 | 14.12 |
| Llywodraeth (yn cynnwys awdurdodau lleol) ac endidau eraill y llywodraeth | 24.60 | 23.65 | 48.25 | 5.19 | 39.23 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **30.00** | **25.77** | **55.77** | **5.18** | **35.84** |

Mae Cod CIPFA a chanllaw'r llywodraeth yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, ac ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd orau o elw, neu arenillion. Prif nod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac elw, gan leihau'r risg o dynnu colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas.

Cododd y Gyfradd Fanc 1% o 4.25% ddechrau mis Ebrill i 5.25% ar ddiwedd mis Medi. Cododd cyfraddau arian parod dyddiad byr yn gymesur, hefo cyfraddau 3 mis yn codi i oddeutu 5.25% a chyfraddau 12 mis i bron 6%. Cododd blaendaliadau DMADF hefyd, rhwng 4.8% a 5.4% erbyn diwedd mis Mehefin.

Gwnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddi £7.5m hefyd mewn bond 9 mis hefo Banc Nat West sy'n aeddfedu ym mis Ionawr 2024.

Dangosir cynnydd metrigau risg ac elw yn y darnau o feincnodi buddsoddiadau chwarterol Arlingclose yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5: Meincnodi Buddsoddiadau – buddsoddiadau'r Trysorlys wedi'u rheoli'n fewnol

| | **Sgôr Credyd** | **Gradd Gredyd** | **Dadleniad Achub Croen** | **Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (dyddiau)** | **Cyfradd Elw %** |
|---|---|---|---|---|---|
| 31.03.2023 | 3.91 | AA- | 18% | 59 | 3.64% |
| 30.09.2023 | 3.31 | AA | 0% | 53 | 5.18% |
| **LAs Tebyg** | **4.31** | **AA-** | **59%** | **41** | **4.87%** |
| **Holl LAs** | **4.47** | **AA-** | **59%** | **13** | **4.79%** |

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cyllidebu £1.85m o incwm o'r buddsoddiadau hyn yn 2023/24, ac mae'r amcanestyniad diweddaraf wedi cynyddu i £2.6m. Roedd incwm a dderbyniwyd hyd at 30 Medi yn £0.74m, tra mae £0.26m pellach wedi'i dalu erbyn diwedd mis Hydref.

**Mesur lliniaru statudol**: Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau canlyniad llawn yr ymgynghoriad ar ymestyn y mesur lliniaru statudol ar gyfrifyddu enillion a cholledion cronfeydd buddsoddi wedi'u cronni. Mae'r mesur lliniaru wedi'i ymestyn am ddwy flynedd tan 31 Mawrth 2025, ond nid oes newid arall wedi bod. Mae'n anhysbys os bydd y mesur lliniaru'n cael ei ymestyn tu hwnt i'r dyddiad newydd ond mae sylwebaeth i ganlyniad yr ymgynghoriad yn awgrymu fel arall. Gwnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd drafod goblygiadau'r strategaeth fuddsoddi hefo Arlingclose a pha gamau sydd angen eu cymryd.

## 8. Buddsoddiadau Ddim yn y Trysorlys

Mae diffiniad buddsoddiadau yng Nghod Rheoli'r Trysorlys bellach yn cwmpasu holl asedau ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ynghyd ag asedau anariannol eraill y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ei gadw yn bennaf am elw ariannol. Categoreiddir buddsoddiadau nad ydynt yn bodloni diffiniad buddsoddiadau rheoli'r trysorlys (h.y., rheoli arian parod dros ben) fel un ai at ddibenion gwasanaeth (wedi'u gwneud yn groyw i hyrwyddo amcanion gwasanaeth pellach) a/neu at ddibenion masnachol (wedi'u gwneud yn bennaf am elw ariannol).

Mae Canllawiau Buddsoddi a roddir gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys y diffiniad o fuddsoddi pob ased tebyg a gedwir yn rhannol neu gyfan gwbl am elw ariannol.

Nid oedd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fuddsoddiadau nad oedd yn y trysorlys.

## 9. Cydymffurfiaeth

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn adrodd fod holl weithgarwch rheoli'r trysorlys a ymgymerir yn ystod y chwe mis wedi cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Gwelir cydymffurfiaeth gyda chyfyngiadau buddsoddi penodol yn nhabl 7 isod.

Tabl 7: Terfynau buddsoddiad

| | **H1 Uchafswm 2023/24** | **Presennol 30.9.23** | **Terfyn 2023/24** | **Wedi cydymffurfio?** Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|
| Unrhyw sefydliad unigol, oni bai am Lywodraeth y DU | £7.5m | £7.5m | £7.5m | Do |
| HSBC (bancwyr y Comisiynydd) | £6.9m | £0.0m | £10.0m | Do |

Dangosir cydymffurfiaeth gyda'r terfyn awdurdodedig a ffin weithredol ar gyfer dyled allanol yn nhabl 8 isod.

Tabl 8: Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol

| | **Uchafswm H1 2023/24** | **Presennol 30.9.23** | **Ffin Weithredol 2023/24** | **Terfyn Awdurdodedig 2023/24** | **Wedi cydymffurfio?** Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca | £8.38m | £8.13m | £25.10m | £27.10m | - |
| PFI a Phrydlesoedd Cyllid | £7.27m | £6.76m | #£6.24m | #£6.24m | - |
| **Cyfanswm dyled** | **£15.65m** | **£14.89m** | **£31.34m** | **£33.34m** | Do |

*# yn seiliedig ar y sefyllfa diwedd blwyddyn*

Gan fod y ffin weithrediadol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro blwyddyn, nid yw'n arwyddocaol os torrir y ffin weithrediadol ar brydiau oherwydd amrywiadau mewn llif arian parod. Ni chyfrifir hyn fel methiant cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, nid ydy 'Cyfanswm dyled' uwchben y ffin weithredol ers 1 Ebrill 2023.

**10. Dangosyddion Darbodus Rheoli'r Trysorlys**

Fel sy'n unol â Chod Rheoli'r Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn monitro a mesur dangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys canlynol.


**Meincnod Dyledion:** Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu benthyca presennol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ran meincnod dyledion sydd wedi'i gyfrifo er mwyn dangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod dyledion yn offeryn pwysig er mwyn cynorthwyo sefydlu a ydy'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr tymor hir neu fuddsoddwr tymor hir yn y dyfodol, ac felly siapio ei ganolbwynt strategol a gwneud penderfyniadau. Mae'n dangos amcangyfrif o'r swm cronnus o fenthyca allanol rhaid i'r Cyngor ddal ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol wrth gadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel sylfaenol angenrheidiol er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd.

| | **Presennol 31.3.23** | **Rhagolwg 31.3.24** | **Rhagolwg 31.3.25** | **Rhagolwg 31.3.26** |
|---|---|---|---|---|
| GCC Benthyciadau | £19.8m | £20.8m | £22.1m | £32.2m |
| Llai: Adnoddau mantolen | (£41.4m) | (£49.7m) | (£38.7m) | (£31.3m) |
| **Gofyniad benthyciadau net** | (£21.6m) | (£28.9m) | (£16.6m) | £0.9m |
| Ychwanegiad: Lwfans hylifedd | £10.0m | £10.0m | £10.0m | £10.0m |
| **Meincnod rhwymedigaeth** | **(£11.6m)** | **(£18.9m)** | **(£6.6m)** | **£10.9m** |
| **Benthyca presennol** | **£8.4m** | **£7.9m** | **£7.4m** | **£6.9m** |

Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyca presennol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Yn dilyn o'r rhagolygon tymor canolig yn y tabl uchod, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn bwriadu parhau wedi'i fenthyg yn unol â'i rhagolwg llif arian parod er mwyn lleihau risg. Mae'r rhagolwg llif arian parod yn adlewyrchu'r lefelau i fyny ac i lawr dros y flwyddyn ariannol lle mae'r meincnod dyledion yn adlewyrchu pwynt penodol mewn amser. Mae'r ddau angen eu hystyried wrth benderfynu benthyca. Mae'r rhagolwg uchod yn awgrymu nad ydy'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn disgwyl benthyca yn 2023/24 ond efallai bydd angen ystyried benthyca (o bosib yn y tymor byr) yn 2025-26.

## Liability Benchmark




**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyca:** Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod er mwyn rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg ail-ariannu. Roedd terfynau uchaf ac isaf ar y strwythur aeddfedrwydd benthyca yn:

| | Terfyn uchaf | Terfyn isaf | Presennol 30.9.23 | Wedi cydymffurfio? |
|---|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 100% | 0% | 5.14% | Do |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 100% | 0% | 10.87% | Do |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 100% | 0% | 36.69% | Do |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 100% | 0% | 24.62% | Do |
| 10 mlynedd a mwy | 100% | 0% | 22.67% | Do |

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf bob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedrwydd benthyca yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

**Buddsoddiadau Rheoli'r Trysorlys Tymor Hir:** Diben y dangosydd hwn yw rheoli amlygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i risg colledion drwy geisio ad-dalu ei fuddsoddiadau'n gynnar. Y terfynau darbodus ar derfynau rheoli'r trysorlys yn y tymor hir ydy:

| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Dim dyddiad penodol |
|---|---|---|---|---|
| Terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £5m | £3m | £1m | £0m |
| Prif swm presennol a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £0m | £0m | £0m | £0m |
| Wedi cydymffurfio? | Do | Do | Do | Do |

Mae enghreifftiau o fuddsoddiadau tymor hir heb ddyddiau aeddfedrwydd sefydlog yn cynnwys cronfeydd strategol, ymddiriedolaeth buddsoddi eiddo tiriog ac ecwiti a gedwir yn uniongyrchol. Ond maent yn eithrio cronfeydd y farchnad arian a chyfrifon banc heb ddyddiad aeddfedrwydd sefydlog. Ystyrir y rhain yn dymor byr.

**<u>Dangosyddion ychwanegol</u>**

**<u>Diogelwch</u>:** Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro'r radd gredyd gyfartalog o'i bortffolio buddsoddiadau.

| | **Targed 2023/24** | **Presennol 30.9.23** | **Wedi cydymffurfio?** |
|---|---|---|---|
| Gradd credyd cyfartalog portffolio | A- | AA | Do |

**<u>Hylifedd</u>:** Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro maint yr arian parod sydd ar gael er mwyn bodloni taliadau annisgwyl o fewn cyfnod o ddeuddeg mis treiglol. Gosodwyd cyfyngiad gweithredol is o £7.5 miliwn am uchafswm o 14 diwrnod at ddibenion ymarferol er mwyn osgoi benthyca tymor byr diangen.

| | **Targed 2023/24** | **Presennol 30.9.23** | **Wedi cydymffurfio?** |
|---|---|---|---|
| Lleiafswm arian parod sydd ar gael o fewn 12 mis | £10m | £55.8m | Do |
| Terfyn is am uchafswm o 14 diwrnod | £7.5m | - | Do |

**Cydbwyllgor Archwilio**

**Dyddiad y Cyfarfod: 7 Rhagfyr 2023**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Bwrdd Cyd Lywodraethu |
| **Awdur:** | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| **Diben yr adroddiad:** | Diweddariad |
| **Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer:**<br>**(ticiwch un)** | ☐ Penderfyniad<br>☐ Trafodaeth<br>☐ Sicrwydd<br>☐ X Gwybodaeth |
| **Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:** | • Daeth cadeirydd ac aelod o'r CA i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2023.<br>• Cymeradwyodd y bwrdd y canlynol:<br>o Diweddaru Cylch Gorchwyl y CA er mwyn egluro geiriad y risg<br>o Mae gwerthusiad o'r CA i'w gynnwys yn sesiwn gaeedig cyfarfodydd y CA |
| **Argymhellion:** | • Bod aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.<br><br>• Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais. |
| **Effaith cofrestr risgiau:** | Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu. |
| **Goblygiadau sicrwydd:** | Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwylio newidiadau i drefniadau sicrwydd yn dilyn yr Adolygiad Llywodraethu a ymgymerwyd yn 2019/20. Bydd y trefniadau hyn yn newid oherwydd yr adolygiad i ddod.<br><br>Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwylio unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r Llawlyfr Llywodraethu. |
| **Effaith Cydraddoldeb:** | Dim |
| **Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:** | Dim |

**CYDBWYLLGOR ARCHWILIO**

**7 Rhagfyr 2023**

**Bwrdd Cyd Lywodraethu**

**Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid**

## 1. Cefndir

**1.1.** Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae rhaglen waith wedi'i pharatoi er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni ei hamcanion i gofnodi trefniadau llywodraethu, a goruchwylio a chynghori ar newidiadau i'r trefniadau hynny.

**1.2.** Estynnir gwahoddiad parhaol i aelodau o’r Cydbwyllgor Archwilio i'r cyfarfod. Mynychodd cadeirydd ac un aelod ychwanegol o'r cydbwyllgor ar 15 Tachwedd 2023 a chyfrannu i'r cyfarfod.

## 2. Argymhellion

**2.1.** Bod aelodau’r Cydbwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.

**2.2.** Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais. Cynhelir cyfarfodydd ar-lein drwy Microsoft Teams a dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol ydy:

- Dydd Iau 29 Chwefror 2024
- Dydd Iau 18 Mehefin 2024
- Dydd Mercher 4 Medi 2024
- Dydd Mawrth 29 Hydref 2024

## 3. Gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu

**3.1.** Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2023, trafodwyd y canlynol:

3.1.1. Archwilio Mewnol

Roedd sawl archwiliad drafft wedi cwblhau hyd nes y derbynnir adroddiadau drafft. Aseswyd y rhain i gyd fel sicrwydd sylweddol.

Nodwyd bod rhai gweithrediadau wedi eu hystyried "ddim bellach yn briodol" oherwydd ffactorau allanol. Felly, ni fyddai'r rhain yn symud ymlaen bellach. Mae hyn yn unol hefo heddluoedd eraill.

3.1.2 Adolygiad Llywodraethu

Derbyniodd y Bwrdd wybodaeth o ran cynnydd a wnaed hefo adolygiad llywodraethu 2023.

Mae cynnydd da wedi'i wneud, hefo sawl argymhelliad yn cael ei gwblhau. Mae strwythurau llywodraethu wedi'u neilltuo i'r cynllun strategol. Mae cylch gorchwyl ar gyfer cyfarfodydd amrywiol wedi'u hadolygu.

Mae'r cynllun dirprwyo wedi cael ei ailddrafftio er mwyn cynnwys matrics gwneud penderfyniadau, a fydd yn cael ei gynnwys yng nghylch gorchwyl cyfarfodydd. Bydd hyn yn lleihau dyblygu ymdrech, wrth gadw llywodraethu ac atebolrwydd.

Mae gwaith dal ar y gweill er mwyn adolygu cylch gorchwyl cyflawni colofnau.

3.1.3 Diweddariad Sicrwydd

Trefnir cyfarfod hefo'r bwriad o greu grŵp polisi Cymru gyfan, er mwyn trafod arferion da. Gellir trafod themâu cyffredin a materion.

Gohiriwyd adolygiad cymheiriaid gan Heddlu De Cymru oherwydd eu diffyg argaeledd.

Ymgymerodd TIAA ag archwiliad ac archwiliad risg, a dderbyniodd radd sylweddol.

Hysbyswyd y Bwrdd am ymarfer parhad busnes diweddar, a amlygodd effaith posibl toriadau pŵer a reolir.

3.1.4 ARGYMHELLION ODDI WRTH Y CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

Bu trafodaeth ynghylch geiriad Cylch Gorchwyl y CA sef "mae risgiau gweithredol unigol yr heddlu'n cael eu heithrio'n benodol o gylch gorchwyl y CA."

Derbyniwyd bod angen eglurhad pellach, gan fod gwahaniaeth rhwng y risgiau corfforaethol a drafodwyd yn y CA, a'r risgiau gweithredol bob dydd mae swyddogion yn eu hwynebu na fyddai fyth yn dod o dan gylch gorchwyl y CA.

Yn dilyn y cyfarfod, mae'r ddogfen wedi'i diweddaru. Bydd y PSC yn trefnu cadarnhau'r Cylch Gorchwyl diwygiedig gan y CHTh a'r Prif Gwnstabl.

3.1.5 Cyfrifon 2022/23

Rhannodd y Pennaeth Cyllid ddrafftiau diweddaraf yr adroddiad naratif a'r datganiad llywodraethu blynyddol. Nodwyd y byddai angen gweithredu diwygiadau pellach cyn y cyflwynir y fersiwn olaf i'r Cydbwyllgor Archwilio ar 7 Rhagfyr.

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid sicrwydd y byddai'r cyfrifon yn barod i'w llofnodi yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod y CA ar 7 Rhagfyr, ac y byddai'r dogfennau terfynol yn cael eu rhannu hefo'r CA cyn gynted â phosibl.

3.1.6 Gwerthusiad y CA

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau'r gweithrediadau agored o ran cynllun gwerthuso'r CA a rhoddodd ddiweddariadau priodol.

Nodwyd bod y mwyafrif o'r cynllun gweithredu yn gyfrifoldeb i'r heddlu. Cytunwyd fod cynnydd yn bwydo i sesiwn gaeedig y CA yn rheolaidd.

3.2 Bydd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio'n gallu cael mynediad at bapurau, gan gynnwys cofnodion a gweithrediadau o'r cyfarfod diweddaraf, drwy'r gyriant G. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 29 Chwefror 2024.

## 4. GOBLYGIADAU

| | | |
|---|---|---|
| 4.1 | Cydraddoldeb | Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu gan dalu sylw i'r egwyddorion a sefydlwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd. |
| 4.2 | Ariannol | Mae'r ffordd y rheolir cyllid yn rhan annatod o lywodraethu da. Ystyrir polisïau ariannol a monitro systemau ariannol a chyflawniad o fewn y Fframwaith Llywodraethu. |
| 4.3 | Cyfreithiol | Mae'n ofyniad cyfreithiol cyhoeddi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ochr yn ochr â'r Datganiadau Cyfrifon bob blwyddyn. Un o ddibenion y Bwrdd Cyd Lywodraethu yw cofnodi gweithgareddau llywodraethu corfforaethau undyn (a sicrhau y caiff unrhyw bryderon sylw) fel bod y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn cael eu paratoi'n gywir ac yn amserol. |
| 4.4 | Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol | Caiff polisïau amgylcheddol, canlyniadau ac ymgysylltiad (a monitro'r rhain) eu hystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |

| | | |
|---|---|---|
| 4.5 | Risg | Mae’r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu. |
| 4.6 | Cynllun Heddlu a Throsedd | Mae’r amcanion yn y Cynllun Heddlu a Throsedd yn sylfaenol bwysig i’r ddwy gorfforaeth undyn. Ystyrir y ffordd y caiff hyn ei fonitro o fewn y Fframwaith Llywodraethu. |

**Awdur yr Adroddiad**
Kate Jackson
Prif Swyddog Cyllid
Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

HEDDLU GOGLEDD C
Gogledd Cymru diogelac

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

**Cydbwyllgor Archwilio**

**Dyddiad y Cyfarfod: 7 Rhagfyr 2023**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Adroddiad Cyfreithiol |
| **Awdur:** | Philip Kenyon, Cyfreithiwr yr Heddlu |
| **Diben yr adroddiad:** | Rhoi gwybodaeth ar gyfreithio sy'n cynnwys Prif Gwnstabl Gogledd Cymru |
| **Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer:** **(ticiwch un)** | ☐ Penderfyniad<br>☐ Trafodaeth<br>_/ Sicrwydd<br>☐ Gwybodaeth |
| **Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:** (gan gynnwys crynodeb o'r Broses Lywodraethu yn dilyn) | Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion hawliadau sifil a dderbyniwyd ac a ddatryswyd yn y cyfnod 1 Ebrill – 30 Medi 2023 ynghyd â chytundebau a thrafodion trawsgludo a gwblhawyd yn ystod yr un cyfnod. Nid oes patrymau hir sylweddol wedi'u canfod.<br><br>Mae'r data hwn hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol Strategol. |
| **Argymhellion:** | Nodir yr adroddiad. |
| **Effaith cofrestr risgiau:** | Dim newid |
| **Goblygiadau sicrwydd:** | Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd digonol |
| **Effaith Cydraddoldeb:** | Amherthnasol |
| **Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:** | Cynhwysir gwybodaeth wedi'i eithrio o fewn adroddiad ar gyfer y sesiwn gaeedig. |

Dyddiad: 7 Rhagfyr 2023

# Hawliadau Sifil ac achosion Cyflogaeth ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill – 30 Medi 2023

Mae Cyfreithiwr Cynorthwyol yr Heddlu yn rheoli, trin a goruchwylio'r holl hawliadau sifil Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwyr a gyflwynwyd yn erbyn Heddlu Gogledd Cymru.

## 1. CYFLWYNIAD

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi

1) manylion am nifer yr hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwyr a wnaed yn erbyn yr Heddlu ym mhob blwyddyn ariannol.

2) barn am unrhyw batrymau sy'n dod i'r amlwg.

3) manylion yr arian a dalwyd mewn setliad ym mhob blwyddyn ariannol.

**CEFNDIR**

Mae'r Rheolau Gweithdrefn Sifil (CPR) yn berthnasol wrth gynnal achosion sifil yng Nghymru a Lloegr. O dan y Protocol Cyn Gweithredu a nodir yn y Rheolau, mae'n ofynnol i unrhyw ddarpar hawliwr gyflwyno llythyr hawlio ar Heddlu Gogledd Cymru fel ymatebydd sy'n nodi ei hawliad yn llawn. Yn unol â hynny, mae'r holl hawliadau a dderbynnir gan Heddlu Gogledd Cymru fel arfer yn cynnwys llythyr o hawliad yn honni niwed ac yn gofyn am iawndal. Mae'n brin ac yn torri rheolau gweithdrefnol i weithdrefnau gael eu cyhoeddi y tu allan i reolau'r protocol cyn gweithredu.

**<u>Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr</u>**

Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr yw'r rhai a dderbynnir gan weithwyr yr Heddlu (swyddogion a staff) ac maent yn cynnwys hawliadau Anafiadau Personol sy'n deillio o golled neu anaf a gafwyd yn ystod dyletswydd neu gyflogaeth.

**Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus**
Hawliadau a gyflwynir gan y cyhoedd yw hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus. Gall hawliadau o'r fath gynnwys honiadau o arestio anghyfreithlon, carchariad ffug, defnydd anghyfreithlon o rym, difrod i eiddo ac erlyniad maleisus.

**Hawliadau Cerbydau**
Ymdrinnir â hawliadau damweiniau cerbydau gan ein hyswirwyr a'r Adran Fflyd. Caiff unrhyw faterion wedi eu hymgyfreithio eu goruchwylio gan Gyfreithiwr yr Heddlu o 1 Mawrth 2013. Adran y Fflyd sy'n cadw data a gedwir mewn perthynas â hawliadau o'r fath.

**Cadernid yr Adran Gyfreithiol**

**Atebolrwydd Cyflogwyr**
Mae ein Hyswirwyr yn ymdrin â hawliadau o'r fath sy'n cael eu goruchwylio gan Gyfreithiwr yr Heddlu. Mae rhai hawliadau yn cael eu contractio allan os byddant yn cael eu hymgyfreithio neu'n cynnwys mewnbwn arbenigol. Cytunwyd ar hyn gan ein hyswirwyr.

**Atebolrwydd Cyhoeddus**
Ymdrinnir â phob hawliad a'i reoli gan Gyfreithiwr yr Heddlu. Mae lleiafrif o'r hawliadau hyn yn cael eu contractio allan os byddant yn cael eu hymgyfreithio neu'n cynnwys mewnbwn arbenigol. Goruchwylir pob un gan Gyfreithiwr yr Heddlu.

Ers 1 Ebrill 2023 mae gan Heddlu Gogledd Cymru yswirwyr newydd sydd wedi cytuno y gall hawliadau sifil barhau gael eu trin yn fewnol. Ond gellir eu hallanoli pan mae hawliadau wedi'u lliniaru neu oherwydd y cynnydd sylweddol yn y nifer o hawliadau a dderbyniwyd.

# MANYLION

Rhwng 1 Ebrill – 30 Medi 2023, derbyniwyd 34 llythyr hawlio yn yr Adran Gyfreithiol ac roedd 6 yn hawliadau atebolrwydd cyflogwyr ac roedd 28 yn hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus.

Mae'r tabl isod, lle mae wedi'i farcio'n goch, yn dangos cyfanswm nifer yr hawliadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill – 30 Medi 2023. Nid ydy trafodion wedi'u rhoi o ran unrhyw un o'r hawliadau a dderbyniwyd yn ystod y 6 mis diwethaf.

## (TABL 1) – CYFANSWM NIFER O HAWLIADAU A DDERBYNIWYD

| Blwyddyn | Atebolrwydd Cyflogwyr | Atebolrwydd Cyhoeddus | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **2018/2019** | 5 | 49 | 54 |
| **2019/2020** | 7 | 41 | 48 |
| **2020/2021** | 6 | 43 | 49 |
| **2021/2022** | 2 | 45 | 47 |
| **2022/2023** | 4 | 62 | 66 |
| **2023/2024** | 6 | 28 | 34 |

**Manylion yr hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a dderbyniwyd yn ystod cyfnod 1 Ebrill – 30 Medi 2023, yn dilyn cwyn.**

| Hawliadau a dderbyniwyd yn dilyn cwyn | Canlyniadau'r gŵyn | Canlyniadau Hawliad Sifil |
| --- | --- | --- |
| 4 | 2 hawliad wedi'u cadarnhau'n rhannol.<br><br>2 hawliad heb eu cadarnhau. | Mae 3 hawliad yn dal i gael eu hymchwilio.<br><br>Mae 1 hawliad yn cael ei drafod o ran setliad. |

## (TABL 2) – CYFANSWM NIFER YR HAWLIADAU BYW

Ar hyn o bryd mae 78 o hawliadau byw parhaus yn cael eu hymdrin yn yr Adran Gyfreithiol. Rhaid nodi y gall fod digwyddiadau wedi bod mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr hawliadau 'gweithredol' a osodwyd yn erbyn blwyddyn wirioneddol y digwyddiad. (Hawliad sy'n parhau'n fyw yw hawliad gweithredol ac nad yw wedi'i benderfynu eto).

| Blwyddyn y Digwyddiad | Atebolrwydd Cyflogwyr | Atebolrwydd Cyhoeddus |
|---|---|---|
| 2013/2014 | 1 | 1 |
| 2014/2015 | 1 | 0 |
| 2015/2016 | 0 | 1 |
| 2016/2017 | 0 | 0 |
| 2017/2018 | 0 | 1 |
| 2018/2019 | 1 | 3 |
| 2019/2020 | 1 | 6 |
| 2020/2021 | 2 | 6 |
| 2021/2022 | 2 | 14 |
| 2022/2023 | 2 | 26 |
| 2023/2024 | 1 | 7 |
| **CYFANSWM** | **11** | **65** |
| **CYFANSWM NIFER Y CYFLOGWYR BYW A HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS:** | | **76** |

**Y SEFYLLFA BRESENNOL O RAN HAWLIADAU SIFIL BYW**

| | Atebolrwydd Cyflogwyr | Atebolrwydd Cyhoeddus |
|---|---|---|
| **Trafodion a gyhoeddwyd** | 3 | 10 |
| **Hawliadau wedi'u gwrthbrofi'n llwyddiannus ond heb eu cau eto** | 2 | 15 |
| **Hawliadau heb eu datrys eto** | 7 | 34 |
| **Hawliadau'n dal i gael eu hymchwilio/cwynion yn parhau** | 2 | 17 |

## (TABL 3) – HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYFLOGWYR

Mae'r tabl isod yn dangos y categorïau o hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr a dderbyniwyd yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

| Math o Hawliad a Dderbyniwyd | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llithriadau/Bagladau/Syrthiadau | 2 | 5 | 3 | 1 | 2 | 3 |
| Straen/Bwlio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| RSI | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Colli clyw | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Anaf ar gwrs hyfforddi | 3 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Arall | 0 | 2 | 2 | 1 | 1 | 0 |
| Anafiadau i fysedd/dwylo | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5** | **7** | **6** | **2** | **4** | **6** |


**Sylwadau**
Y math mwyaf cyffredin o hawliadau a dderbyniwyd yn ystod y blynyddoedd uchod oedd achosion o lithro, baglu a disgyn.


## (TABL 4) – HAWLIADAU ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS

Mae'r tabl isod yn dangos y categorïau o niwed a hawliwyd amlaf mewn hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a dderbyniwyd yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Efallai y bydd un neu fwy o gategorïau difrod mewn un hawliad felly nid yw'r ffigurau'n cynrychioli nifer yr hawliadau a dderbynnir fel yn Nhabl 1 (blaenorol).

| Math o Hawliad a Dderbyniwyd | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymosod a churo | 4 | 3 | 9 | 15 | 30 | 19 |
| Colled o ganlyniad | 0 | 2 | 0 | 5 | 0 | 0 |
| Carcharu ar gam | 14 | 11 | 12 | 20 | 32 | 17 |
| Erlyniad Maleisus | 0 | 1 | 3 | 4 | 3 | 1 |
| Esgeulustod | 6 | 11 | 4 | 6 | 8 | 5 |
| Arall | 13 | 12 | 21 | 26 | 29 | 18 |
| Difrod/atafaeliad Eiddo | 24 | 18 | 14 | 7 | 5 | 2 |
| Tresmasu Unigolyn | 2 | 2 | 4 | 10 | 16 | 7 |
| Tresmasu Eiddo | 4 | 2 | 6 | 1 | 14 | 6 |
| Arestiad Anghyfreithlon | 2 | 6 | 6 | 14 | 16 | 10 |
| **Cyfanswm** | **69** | **68** | **79** | **108** | **153** | **85** |

**Iawndal a roddwyd i hawlwyr rhwng 1 Ebrill - 30 Medi 2023**



**Costau a dalwyd i Gyfreithwyr Hawlwyr mewn perthynas â hawliadau sefydlog rhwng 1 Ebrill – 30 Medi 2023**

| Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr | Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus |
|---|---|
| £0.00 | £25,900.00 |

**Costau cyfreithiol Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â hawliadau sifil sefydlog a gwblhawyd rhwng 1 Ebrill – 30 Medi 2023**

| Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr | Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus |
|---|---|
| £0.00 | £500.00 |

**Taliadau CRU a GIG**

| Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr | Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus |
|---|---|
| £0.00 | £0.00 |

**Dadansoddiad o hawliadau a setlwyd rhwng 1 Ebrill – 30 Medi 2023**

| Categori | Hawliad | Nifer hawliadau a setlwyd |
|---|---|---|
| Atebolrwydd Cyflogwyr | Anaf personol | 0 |

| Categori | Hawliad | Nifer hawliadau a setlwyd |
|---|---|---|
| Atebolrwydd Cyhoeddus | Carcharu ar gam | 3 |
| Atebolrwydd Cyhoeddus | Torri’r Ddeddf Diogelu Data | 1 |
| Atebolrwydd Cyhoeddus | Torri'r Ddeddf Hawliau Dynol | 1 |
| Atebolrwydd Cyhoeddus | Colli/difrodi eiddo | 3 |

## CYFANSWM NIFER YR HAWLIADAU SIFIL A GAEWYD

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am nifer yr hawliadau sydd wedi'u 'cau' ers 2018. Mae'r tabl yn rhoi manylion hawliadau a setlwyd a lle na thalwyd setliad ynghyd â'r cyfanswm am bob blwyddyn.

| 1 Ebrill – 31 Mawrth | Hawliadau wedi eu cytuno arnynt | Ni thalwyd unrhyw setliadau | Cyfanswm ar gau |
|---|---|---|---|
| 2018/2019 | 15 | 53 | 68 |
| 2019/2020 | 16 | 39 | 55 |
| 2020/2021 | 20 | 38 | 58 |
| 2021/2022 | 12 | 38 | 50 |
| 2022/2023 | 10 | 31 | 41 |
| 2023/2024 | 8 | 22 | 30 |

Fel y gwelwch, mae nifer yr hawliadau sy'n cael eu "gwrthbrofi" lle nad oes arian wedi'i dalu fel arfer yn fwy na'r rhai lle mae arian wedi'i dalu. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu safbwynt cadarn yr Adran Gyfreithiol mewn perthynas ag amddiffyn hawliadau sifil yn gyffredinol.

**Nifer yr Hawliadau Sifil ar gontract allanol**

**Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr**

| Blwyddyn | Nifer yr Hawliadau a Dderbyniwyd | Nifer yr Hawliadau sydd wedi'u Contractio Allan |
|---|---|---|
| 2018/2019 | 5 | 0 |
| 2019/2020 | 7 | 0 |
| 2020/2021 | 6 | 1 |
| 2021/2022 | 2 | 0 |
| 2022/2023 | 4 | 0 |
| 2023/2024 | 6 | 4 |

**Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus**

| Blwyddyn | Nifer yr Hawliadau a Dderbyniwyd | Nifer yr Hawliadau sydd wedi'u Contractio Allan |
|---|---|---|
| 2018/2019 | 49 | 1 |
| 2019/2020 | 41 | 1 |
| 2020/2021 | 43 | 1 |
| 2021/2022 | 44 | 4 |
| 2022/2023 | 62 | 1 |
| 2023/2024 | 28 | 0 |

**Materion Cyflogaeth**

**Manylion Hawliadau Cyflogaeth Fyw**

| Derbyniwyd | Manylion Hawliadau Byw |
|---|---|
| 2020/2021 | 1 x Hil, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol – parhaus. |
| 2021/2022 | 1 x Hil, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol – parhaus. |
| 2023/2024 | 4 x Gwahaniaethu ar sail anabledd – parhaus. |
| 2023/2024 | 1 x Diswyddo Annheg – parhaus. |
| 2023/2023 | 1 x Gwahaniaethu Rhyw a diswyddo annheg – parhaus. |

**Materion cytundebol a chynigion ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill – 30 Medi 2023**

**EITEMAU ER GWYBODAETH**

1. **SELIO DOGFENNAU**

**Mae'r dogfennau canlynol wedi cael eu selio ers y rhai hynny a adroddwyd yn yr adroddiad diwethaf dyddiedig Mehefin 2023**

| Rhif Sêl | Natur y Ddogfen |
|---|---|
| 313,314 | Trwydded gosod CCC ddwywaith yng Ngorsaf Heddlu'r Bermo rhwng (1) CHTh ar gyfer Gogledd Cymru a (2) Cyngor Tref y Bermo |
| 315,316 | Gweithred Newyddiad Cytundeb rhwng (1) CHTh Gogledd Cymru (2) Partneriaeth Dyffryn Tafwys (3) Gwasanaeth Digidol yr Heddlu o ran cyflenwi darnau llaw ac apiau i bobl fregus |
| 317,318, 319 | Gosod swyddfeydd yn Glasdir, Llanrwst rhwng (1) Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy a (2) CHTh Gogledd Cymru (a 2 gynllun) |
| 320,321, 322 | Gosod swyddfeydd yng Nglyn Wylfa, y Waun (1) Glyn Wylfa Limited a (2) CHTh Gogledd Cymru (a 2 gynllun) |
| 323,324 | Trwydded meddiannu canolfan wybodaeth yng Ngorsaf Bws Wrecsam rhwng (1) Cyngor Bwrdeistref Sir Wrecsam a (2) CHTh Gogledd Cymru (a chynllun) |
| 325,326, 327 | Trwydded isosod rhwng tri sef (1) Cyngor Bwrdeistref Sir Wrecsam (2) Glyn Wylfa Ltd a (3) CHTh Gogledd Cymru |

328,329 Isbrydles a Chynllun parth Canolfan Reoli ar y Cyd, Crud y Dderwen, Llanelwy rhwng (1) CHTh Gogledd Cymru ac (2) Awdurdod Tân Gogledd Cymru

## 2. TRAFODION EIDDO

1 Trwydded gosod CCC yng Ngorsaf Heddlu'r Bermo wedi ei gwblhau ar 20 Mawrth 2023

2 Prydles yng Nglasdir, Llanrwst wedi'i chwblhau ar 30 Mai 2023 rhwng (1) Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy a (2) CHTh Gogledd Cymru (Gorsaf Heddlu Llanrwst)

3 Trwydded i feddiannu'r ganolfan wybodaeth yng Ngorsaf Fysiau Wrecsam a weithredwyd ar 13 Mehefin 2023 rhwng (1) Cyngor Bwrdeistref Sir Wrecsam a (2) CHTh Gogledd Cymru (Canolfan Ymgysylltu Ieuenctid)

4 4 Isosod eiddo yng Nglyn Wylfa, y Waun wedi cwblhau ar 20 Mehefin 2023 rhwng (1) Glyn Wylfa Ltd a (2) CHTh Gogledd Cymru (Gorsaf Heddlu'r Waun)

5 Isosod Canolfan Reoli ar y Cyd Llanelwy, (1) CHTh Gogledd Cymru (2) Awdurdod Tân Gogledd Cymru 20 Medi 2023

## 3. DOGFENNAU TENDRO

**Mae'r Tendrau canlynol gyda gwerth dros £10,000 y mae gan y CHTh neu Prif Gwnstabl HGC ddiddordeb ynddynt fel a ganlyn:**

| Rhif | Pwnc |
|---|---|
| 202 | Cynnal a Chadw a Chyflenwi Diffoddwyr Tân |
| 203 | Gwasanaeth Prydlesu a Rheoli Peiriant Gwerthu |

204 Cynnal a chadw arfaethedig giatiau a rhwystrau awtomatig

205 Prosiectau adeiladu rhwng £50,000 i £300,000

206 Arfau Corff Patrôl Cyffredinol

207 Arolwg Defnyddwyr Cyhoeddus a Bodlonrwydd Dioddefwyr

208 Lifft newydd a'i osod yng Ngorsaf Heddlu Caernarfon

209 Meddyg Iechyd Galwedigaethol, Ymgynghorydd Iechyd, Technegydd Iechyd a Chymorth Meddygol SMP/IRMP

210 Offer Recordio Cyfweliadau Digidol

211 Cynnal a Chadw, Cyflenwi ac Ymateb i Atgyweirio CCC

212 Cynnal a chadw, cyflenwi ac ymateb i atgyweirio gwasanaeth cywasgwr aer

## 4. CYTUNDEBAU Dros £10,000

Mae'r cytundebau canlynol gyda gwerth dros £10,000 y mae gan y CHTh neu Brif Gwnstabl HGC ddiddordeb ynddynt fel a ganlyn:

| Rhif | Dyddiad | Pwnc |
|---|---|---|
| 1011 | 23/03/2023 | Torri cytundeb ar gyfer darparu cynnal a chadw larwm mynediad |
| 1012 | 31/03/2023 | Torri cytundeb ar gyfer olrhain gwasanaethau meddalwedd |
| 1013 | 30/03/2023 | Cytundeb ar gyfer darparu system antena cerbyd heddlu |
| 1014 | 5/04/2023 | Torri cytundeb ar gyfer system meddalwedd rheoli mynediad |
| 1015 | 19/04/2023 | Cytundeb ar gyfer inswleiddio llofft yn Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| 1016 | 31/03/2023 | Gwasanaethau Gweithle a Reolir gan TGCh |
| 1017 | 02/05/2023 | Cytundeb Cynhyrchu Fideo Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |
| 1018 | 04/05/2023 | Cytundeb ar gyfer cyflenwi System Pigynnau |
| 1019 | 11/05/2023 | Cytundeb Gwasanaethau Cynhyrchu parth Stori Olivia |
| 773 | 15/05/2023 | Cytundeb ar System Reoli'r Trysorlys |
| 1020 | 25/05/2023 | Cytundeb Trwydded Evofit |
| 1021 | 24/04/2023 | Cytundeb Mân Waith JCT |
| 1022 | 15/05/2023 | Gwaith Adfer Achrededig SARC ISO – Cytundeb gwaith JCT |
| 1023 | 31/03/2023 | Gwasanaethau Cyfathrebu Menter TGCh |
| 1024 | 31/03/2023 | Gwasanaethau System Menter TGCh |
| 1025 | 05/06/2023 | Cytundeb ar gyfer gwasanaethau peirannau gwerthu yn Adeiladau Heddlu Gogledd Cymru |
| 1026 | 06/06/2023 | Diddymu cytundeb ar gyfer darparu hetiau a dillad ychwanegol |
| 1027 | 01/06/2023 | Cytundeb er mwyn cyflenwi, cludo, archwilio a chynnal a chadw diffoddwyr tân |
| 1028 | 04/05/2023 | Cytundeb ar gyfer TG mapio daearyddol (GIS) |
| 1029 | 13/06/2023 | Cytundeb ar gyfer gwasanaethau trosi cerbydau |
| 1030 | 03/07/2023 | Cytundeb ar gyfer darparu cynnal a chadw ac atgyweirio giatiau awtomatig |
| 873 | 13/12/2021 | Cytundeb ar gyfer darparu gwasanaethau cwnsela |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 1032 | 28/07/2023<br>10/08/2023 | Cytundeb gwaith adeiladu yn adeiladau Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| 1033 | 23/08/2023 | Cytundeb ar gyfer adfer colled heb ei yswirio |
| 872 | 21/07/2023 | Cytundeb ar gyfer gwasanaethau gwerthu |
| 1035 | 01/08/2023 | G Cloud yn diddymu cytundeb am system rheoli achosion o ansawdd electronig ar gyfer FCIN |
| 1036 | 01/09/2023 | Cytundeb gwasanaethau strategaeth ymateb dyletswydd trais difrifol |
| 1037 | 26/09/2023 | Cytundeb ar gyfer cyflenwi a chyflawni arolwg dioddefwyr a boddhad y cyhoedd dwyieithog |
| 1038 | 24/09/2023 | Cytundeb ar gyfer cyflenwi a gosod lifft yng Ngorsaf Heddlu Caernarfon |

**5. CYTUNDEBAU O dan £10,000**

DIM

## 6. TENDRAU AR Y GWEILL

**Mae'r caffaeliadau canlynol ar y gweill a chyda gwerth dros £20,000 y mae gan y CHTh neu'r Prif Gwnstabl ddiddordeb ynddynt:**

| Teitl y Prosiect | Statws Gorchwyl | Gorchwyl |
|---|---|---|
| System Rheoli Fflyd (newydd) | Drafftio Cytundeb | Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith |
| Fframwaith Tetra ASP | Drafftio Cytundeb | Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith |
| Dyfarniad G Cloud System EQMS FCIN | Ar y gweill | Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith |
| Gwasanaethau Cyllid a Data Personol | Ar y gweill | Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith |
| Gwaredu cerbydau/peiriannau brys diwedd oes | Ar y gweill | Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith |
| AD – Cymorth Offer | Ar y gweill | Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith |
| Ireidiau Olew | Hefo'r Adran Gyfreithiol | Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith |
| Rhannau Sbâr Cerbydau | Heb ddechrau | Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith |
| National Windscreens | Heb ddechrau | Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith |
| Ceir Fflyd | Heb ddechrau | Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith |
| Cyflenwi a Gosod Teiars yn dod i ben – 10.10.23 | Heb ddechrau | Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith |
| Amnewid Camera Corff | Opsiynau cwmpasu | Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith |
| ANPR BOFF | Opsiynau cwmpasu | Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith |
| Newid cerbydau | Hefo'r Adran Gyfreithiol | Dyfarniad Uniongyrchol drwy'r Fframwaith |
| Gwaredu gwastraff gwarchodedig papur | Ar y gweill | Cystadleuaeth Fach -£100,000 |
| Pensaer Gorsaf Heddlu newydd Yr Wyddgrug | Heb ddechrau | Cystadleuaeth Fach -£100,000 |
| AD – Offer i Staff er mwyn eu cynorthwyo nhw ar gyfer gwaith | Opsiynau cwmpasu | Cystadleuaeth Fach -£100,000 |
| Arwerthiannau Eiddo | Opsiynau cwmpasu | Cystadleuaeth Fach -£100,000 |
| Arolwg ac Archwiliad Asbestos | Hefo'r cyflenwr | Cystadleuaeth Fach -£100,000 |
| Drysau Newydd Gorsafoedd Tân Llanberis, Porthmadog a Harlech | Hefo'r cyflenwr | Cystadleuaeth Fach +£100,000 |
| Cadeiriau swyddfa | Ar y gweill | Dyfynbrisiau |

| | | |
|---|---|---|
| Llogi Sgip | Ar y gweill | Dyfynbrisiau |
| Ymgynghorydd Mecanyddol a Thrydanol Gorsaf Heddlu newydd Yr Wyddgrug | Heb ddechrau | Dyfynbrisiau |
| Meddalwedd Adnabod Wyneb (Evofit) | Opsiynau cwmpasu | Dyfynbrisiau |
| Sganio Ffeiliau'r Uned Iechyd Galwedigaethol | Wedi gohirio | Tendr -£100,000 |
| Cynnal a chadw a thrwsio CCC | ITT yn gwerthuso | Tendr -£100,000 |
| Gwasanaethau Cywasgu Aer – Tros y Trothwy | ITT wedi cyhoeddi | Tendr -£100,000 |
| Gwasanaethau Golchi Dillad NWFRS | Heb ddechrau | Tendr -£100,000 |
| Uwchraddiad Gwres Llawn Gorsaf Dân Llandudno | Heb ddechrau | Tendr -£100,000 |
| Gwasanaethau Gosod Lloriau – Tros y Trothwy | Opsiynau cwmpasu | Tendr -£100,000 |
| Meddyg a Nyrs yr Uned Iechyd Galwedigaethol – Ail dendr | ITT yn gwerthuso | Tendr +£100,000 |
| Cynnig Newid Optimwm RMU | Heb ddechrau | Tendr +£100,000 |
| Adeiladu Gorsaf Heddlu Newydd Yr Wyddgrug | Heb ddechrau | Tendr +£100,000 |
| Ymgynghorydd Costau Gorsaf Heddlu Newydd Yr Wyddgrug | Heb ddechrau | Tendr +£100,000 |
| Adeiladu Gorsaf Heddlu Newydd Caergybi | Opsiynau cwmpasu | Tendr +£100,000 |
| Cyfadran Hyfforddiant Mewnol Caled Drylliau Tanio Rhewl | Opsiynau cwmpasu | Tendr +£100,000 |
| Deunyddiau Glanhau a Gofalwyr | Opsiynau cwmpasu | Tendr +£100,000 |
| Cytundeb Trefn Gyhoeddus BLC | Opsiynau cwmpasu | Tendr +£100,000 |
| Canolfan Cymorth Dioddefwyr | Opsiynau cwmpasu | Tendr +£100,000 |
| Mentrau Strydoedd Diogelach | Opsiynau cwmpasu | Tendr +£100,000 |
| Amnewid Arfwisg | Ar y gweill | Cynnig gan un arall |
| Ail-dendr PEQF | Hefo'r Adran Gyfreithiol | Cynnig gan un arall |

**7. CYNIGION WEDI'U SELIO**

Dim

**8. HEPGOR RHEOLAU SEFYDLOG**

| |
|---|
| Sicrwydd Gwybodaeth Prosiect (Mehefin 2023) |
| X Ways, Griffeye a Magnet Forensics (Medi 2023) |
| Hyfforddiant TPAC (Medi 2023) |

**Dylid nodi bod yr adroddiad hwn wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2023**

HEDDLU GOGLEDD C
Gogledd Cymru diogelac

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

**Cydbwyllgor Archwilio**

**Dyddiad y Cyfarfod: 7/12/2023**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Papur Cyfarwyddyd Strydoedd Diogelach |
| **Awdur:** | Amanda Hanson, Rheolwr Comisiynu SCHTh |
| **Diben yr adroddiad:** | |
| **Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer:** **(ticiwch un)** | ☐ Penderfyniad<br>☐ Trafodaeth<br>☐ Sicrwydd<br>☐ √ Gwybodaeth |
| **Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:** | Ers dechrau Cronfa Strydoedd Diogelach y Swyddfa Gartref yn 2020, mae'r llywodraeth wedi rhoi cyfleoedd i wahanol SCHTh ymgeisio am gyllid drwy bedair rownd o Gyllid Strydoedd Diogelach a Chronfa Diogelwch Merched yn y Nos ledled Cymru a Lloegr. Dechreuodd Rownd Pump ar 6 Gorffennaf 2023. Am y tro cyntaf, mabwysiadwyd cyllid uniongyrchol. O ganlyniad, cafodd bob ardal heddlu ar draws Cymru a Lloegr hyd at £1 miliwn er mwyn ymgeisio am gyflawni ystod o ymyriadau dros y cyfnod rhwng 1 Hydref 2023 a 31 Mawrth 2025. Fodd bynnag, roedd cyllid cyfatebol yn ofyniad penodol.<br><br>Mae Heddlu Gogledd Cymru, SCHTh Gogledd Cymru a phartneriaid wedi bod yn gynigwyr llwyddiannus am gyllid yn y pum rownd ers 2020.<br><br>Mae hyn wedi golygu £4,634,145.82 o ran cyllid er mwyn gwneud strydoedd Gogledd Cymru yn fwy diogel.<br><br>Cyflawnwyd hyn drwy waith caled, ymroddiad a chydweithrediad gan bob partner sy'n gysylltiedig.<br><br>Rhoddir cyflwyniad yn y cyfarfod er mwyn rhoi gwybodaeth bellach ar y canlynol:<br><br>• Rhoi trosolwg o'r Prosiectau Strydoedd Diogelach<br>• Cynnwys gwybodaeth ar Drais yn Erbyn Merched a Genethod (Prosiectau VAWG)<br>• Cynnwys gwybodaeth ar brosiect Merched yn y Nos (SWaN)<br>• Cynnwys gwybodaeth ar gydweithio hefo partneriaid |
| **Argymhellion:** | Amherthnasol |
| **Effaith cofrestr risgiau:** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau sicrwydd:** | Amherthnasol |
| **Effaith Cydraddoldeb:** | Amherthnasol |
| **Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:** | Amherthnasol |